sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Sgrîn Fach: **Trafodaeth Fawr**
## Ymgynghoriad
### Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus



Cyhoeddwyd 8 Rhagfyr 2020

# Cynnwys


1. Crynodeb 2

2. Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus 8

3. Pam mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig o hyd 15

4. Mae technoleg a chystadleuaeth fyd-eang yn sbarduno’r angen am newid 28

5. Cynigion ar gyfer system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gref 41

6. Sicrhau cynaliadwyedd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y dyfodol 55

7. Cyfleoedd ar gyfer y tymor hwy 64

8. Casgliad 71


## Atodiadau


A1. Geirfa 73

A2. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn 74

A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 77

A4. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad 78

A5. Cwestiynau’r ymgynghoriad 79

# 1. Crynodeb

**Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn rhannu canfyddiadau ein gwaith ymchwil a dadansoddi helaeth ar gyfer Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.** Mae ein hadolygiad yn edrych ar sut mae cynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus dros y degawd nesaf a'r tu hwnt. Rydym yn amlinellu dewisiadau ar gyfer moderneiddio'r fframwaith presennol er mwyn darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n gwylio teledu a ddarlledir ac ar-lein.

## Mae sector cyfryngau'r DU yn llwyddiant ysgubol, gyda darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ganolog iddo.

1.4 **Mae gennym fyd darlledu a chyfryngau unigryw yn y DU**: cymysgedd pwerus o gwmnïau cyhoeddus a masnachol, llwyfannau byd-eang mawr a bach a gwasanaethau ffrydio ochr yn ochr â sector cynhyrchu annibynnol bywiog. Nid yw cynulleidfaoedd erioed wedi mwynhau cymaint o ddewis. Maent yn elwa o ddrama ac adloniant o'r radd flaenaf yn y DU, newyddion diduedd a dibynadwy, materion cyfoes rhagorol a byd radio unigryw sy'n siarad â chymunedau, rhanbarthau a gwledydd amrywiol y DU ac yn eu hadlewyrchu. Mae cyfryngau cenedlaethol a rhanbarthol y DU yn rhan ganolog o'i diwylliant, ei heconomi greadigol a'i llais byd-eang.

1.5 **Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wrth galon diwydiant creadigol y DU ac mae wedi siapio'r system fel y mae heddiw.** Yn y canol, mae'r BBC gyda'i gyrhaeddiad a'i raddfa fyd-eang, yn darparu cynnwys unigryw ar draws amrywiaeth o genres, ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws y DU. Mae Channel 4 yn hyrwyddo amrywiaeth o gynnwys a safbwyntiau sy'n apelio at gynulleidfaoedd iau. Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, ITV, STV a Channel 5 yn darparu lluosogrwydd mewn newyddion a buddsoddiad sylweddol mewn rhaglenni gwreiddiol, gan apelio at ystod eang o gynulleidfaoedd ledled y DU. Mae S4C ac MG ALBA yn sicrhau bod cynnwys Cymraeg a Gaeleg amrywiol a modern ar gael.

1.6 **Nid oes gan yr un wlad arall y cyfuniad na'r amrywiaeth hwn o gwmnïau cyhoeddus a masnachol,** sy'n darparu teledu a radio sydd ar gael yn eang ar sawl llwyfan, gyda chylch gwaith penodol i ddarparu cynnwys sy'n cyfoethogi diwylliant, cymdeithas a democratiaeth y DU. Mae hyn yn seiliedig ar ddau ymyriad polisi cyhoeddus allweddol: fframwaith rheoleiddio sydd wedi'i ddylunio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gynulleidfaoedd a chreu cymhellion i ddarlledwyr masnachol gyflawni rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus; a chyllid cyhoeddus i'r BBC drwy ffi'r drwydded.

1.7 **Mae llwyddiant ein sector cyfryngau hefyd wedi cael ei sbarduno gan arloesi a buddsoddi yn y sector preifat.** Mae cwmnïau fel Sky a Discovery yn gweithredu y tu allan i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn comisiynu ac yn cynhyrchu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel yn y DU, gan gynnwys newyddion, ac yn buddsoddi mewn technoleg newydd a all fod o fudd i wylwyr a'r farchnad. Mae darparwyr cynnwys byd-eang fel Netflix hefyd yn cyfrannu fwyfwy at economi greadigol y DU.

## Pam mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig o hyd

1.8 **Mae cynulleidfaoedd wedi elwa dros y degawd diwethaf gyda'r twf anhygoel mewn cynnwys a gwasanaethau sydd ar gael ar y teledu ac ar-lein.** Gyda chymaint o ddewis ar gael, mae'n bwysig gofyn a oes achos dros ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus o hyd. Rydym wedi nodi pum prif ddadl.

**a)** **Mae rhai mathau o raglenni'n dibynnu'n fawr ar gyfraniad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.** Mae'r risg gynyddol o gamwybodaeth wedi arwain at ategu gwerth newyddion o ffynonellau dibynadwy a hirsefydlog. Roedd y cynulleidfaoedd roeddem wedi siarad â nhw wedi nodi mai newyddion "dibynadwy a chywir" oedd nodwedd bwysicaf darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dim ond rhywfaint o raglenni plant, y celfyddydau, addysg ffurfiol, crefydd a moeseg o'r DU yn cael eu darparu gan ddarlledwyr eraill hefyd.

b) **Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dod â phobl at ei gilydd drwy greu profiadau i'r gwledydd eu rhannu.** Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd o bob oed a demograffeg yn gwerthfawrogi'r hyn mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei gynnig, nid yn unig iddynt hwy fel unigolion, ond yn fwy cyffredinol o ran cysylltu cenedlaethau a chymdeithas yn gyffredinol drwy roi sylw i ddigwyddiadau a rhaglenni y mae miliynau lawer o bobl yn eu gwylio.

**c)** **Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu amrywiaeth y DU ar draws ei gwledydd a'i rhanbarthau.** Er gwaethaf pwysau cynyddol ar gyllidebau, mae'r gofynion rheoleiddio i ddangos cynnwys gwreiddiol yn un o'r prif resymau pam mai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw'r buddsoddwyr mwyaf mewn rhaglenni newydd yn y DU o hyd. Dangosodd ein gwaith ymchwil fod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r portread dilys hwn o fywyd yn y DU. Roeddent hefyd yn mynegi balchder o weld eu hardal eu hunain ar y sgrin, rhywbeth na allent ddod o hyd iddo yn rhywle arall, ac a oedd yn eu cysylltu ag eraill.

d) **Mae grwpiau agored i niwed, yn ogystal â'r rheini nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd, yn gallu mwynhau amrywiaeth eang o wybodaeth ac adloniant, drwy ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Dywedodd y cynulleidfaoedd sy'n dibynnu fwyaf ar y math hwn o raglenni wrthym ei fod yn rhan hanfodol o'u bywydau. Nodwyd fod y rhaglenni hyn yn bwysig o ran mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol a'r wybodaeth sy'n cael ei chynnig.

e) **Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn sail i economi greadigol y DU.** Mae'n gwario bron i £3 biliwn bob blwyddyn, gan sicrhau bod sector cynhyrchu'r DU, sy'n cael ei gydnabod a'i edmygu'n fyd-eang, yn parhau i fod yn gryf. Mae'n caniatáu i fusnesau llwyddiannus dyfu, drwy gefnogi gweithlu medrus iawn a helpu i ddatblygu talent newydd. Mae gofynion rheoleiddio drwy gwotâu cynyrchiadau rhanbarthol ar bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau bod y manteision hyn yn cael eu rhannu'n eang ledled y DU.

## Mae cyrhaeddiad a pherthnasedd cyffredinol yn hanfodol er mwyn sicrhau manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus

1.9 **Daw cryfder penodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus o'i allu i apelio at bobl o bob cefndir,** gan geisio cyrraedd a gwasanaethu pawb yn y DU. Pwysleisiodd y cynulleidfaoedd roeddem wedi siarad â nhw eu bod yn troi at ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynnwys sy'n diddanu, sy'n adlewyrchu bywyd a gwerthoedd yn y DU ac sy'n eu helpu i ddeall y byd.

## Mae technoleg a chystadleuaeth fyd-eang yn sbarduno'r angen am newid

1.10 **Mae'r sector cyfryngau sy'n newid yn gyflym yn golygu bod y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar groesffordd hollbwysig.** Mae cynulleidfaoedd yn troi fwyfwy oddi wrth deledu sy'n cael ei ddarlledu ac yn cael gafael ar gynnwys drwy amrywiaeth o wasanaethau eraill, sy'n ei gwneud yn anoddach i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu cyrraedd a chysylltu â nhw.

1.11 **Mae gwasanaethau cynnwys byd-eang a gweithredwyr llwyfannau pwerus yn meithrin perthnasoedd newydd â defnyddwyr,** gan gwmpasu nifer o wasanaethau a darparu rhyngwynebau defnyddwyr sy'n cael eu personoli fwyfwy. Maent wedi buddsoddi'n sylweddol mewn llyfrgelloedd cynnwys helaeth, a ddatblygwyd yn bennaf i apelio at gynulleidfaoedd ledled y byd. Mae hyn yn cael ei ategu gan lwyfannau rhannu fideos ar-lein. Amcangyfrifir bod 500 o fideos yn cael eu llwytho i fyny bob munud ar YouTube yn unig. Mae gwasanaethau ffrydio newydd hefyd yn buddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU ac yn cyfrannu fwyfwy at ein heconomi greadigol.

1.12 **Mae nifer y cynulleidfaoedd teledu a ddarlledir yn gostwng, yn enwedig gwylwyr iau.** Yn ystod 2019, dim ond 38% o gyfanswm y gwylio ar gyfer pobl 16-34 oed oedd yn cynrychioli cynnwys a ddarlledir, a 67% ar gyfer pob cynulleidfa (gan gynnwys teledu byw, rhaglenni wedi'u recordio a dal i fyny). Mae ein hymchwil ymysg cynulleidfaoedd yn dangos, er bod gwylwyr iau yn dal i wylio a gwerthfawrogi rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus, maent yn teimlo llai o gysylltiad o lawer â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Dim ond ar wasanaethau ar-lein neu ffrydio y mae rhai pobl ifanc yn darganfod cynnwys a gomisiynwyd yn wreiddiol gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

1.13 **Roedd llwyfannau byd-eang yn cael mwy o bŵer fel y pwynt mynediad rhwng cynulleidfaoedd a chynnwys** ac oherwydd eu gallu i sicrhau cytundebau byd-eang hefyd. Mae gwasanaethau fel Netflix yn gallu sicrhau eu bod yn flaenllaw ac yn amlwg ar draws ystod eang o lwyfannau teledu, ac mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chael yn fwyfwy anodd sicrhau telerau ffafriol tebyg ar gyfer amlygrwydd. Mewn adroddiad a gomisiynwyd ar gyfer yr adolygiad hwn, roedd Mediatique yn dadlau nad oes gan yr un darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, heblaw am y BBC, y nodweddion 'hanfodol', hynny fel graddfa ac ymgysylltiad brand, sydd eu hangen i fargeinio â gwasanaethau cyd-gasglu cynnwys.

1.14 **Mae ffactorau eraill wedi rhoi pwysau sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd.** Mae'r refeniw hysbysebu traddodiadol yn y

farchnad dorfol, sydd wedi bod yn sylfaen i incwm darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol, yn debygol o fod yn llai gwerthfawr wrth i lefelau gwylio teledu a ddarlledir ostwng. Dros amser, mae'r newid i wylio ar-lein yn agor modelau busnes newydd, gan gynnwys dulliau personol sy'n seiliedig ar ddata i hysbysebwyr. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gorfod buddsoddi mwy i ddatblygu eu strategaethau ar-lein, gan gynnal eu gwasanaethau darlledu teledu ar yr un pryd.

## Mae angen fframwaith rheoleiddio newydd ar frys

1.15 **Ychydig iawn o newid a welwyd yn y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bresennol a'r drefn reoleiddio ers 2003.** Mae'n dal i ganolbwyntio ar wasanaethau teledu a ddarlledir traddodiadol. Mae'r manteision a'r rhwymedigaethau a roddir ar ITV/STV, Channel 4, S4C a Channel 5 yn berthnasol i'w prif sianeli teledu yn unig. Mae'r rhwymedigaethau yn Nhrwydded Weithredu'r BBC yn berthnasol i'w gynnyrch teledu a radio yn bennaf.

1.16 **Bellach, mae taer angen fframwaith newydd i gefnogi'r broses o drosglwyddo'n effeithiol i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, sy'n pontio teledu ar-lein a theledu a ddarlledir.** Bydd gofyn sefydlu hyn drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae angen i'r fframwaith fod yn hyblyg i aros yn effeithiol a pherthnasol mewn byd lle bydd newid yn y ffordd y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoedd yn darparu cynnwys, a'r dechnoleg y mae gwylwyr yn ei defnyddio i'w wylio. Dylid ei ddylunio er mwyn iddo allu addasu i'r newidiadau hyn yn y dyfodol.

1.17 **Byddai'r fframwaith newydd yn gosod nodau clir ar gyfer darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gyda mwy o ddewis o ran sut maent yn eu cyflawni.** Rydym yn argymell y byddai'n rhaid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus nodi eu cynlluniau yn gyhoeddus, mesur sut maent yn cael eu darparu ac adrodd ar y canlyniadau maent wedi'u cyflawni. Byddai Ofcom yn eu dal i gyfrif gyda phwerau cadarn i gamu i mewn pe bai angen.

1.18 **Dylai'r system newydd sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn amlwg er mwyn i gynulleidfaoedd allu dod o hyd iddynt yn rhwydd.** Erbyn hyn, mae llawer mwy o ffyrdd o ddewis beth i'w wylio, gyda llawer o bobl bellach yn cael gafael ar gynnwys drwy setiau teledu cysylltiedig. Y llynedd, fe wnaethom argymell bod y llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth newydd i gadw cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn amlwg mewn byd ar-lein. Mae sgyrsiau diweddar â'r diwydiant wedi tynnu sylw at y ffaith fod hyn yn dal yn flaenoriaeth frys i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

1.19 **Rydym yn argymell bod y fframwaith newydd yn sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael ar amrywiaeth o lwyfannau.** Mae rheoliad yn ategu'r ffaith bod y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol ar gael yn eang, sef 'rheolau rhaid cynnig, rhaid cyflawni'. Nid oes gan wasanaethau ar-alw ddulliau diogelu fel rhain. Gyda'r cynnydd mewn llwyfannau byd-eang pwerus, rydym yn credu bod risg wirioneddol y gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ei chael yn anodd cytuno ar delerau teg ar gyfer eu cynnwys ac efallai felly na fydd ar gael ar rai llwyfannau teledu.

1.20 **Rydym hefyd yn ystyried a oes meysydd yn y rheoliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol y gellir ac y dylid eu diweddaru heb ddeddfwriaeth newydd** i gefnogi darlledu

gwasanaeth cyhoeddus i ddatblygu'n gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Yn benodol, rydym yn bwriadu adolygu'r berthynas rhwng darparwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu yn gynnar y flwyddyn nesaf i asesu a yw ein canllawiau ar delerau comisiynu cynyrchiadau annibynnol yn dal yn addas i'r diben.

## Sicrhau cynaliadwyedd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y dyfodol

1.21 **Er mwyn i'r sector fod yn effeithiol, mae angen iddo fod yn gadarn yn ariannol.** Wrth i hysbysebion teledu a ddarlledir ostwng, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn chwilio am ffrydiau incwm ychwanegol, gan gynnwys hysbysebu ar-lein, gwasanaethau tanysgrifio a refeniw o gynyrchiadau. Gan fod refeniw ffi'r drwydded yn gostwng mewn termau real, mae cyfarwyddwr cyffredinol y BBC wedi pwysleisio pwysigrwydd adeiladu incwm masnachol. Bydd angen parhau â'r cyllid cyhoeddus o hyd, ac fe wnaethom gomisiynu gwaith ymchwil ar ddulliau rhyngwladol er mwyn cyfrannu at yr adolygiad hwn.

1.22 **Gall partneriaethau strategol sicrhau cynaliadwyedd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ymhellach.** Er mwyn gwasanaethu a chyrraedd cynulleidfaoedd yn well, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol eisoes yn cydweithio. Mae Freeview a BritBox yn ddwy enghraifft. Gallai cysylltiadau strategol dyfnach rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chwmnïau allweddol eraill – yn enwedig ar lwyfannau ac yn y maes dosbarthu – helpu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gadw ar y blaen a chystadlu'n effeithiol â chwaraewyr byd-eang. Gallai gwaith ymchwil a datblygu a rennir, data perfformiad a gweithgareddau cefn swyddfa leihau costau, gwella effeithlonrwydd ac arloesi.

## Bydd angen dulliau radical er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa

1.23 **Mae cynulleidfaoedd iau yn defnyddio gwahanol fathau o gynnwys,** gan gynnwys gemau fideo a fideos ffurf-fer a fideos a gynhyrchir gan ddefnyddwyr. Mae pobl ifanc 16-24 oed yn treulio bron i awr a hanner bob dydd ar YouTube. Maent hefyd yn treulio mwy o amser yn gwylio cynnwys ar-lein, yn ogystal ag ar wasanaethau ffrydio byd-eang a'r cyfryngau cymdeithasol.

1.24 **Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol yn darparu eu cynnwys ar-alw yn bennaf drwy eu chwaraewyr eu hunain** fel BBC iPlayer neu All 4. Er bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddatblygu eu strategaethau ar-lein, gallent edrych ar ffyrdd o gyrraedd y cynulleidfaoedd hynny na fyddent fel arfer yn defnyddio eu chwaraewyr. Wrth i gynulleidfaoedd ddefnyddio ystod ehangach o wasanaethau, mae'n bosibl y bydd cysylltiad â'r brandiau mwy traddodiadol hyn yn dirywio i bwynt lle mae'n anodd ei ailadeiladu.

## Gallai darparwyr newydd gryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

1.25 **Mae manteision i annog darparwyr newydd, ochr yn ochr â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol, i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.** Mae darparwyr presennol yn cynnig arbenigedd a brandiau dibynadwy. Gallai darparwyr newydd helpu i sbarduno arloesedd, drwy fuddsoddi mewn gwahanol fathau o

gynnwys neu wasanaethau i apelio at ystod ehangach o gynulleidfaoedd ar-lein. Byddai hyn yn helpu i ddiogelu cyrhaeddiad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac yn helpu i gryfhau lluosogrwydd dewis ar gyfer cynulleidfaoedd.

1.26 **Gallai set fwy amrywiol o ddarparwyr a llwyfannau, sy'n buddsoddi mewn cynyrchiadau yn y DU** ac sy'n darparu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel yn y DU, gefnogi cynaliadwyedd a sicrhau llwyddiant i sector cyfryngau'r DU yn y dyfodol.

# 2. Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus


**Crynodeb;**

- Fe wnaethom lansio Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr i gyfrannu at ein hargymhellion i'r Llywodraeth ynghylch sut gall y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bresennol newid i fod yn system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Mae sector cyfryngau'r DU yn llwyddiant ysgubol, sy'n cael ei sbarduno gan arloesi a buddsoddi yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.
- Mae'r amrywiaeth o gynnwys a gwasanaethau a gynhyrchir gan y system gymysg hon yn rhoi gwerth i gynulleidfaoedd ledled y DU a thwf economaidd drwy'r sector cynhyrchu llwyddiannus.
- Mae buddsoddiad masnachol gan ddarparwyr cynnwys rhyngwladol a rhai yn y DU wedi cynyddu'n sylweddol ac mae sector cynhyrchu'r DU wedi tyfu i fod yn llwyddiant byd-eang.


## Sut mae Ofcom wedi ymdrin â Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr

2.1 Yn neddfwriaeth y DU, diffinnir darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel set o ddibenion ac amcanion y mae'n rhaid i restr benodol o sianeli teledu eu cyflawni.[1] Rhaid iddynt ddarparu cynnwys o ansawdd uchel yn y DU, sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, yn ogystal ag adlewyrchu diwylliant amrywiol y DU. Yn gyfnewid am hynny, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael breintiau penodol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau amlygrwydd ac argaeledd y gwasanaethau hyn ac i gefnogi'r broses o ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn effeithiol.

2.2 Rôl Ofcom yw monitro pa mor dda mae'r system yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys adolygiad rydym yn ei gynnal bob pum mlynedd, gan adrodd ar berfformiad y system ac egluro sut rydym yn credu y gellir cynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.


2.3 Cafodd deddfwriaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei diweddaru'n sylweddol ddiwethaf yn 2003 ac mae'n teimlo'n fwyfwy hen ffasiwn, gan fod y ddeddfwriaeth a'r fframwaith rheoleiddio ategol yn canolbwyntio ar sianeli teledu a ddarlledir yn unig. Dim ond tua hanner (53%) cyfanswm gwylio dyddiol unigolyn cyffredin sy'n cael ei ddarlledu erbyn hyn Mae gweddill yr amser yn cael ei dreulio ar amrywiaeth eang o wasanaethau cynnwys ar-alw ac ar-lein.[2]

[1] BBC One, BBC Two, BBC Four, BBC ALBA, BBC Scotland, BBC News, CBBC, CBeebies, BBC Parliament, Botwm Coch y BBC, ITV, STV, Channel 4, S4C a Channel 5.

[2] Pob unigolyn 4+, 2019. Ffynhonnell: Amcangyfrifon Ofcom o gyfanswm yr holl wylio sain/fideo. Wedi'i fodelu o ddata BARB, Comscore a Touchpoints.

2.4 Dyma pam ein bod, yn ogystal â’n hasesiad manwl o berfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus rhwng 2014 a 2018, a gyhoeddwyd gennym ddechrau’r flwyddyn,[3] wedi lansio Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr i edrych yn fwy eang o lawer ar ddyfodol y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn ystod 2020, rydym wedi siarad â chynulleidfaoedd o bob oed a chefndir ledled y DU i gael gwybod beth sydd ei eisiau a’i angen arnynt gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, a beth maent yn ei ddisgwyl. Rydym wedi cwrdd â dros 70 o randdeiliaid, gan gynnwys darlledwyr, gwasanaethau ffrydio, academyddion a dadansoddwyr yn y DU a thramor, ac wedi cynnal cynadleddau rhithiol yn y diwydiant a sawl digwyddiad i randdeiliaid ledled y DU.

**Ffigur 1: Lleoliadau grwpiau ymchwil ac ymgysylltu rhanddeiliaid Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr**




**Lleoliadau ymchwil** **Lleoliadau cyfarfodydd/digwyddiadau**

*Yn ogystal â’n rhith-gynhadledd SgrinFach: Trafodaeth Fawr, fe gynhaliom nifer o gyfarfodydd rhithwir gyda rhanddeiliaid ar draws y DU ac yn rhyngwladol hefyd gan gynnwys gyda darlledwyr, cynhyrchwyr, academyddion a phartïon eraill sydd â diddordeb.*

[3] Ofcom, Chwefror 2020. Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - adolygiad pum mlynedd o DDarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (2014-218).

2.5 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein canfyddiadau cychwynnol. Rydym yn dod i'r casgliad bod angen fframwaith newydd i gyflawni amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn byd sy'n dod yn fwyfwy ar-lein. Rhaid i hyn fod yn seiliedig ar gysyniad ehangach, sy'n cydnabod, yn cefnogi ac yn annog darparu Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, ar draws amrywiaeth o wasanaethau darlledu ac ar-lein.

2.6 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi dechrau cam newydd yn yr adolygiad hwn. Rydym yn croesawu safbwyntiau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys nodweddion fframwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd, sut dylid ei reoleiddio a sut gellir ei gynnal. Ein bwriad yw cyhoeddi ein canfyddiadau a'n hargymhellion i'r Llywodraeth yn ystod yr haf nesaf, er mwyn cyfrannu at y gwaith o feddwl am bolisi ar gyfer system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd. Yn ogystal â'r broses hon, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu panel yn ddiweddar i roi cyngor pellach iddi ar newidiadau yn y dyfodol ac mae'n cynnal adolygiad o Ddyfodol Radio a Sain, y mae Ofcom yn rhoi mewnbwn iddo. Mater i'r Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig yw unrhyw benderfyniadau ynghylch dyfodol y fframwaith statudol; gobeithiwn y bydd yr ymgynghoriad hwn a'n hadroddiad terfynol y flwyddyn nesaf yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol fel sail i'r penderfyniadau hynny.

## Rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y sector cyfryngau ehangach

2.7 Mae sector cyfryngau'r DU yn 2020 yn fwy amrywiol nag erioed o'r blaen. Yn ogystal â channoedd o sianeli teledu, mae mwy a mwy o wasanaethau ffrydio'n cael eu darparu dros y rhyngrwyd yn uniongyrchol i setiau teledu a dyfeisiau cysylltiedig eraill, gan amrywiaeth enfawr o gwmnïau gan gynnwys cwmnïau mawr byd-eang fel Netflix, Amazon, Disney a YouTube Google. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i gynnal tua 450 o gwmnïau cynhyrchu, o gwmnïau annibynnol mawr rhyngwladol i arbenigwyr bach iawn, ac amcangyfrifir bod y refeniw cyfun yn dod i gyfanswm o £3.3bn.[4]

2.8 Mae'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC One, BBC Two, ITV/STV, Channel 4 a Channel 5), S4C a sianeli gwasanaeth cyhoeddus eraill y BBC yn dangos tua 32,000 awr o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf bob blwyddyn. Yn ogystal â chynnyrch eu prif sianeli, mae ITV, Channel 4[5] a Channel 5 wedi dangos 2,056 awr yn rhagor o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar eu sianeli portffolio masnachol yn 2018. Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r wlad, roedd y prif wasanaethau hefyd wedi dangos dros 6,300 awr o newyddion y DU a newyddion rhyngwladol yn 2019, yn ogystal â llawer iawn o gynnwys wedi'i greu'n benodol ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU: roedd 10,887 awr o raglenni gwreiddiol newydd o'r math hwn ar gael i wylwyr yn 2019.[6]

[4]Adroddiad Oliver & Ohlbaum ar gyfer Pact, Awst 2020. UK Television Production Survey: Financial Census 2020 ('Cyfrifiad Pact 2020'), t. 3; adroddiad Mediatique ar gyfer Ofcom, Hydref 2020. State of the markets in which BBC Studios operates, t. 43.
[5] Yn ogystal â darparu ei sianel Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, mae Corfforaeth Channel 4 hefyd yn gyfrifol am gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau cynnwys cyfryngau statudol eraill ar draws ei gwasanaethau eraill.
[6] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Mae'r ffigur ar gyfer oriau newyddion yn cyfeirio at y pum prif sianel Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn unig.

2.9 Mae gofyn buddsoddi mewn cynnwys yn y fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd y DU. Fel y darparwr mwyaf, mae'r BBC yn gwario'r swm mwyaf ar raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (£1.2bn yn 2019) ar draws yr amrywiaeth ehangaf o genres (roedd yn darlledu 1,768 awr o raglenni 'mewn perygl' newydd[7] yn 2019 o'i gymharu â 1,026 ar draws ITV, Channel 4 a Channel 5 gyda'i gilydd).[8] Gwariodd ITV dros £790m ar raglenni gwreiddiol newydd yn 2019.[9] Fel darlledwr-gyhoeddwr, mae Channel 4 yn comisiynu cynnwys gan amrywiaeth arbennig o amrywiol o gynhyrchwyr, gyda 43 o gyflenwyr newydd ymysg y 274 o gynhyrchwyr y bu'n gweithio gyda nhw yn 2019.[10] Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Channel 5 wedi ymrwymo fwyfwy i raglenni'r DU. Rhwng 2013 a 2019, cynyddodd nifer y cynnwys gwreiddiol o'r DU a ddangoswyd yn ystod oriau gwylio brig o 52% i 80% fel cyfran o'r holl gynnwys oriau brig. Yng Nghymru, mae S4C yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn parhau i gael gafael ar raglenni gwreiddiol yn y Gymraeg, gan wario £73m ar gynnwys newydd yn 2019-20, i fyny o £62m y flwyddyn flaenorol. Yn yr Alban, roedd STV wedi dangos 523 awr o gynnwys gwreiddiol yn benodol i'r Alban a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf yn 2019. Dangosodd MG ALBA, gan weithio mewn partneriaeth â'r BBC, 670 awr o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar wasanaeth BBC ALBA yn 2019 i wasanaethu siaradwyr a dysgwyr Gaeleg.[11]

2.10 Mae darlledwyr ar wahân i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn buddsoddi mewn miloedd o oriau o gynnwys newydd, gwreiddiol o'r DU bob blwyddyn. Gyda'i gilydd, roedd darparwyr amlsianel yn y DU, gan gynnwys cwmnïau fel Sky a Discovery, yn darparu tua 22,900 awr o gynnwys o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn 2018, gan gynnwys 13,400 o arlwy chwaraeon a 7,400 awr o newyddion.[12] Roedd gwasanaethau ffrydio fel Netflix ac Amazon Prime wedi darparu 182 awr arall o gynnwys a gynhyrchwyd yn y DU yn 2018.[13]

2.11 Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr masnachol eraill yn ariannu cynnwys teledu gwreiddiol o'r DU mewn amrywiaeth eang o genres, gan gynnwys gwariant sylweddol ar raglenni drama, adloniant, ffeithiol a newyddion, gyda symiau mawr ychwanegol yn cael eu gwario ar chwaraeon. Ond, heblaw am chwaraeon, lle mae gwariant yn anghymesur o ganlyniad i gost prynu hawliau yn hytrach na chynhyrchu cynnwys, mae cyllid darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynnwys ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus yn fwy sylweddol ac yn cael ei rannu ar draws ystod ehangach o genres na darlledwyr eraill.

---

[7] Mae'r ffigurau'n cyfeirio at raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac sydd mewn perygl (heb gynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a chynnwys wedi'i brynu), heblaw am gynnwys sydd wedi'i wneud yn benodol ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae Atodlen 2 Cytundeb y BBC yn nodi cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd, cynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant fel genres rhaglenni nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio.

[8] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.

[9] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.


[10] Adroddiadau Blynyddol Channel 4 2019, t. 17.

[11] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Mae ffigurau gwariant S4C wedi'u mynegi mewn termau real.

[12] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.

[13] Ampere Analysis, Rhagfyr 2018. Mae'n cynnwys oriau Netflix Originals ac Amazon Originals, lle mai'r DU yw'r prif leoliad cynhyrchu.

**Ffigur 2: Gwariant amlsianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r DU yn ôl genre (heb gynnwys chwaraeon), 2018, £ miliynau**




*Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi mewn termau nominal. Ffynhonnell: Data darlledwyr wedi'i gyflwyno i Ofcom. Nid yw'n cynnwys gwariant chwaraeon (£488m gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, £3,226m gan wasanaethau amlsianel) a ffigurau gwariant o lai na £1m.*[14]

2.12 Mae cynulleidfaoedd yn 2020 yn gallu cael gafael ar fwy o gynnwys gwreiddiol o'r DU nag erioed o'r blaen gan gyfuniad o ddarparwyr sydd wedi ennill eu plwyf a chwmnïau sy'n newydd i'r farchnad, gan gynnwys gwasanaethau fideo ar-alw (SVoDs) drwy danysgrifio, fel Netflix, Amazon Prime Video a Disney+. Roedd gan ddefnyddwyr Netflix ac Amazon Prime Video fynediad at 105.569 awr o gynnwys ym mis Ebrill 2020, ac roedd 8% o'r rheini'n oriau cynnwys a gynhyrchwyd yn y DU.[15] Mae cynnwys y DU ar y gwasanaethau ffrydio hyn yn tueddu i fod mewn ystod gulach o genres (comedi a drama yn bennaf) na'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

2.13 Mae graddfa, sgiliau ac enw da am waith creadigol cynhyrchu yn y DU yn golygu ei fod yn ddeniadol iawn i fuddsoddwyr masnachol o'r DU a thramor. Canlyniad hyn oedd cynnydd sylweddol mewn gwariant masnachol ar gynnwys newydd yn y DU dros y ddau ddegawd diwethaf: amcangyfrifir bod cyfanswm y gwariant ar gynnwys teledu gwreiddiol o'r DU wedi cynyddu o £2.6bn yn 2004 i rhwng £4.5bn a £5bn yn 2018.[16] Roedd gwariant ar gomisiynau cynhyrchu annibynnol newydd gan ddarparwyr masnachol yn y DU (gan gynnwys Sky ac UKTV) wedi cyrraedd £390 miliwn yn 2019, ac roedd gwasanaethau ffrydio

[14] Mae ffigurau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn cynnwys BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBBC, CBeebies, BBC News, BBC Parliament, ITV, Channel 4, a Channel 5. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys S4C, BBC ALBA, BBC HD, rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau, na gwariant trydydd parti. Rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer wasanaethau amlsianel ar gyfer AETN UK, AMC Networks, BT, Columbia Pictures, Discovery, Disney/Fox Networks Group, Sky UK/NBC Universal International, Talking Pictures TV, Turner, UKTV a Viacom.
[15] Ampere Analysis, Ebrill 2020, Oriau'r DU.
[16] Yn ôl amcangyfrif Ofcom (2006), roedd gwariant rhaglenni comisiwn a ddangoswyd am y tro cyntaf ar gynyrchiadau yn y DU tua £2.6bn yn 2004. Gan ddefnyddio data gwariant Ofcom ar y rhwydwaith Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, sianeli portffolio a rhanbarthol, amcangyfrifon Enders Analysis o wariant SVOD, ac amcangyfrifon COBA o wariant amlsianel rydym yn amcangyfrif bod gwariant rhaglenni comisiwn a ddangoswyd am y tro cyntaf ar gynyrchiadau yn y DU rhwng £4.5bn a £5bn yn 2018.

fel Netflix ac Amazon Prime wedi gwario cyfanswm o £337m.[17] Yn 2019, cyhoeddodd Sky gynlluniau i ddyblu ei fuddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU erbyn 2024. Mae'n datblygu canolfan stiwdios newydd yn Elstree, ac mae'n amcangyfrif y bydd yn ychwanegu £3 biliwn at yr economi greadigol yn ystod ei phum mlynedd gyntaf ar waith.[18] Cyhoeddodd Netflix hefyd gynlluniau ar gyfer canolfan gynhyrchu newydd yn y DU yn Shepperton Film Studios, sy'n cynnwys 14 llwyfan sain, gweithdai a gofod swyddfa.[19]


2.14 Fodd bynnag, mae comisiynu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o'r buddsoddiad mewn cynyrchiadau yn y DU, ac yn 2019 roedd cyfanswm gwariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys teledu newydd yn y DU yn £2.8bn.[20] Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gwario rhwng £1.2bn ac £1.3bn ar gynyrchiadau annibynnol newydd yn y DU bob blwyddyn ers 2012, gyda chyfanswm y gwariant yn 2019 ychydig o dan £1.3bn.[21] Mae'r buddsoddiad cyson hwn wedi gosod sylfaen ar gyfer twf cryf yng nghyfanswm refeniw'r sector cynhyrchu annibynnol, sydd wedi cynyddu dros 30% ers 2014.[22]

2.15 Gellir teimlo effaith economaidd sector cynhyrchu teledu llwyddiannus y DU ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Mae Ffigur 3 isod yn dangos sut mae cyfanswm gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr masnachol ar gynyrchiadau annibynnol yn y DU yn cael ei rannu ar draws y gwledydd. Roedd cynyrchiadau annibynnol y tu allan i Lundain wedi cynhyrchu dros £1 biliwn o refeniw yn 2019, ac roedd comisiynu ar gyfer y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn cynrychioli 61% (dros £600m) o hynny.[23] Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn cefnogi economïau'r gwledydd a'r rhanbarthau drwy eu gweithrediadau mewnol eu hunain. Mae dros hanner (52%) gweithlu'r BBC yn gweithio y tu allan i Lundain; fel y mae bron i hanner gweithlu ITV.[24] Yn hydref 2019, agorodd Channel 4 bencadlys cenedlaethol newydd yn Leeds a chanolfannau creadigol yn Glasgow a Bryste.[25]

---

[17] Pact census 2020, t. 15; t. 23-24. Mae Pact yn diffinio "cynhyrchwyr annibynnol" fel cwmnïau cynhyrchu nad ydynt yn eiddo llwyr i ddarlledwyr y DU. Yn dilyn ein sgyrsiau â chynhyrchwyr annibynnol, rydym yn ymwybodol bod gwasanaethau ffrydio yn tueddu i dalu am fwy o hawliau i ddefnyddio cynnwys nag y mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei wneud – sy'n golygu bod Netflix ac Amazon yn debygol o dalu mwy fesul eitem o gynnwys gwreiddiol maen nhw'n ei gomisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol nag y bydd Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei wneud.
[18] Sky, 2020. Cyflwyniad i Ymchwiliad y Pwyllgor Digidol, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.
[19] Netflix, 3 Gorffennaf 2019, datganiad i'r wasg.
[20] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Buddsoddodd y prif sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus £2.5bn mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn 2019. Ar ben hynny, gwariodd y BBC ac ITV £316m ar gynnwys o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
[21] 'Pact census 2020', t. 16.
[22] 'Pact census 2020', t. 8.
[23] Oliver & Ohlbaum ar ran Pact, 2020. 'UK Television Production Survey Financial Census 2020 – Nations & Regions Annex'. t. 7.
[24] BBC, 2020. Adroddiad Blynyddol y BBC 2019/20, t. 31. Mae'r BBC wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu cynyddu'r gyfran hon i ddwy ran o dair erbyn 2027: gweler BBC, 2020. Cynllun Blynyddol y BBC 2020/21, tudt.alen 46; ITV, 2020. Cyflwyniad i Ymchwiliad y Pwyllgor Digidol, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t. 8.
[25] Channel 4, 2020. Corfforaeth Channel Four Television – Adroddiad a Datganiadau Ariannol 2019, t. 14.

**Ffigur 3: Cyfran o gyfanswm y gwariant comisiynu annibynnol ar gynyrchiadau yn y DU gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl rhanbarth cynhyrchu, 2019**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad Pact 2020, Atodiad: Gwledydd a Rhanbarthau, sleidiau 7-8. Nid yw hyn yn cynnwys y cwmnïau hynny sydd ym mherchnogaeth lwyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (ee ITV Studios a BBC Studios).*[26]

*2.16* Mae'r DU hefyd yn allforio llawer o gynnwys, gyda chyfanswm allforion rhyngwladol teledu'r DU yn £1.48bn yn 2019-20,[27] yr uchaf erioed. Mae rhaglenni a fformatau teledu yn y DU fel *Gogglebox, X-Factor, Strictly Come Dancing* a *Killing Eve* yn cael eu hallforio o gwmpas y byd. Mae Oliver & Ohlbaum yn adrodd bod y gwerth y mae'r sector yn ei ychwanegu yn fwy nag unrhyw wlad arall yn Ewrop a bod y refeniw y mae'r sector teledu a ffilmiau yn ei gynhyrchu, mewn perthynas â chynnyrch domestig gros fesul pen, yn uwch yn y DU nag yn unrhyw wlad arall heblaw am UDA.[28]

[26] Mae Pact yn defnyddio categorïau rhanbarthol yn seiliedig ar y lleoliad cynhyrchu, sy'n wahanol i feini prawf 'wedi'u gwneud y tu allan i Lundain' Ofcom, sy'n ystyried lleoliad gwariant cynyrchiadau, canolfannau sylweddol cynhyrchwyr a ble y cyflogir y talentau a ddefnyddir. Oliver & Ohlbaum ar gyfer Pact. Atodiad Cenhedloedd a Rhanbarthau Cyfrifiad Pact 2020.
[27] 3Vision. 2020. 'Pact UK TV Export Report 2019-20'. t. 3.
[28] Oliver & Ohlbaum, Medi 2018. 'The contribution of the UK-based film, TV and TV-related industries to the UK economy, and growth prospects to 2025', t. 9.

# 3. Pam mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig o hyd

**Crynodeb;**

- Erbyn hyn, mae mwy o ddarparwyr nag erioed yn darparu cynnwys o safon uchel sy'n gallu hysbysu, addysgu a diddanu, felly mae'n bwysig ystyried a oes angen ymyriad polisi cyhoeddus o hyd.
- Mae ein gwaith ymchwil a dadansoddi yn dangos bod achos clir dros ymyrryd i gefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o hyd, oherwydd mae'n chwarae rhan allweddol yn sicrhau'r mathau o raglenni sy'n bwysig i gymdeithas, mae'n creu profiadau i'r gwledydd eu rhannu ac mae'n adlewyrchu'r DU a'i holl amrywiaeth. Hefyd, mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau nad yw cynulleidfaoedd yn cael eu gadael ar ôl oherwydd cyflymder newidiadau technolegol, ac mae'n gwneud cyfraniad hollbwysig i'r economi greadigol hefyd.
- Rydym yn credu bod gofyn i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus barhau i fod yn gyffredinol os yw am arwain at y manteision hyn yn y dyfodol.

3.1 Fel yr amlygwyd yn yr adran flaenorol, mae cynulleidfaoedd yn y DU yn mwynhau mwy o gynnwys o ansawdd uchel nag erioed o'r blaen. Felly, mae'n bwysig gofyn a oes angen ymyriadau polisi cyhoeddus arnom o hyd i sicrhau'r manteision y mae ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu darparu.

3.2 Fel sail ar gyfer ein hasesiad, fe wnaethom ofyn i gynulleidfaoedd, darlledwyr a llunwyr polisïau yn y DU a thramor, i ddweud wrthym ni pam mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig iddynt. Nid ydym wedi cynnal asesiad meintiol llawn o'r costau a'r buddion i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, er ein bod wedi edrych ar gynnyrch ac effaith economaidd y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y diwydiant ehangach a'r economi greadigol ar draws y wlad.

**Ffigur 4: Gwaith ymchwil a dadansoddi a thrafodaethau sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn**[29]




3.3 Mae'r rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw a'r dadansoddiad rydym wedi'i wneud yn dangos – er gwaethaf y dewis cynyddol sydd ar gael erbyn hyn – bod pum rheswm craidd pam mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gynnig manteision sylweddol.

## Mae rhai mathau o raglenni'n dibynnu'n fawr ar gyfraniad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.


3.4 Mae darparu newyddion dibynadwy a chywir o ansawdd uchel bob amser wedi bod yn rhan greiddiol o'n system darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae tystiolaeth o'n harolwg ar gael gafael ar newyddion yn awgrymu bod cynulleidfaoedd yn y DU yn dal i'w werthfawrogi'n fawr. Mae gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol yn cynrychioli naw o'r 20 prif ffynhonnell newyddion yn y DU. Mae bwletinau ar y ddwy sianel gwasanaeth cyhoeddus fwyaf, BBC One ac ITV/STV, yn cymryd y ddau le ar y brig yn gyson, a Radio 2, Radio 1 a Radio 4, yn y drefn honno, yw'r tair gorsaf radio fwyaf poblogaidd ar gyfer newyddion yn y DU.[30] Roedd pwysigrwydd parhaus newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus i bobl yn amlwg iawn ar ddechrau pandemig y

[29] Mae adroddiadau a fideos llawn sy'n rhoi cipolwg ar y gwaith ymchwil a dadansoddi a gyfrannodd at yr adolygiad hwn ar gael ar ein gwefan. Yn ogystal â deunydd a gomisiynwyd yn uniongyrchol gan Ofcom, fe wnaethom gymryd rhan mewn cynulliad dinasyddion ar-lein am ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a gynhaliwyd yn annibynnol gan Dr Lee Edwards o Ysgol Economeg Llundain a Dr Giles Moss o Brifysgol Leeds. Mae copi o'u hadroddiad cryno ar gael ar ein gwefan.
[30] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020t. 19.

coronafeirws ym mis Mawrth 2020, pan drodd dros 80% o bobl yn y DU at y BBC i gael newyddion a gwybodaeth am y sefyllfa a oedd yn datblygu.[31]

3.5 Bob blwyddyn, rhwng 2006 a 2019, roedd pobl yn dweud wrthym eu bod o'r farn mai darparu cynnwys a rhaglenni newyddion "dibynadwy" sy'n "fy helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd heddiw" yw nodau pwysicaf darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[32] Mewn ymchwil a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020, ychydig cyn y cyfnod clo ledled y DU, nododd y bobl roeddem wedi siarad â nhw mai "newyddion dibynadwy a chywir" oedd yr agwedd ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus roedden nhw'n ei werthfawrogi fwyaf, ar lefel bersonol a chymdeithasol.[33]

**Ffigur 5: Gwerth personol a chymdeithasol – manteision mwyaf gwerthfawr darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd.**[34]




*Ffynhonnell: Ymchwil Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, 2020*

> "Mae cael darlledwr diduedd mor bwysig a dydyn ni ddim eisiau bod mewn gwlad lle rydych chi'n clywed celwyddau'n cael eu rhaffu." **- Menyw, 22-24, Y Fenni**

3.6 Yn 2019, gwariodd sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU, gyda'i gilydd, £586m ar raglenni newyddion a materion cyfoes ar gyfer y DU gyfan, yn ogystal â'r gwledydd a'r rhanbarthau unigol, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau newyddion wedi'u hanelu at wahanol grwpiau yn y boblogaeth.[35] Mae cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau newyddion eraill, gyda tua un o bob pedwar o bobl yn defnyddio Sky News a radio masnachol ill dau.[36] Yn wahanol i ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae gwasanaethau fel Sky News, sy'n bwysig ym marn 77% o'i

[31] Ofcom, Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: ymchwil i ddefnydd ac agweddau 2020.
[32] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom. Ar gyfer data 2014-2019, ewch i Ofcom, 2020. Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - adolygiad pum mlynedd o dDarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (2014-18, adroddiad data rhyngweithiol. Mae manylion y blynyddoedd cyn 2014 ar gael yn adroddiadau blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom.
[33] Ofcom, Gorffennaf 2020. Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: canfyddiadau arolwg omnibws, t.1
[34] C5a. Mae'r rhestr a ganlyn yn disgrifio'r amrywiaeth o fanteision mae Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi ei gynllunio'n fras i'w cyflawni. A allech chi adolygu'r rhestr o fanteision posibl yn llawn cyn dweud wrthyf pa dri sydd fwyaf gwerthfawr i chi'n bersonol yn eich barn chi? Sail: Pob ymatebydd (n=1851) C7a. Pa dair mantais ydych chi'n meddwl sydd fwyaf gwerthfawr i gymdeithas yn gyffredinol? Sail: Pob ymatebydd (n=1851)
[35] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Mae'r ffigur yn cynnwys gwariant rhwydwaith o £354m a gwariant y gwledydd a'r rhanbarthau o £232m.
[36] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020, t. 19, t.30.

ddefnyddwyr rheolaidd,[37] yn dibynnu yn y pen draw ar hyfywedd masnachol parhaus. Mae'n annhebygol y bydd darparwyr ffrydio yn ychwanegu at y dewis o ran newyddion yn y dyfodol agos.[38] Mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Reuters hefyd wedi nodi tuedd gynyddol ymysg cyhoeddwyr ar-lein i roi cynnwys newyddion y tu ôl i waliau talu.[39]

> "Os ydych chi'n sgrolio drwy eich ffrwd newyddion Facebook neu rywbeth, dydych chi byth yn gwybod beth i ymddiried ynddo na pha rai yw'r ffynonellau dibynadwy os yw pobl yn rhannu erthyglau newyddion a phethau. Rydych yn ei gymryd â phinsiad o halen. Rwy'n meddwl bod y BBC yn llawer mwy dibynadwy." **- Menyw, 25-39, Abertawe**

3.7 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn arbennig o bwysig ar gyfer newyddion rhanbarthol penodol, lle mae cyfraniad y darlledwyr nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn fach iawn. Ond rydym yn gwybod bod cynulleidfaoedd yn parhau i'w werthfawrogi, ac mai teledu gwasanaeth cyhoeddus yw'r ffynhonnell a ddefnyddir amlaf o bell ffordd.[40] Mae ein gwaith ymchwil wedi tynnu sylw'n ddiweddar at bwysigrwydd gwybodaeth gywir a phenodol i ranbarth ynghylch Covid-19 i gynulleidfaoedd, o ystyried y cyfyngiadau amrywiol mewn gwahanol rannau yn y DU.[41] Dywedodd pobl wrth ein hymchwilwyr bod hyn wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth gywir a pherthnasol iddynt hwy'n bersonol.

> "Yn sicr mae'n fwy dylanwadol yn fy mywyd ar y funud... o ran newyddion lleol, rwy'n ei werthfawrogi ac mae'n werth ei gael." **- Dyn, 18-21, Belfast**

3.8 Y tu hwnt i newyddion, mae llawer o wasanaethau masnachol yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni gwerthfawr sy'n cyfrannu at ddiwylliant y DU. Fodd bynnag, mae'n anochel bod y buddsoddiad hwnnw wedi canolbwyntio ar feysydd sy'n fwy tebygol o gynhyrchu enillion masnachol. Roedd chwaraeon, er enghraifft, yn cyfrif am ychydig o dan 60% o holl raglenni gwreiddiol y DU ar sianeli nad oeddent yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2018.[42]

3.9 Mae data a gyflwynwyd gan ddarlledwyr ar gyfer ein hadolygiad pum mlynedd diweddar o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn awgrymu na fu gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU mewn rhaglenni crefyddol ac addysg yn 2018 gan unrhyw sianel fawr yn y DU ar wahân i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Gwariodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros £40m yn y flwyddyn honno. Yn yr un modd, gwariodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

---

[37] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020, t. 73.
[38] Wrth siarad â'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ym mis Medi 2020, dywedodd Benjamin King, Cyfarwyddwr Polisi Cyhoeddus Netflix, y DU ac Iwerddon: *"Byddai gofyn cael meddylfryd a busnes gwahanol iawn i symud i fyd newyddion neu faterion cyfoes ac rydyn ni'n credu y byddai hynny'n tynnu sylw oddi wrth y pethau rydyn ni'n gwybod y gallwn ni eu gwneud."* Ewch i Tystiolaeth lafar: Dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, dydd Mawrth, 15 Medi 2020, ymatebi C261.
[39] Reuters Institute, 2020. Adroddiad ar Newyddion Digidol 2020, t.22
[40] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020, tudalennau 81-92.
[41] Adroddiad ymchwil Jigsaw ar gyfer Ofcom, Rhagfyr 2020. Effaith y cyfnod clo ar berthynas cynulleidfaoedd â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t. 7.
[42] Mae'r ffigur yn cyfeirio at wasanaethau amlsianel yn y DU, hynny yw, heb gynnwys sianeli portffolio masnachol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.

£79m ar amrywiaeth eang o raglenni plant newydd a gynhyrchwyd yn y DU y flwyddyn honno, o'i gymharu â £4m gan y sector amlsianel.[43]

3.10 Fodd bynnag, mae gwasanaethau ffrydio a darlledwyr masnachol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni drama a chomedi y gellir eu gwylio dros gyfnod estynedig. Roedd y ddau genre hyn yn unig yn cynrychioli 79% a 53% o'r cynnwys a oedd ar gael ar Netflix ac Amazon Prime Video ym mis Ebrill 2020 o'i gymharu â 7% o'r rhaglenni (heb fod yn newyddion) a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus y DU yn 2019.[44] Dangosodd ein hadolygiad pum mlynedd diweddaraf bod cynnwys ffeithiol, y celfyddydau a phlant gyda'i gilydd yn cynrychioli llai na 3% o'r rhaglenni gwreiddiol i'w dangos am y tro cyntaf a wnaed gan y sector darlledu amlsianel yn 2018.[45]

## Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dod â phobl at ei gilydd drwy greu profiadau i'r gwledydd eu rhannu

3.11 Roedd y bobl roeddem wedi siarad â nhw yn ein hymchwil yn nodi gwerth penodol mewn profiadau gwylio ar y cyd. Roeddent yn cysylltu hyn i raddau helaeth â darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn hytrach na gwasanaethau ffrydio yr oedd gwylwyr iau, yn benodol, yn tueddu i'w gwylio ar eu pen eu hunain, neu gynnwys chwaraeon, a dim ond i'r rheini sy'n fodlon neu'n gallu talu am hynny y mae cyfran uchel ohonynt ar gael. Er enghraifft, cafodd pennod gyntaf *Great British Bake Off* Channel 4 ei gwylio gan dros 10.8m o wylwyr eleni, gan gynnwys 2.8 miliwn o bobl ifanc 16-34 oed.[46] Mae cyfresi unigol proffil uchel yn dal i allu denu cynulleidfaoedd nad yw darparwyr masnachol eraill yn gallu eu denu. Ar gyfartaledd, gwyliodd 11.4 miliwn o bobl gyfres gyntaf *His Dark Materials* BBC One ar draws pob dyfais, o'i gymharu ag ychydig o dan 5 miliwn a wyliodd bennod olaf *Game of Thrones* Sky Atlantic.[47] Nododd 24% o'r bobl a holwyd gennym ym mis Mawrth 2020 mai *"rhaglenni y gallaf eu gwylio gyda'm teulu a'm ffrindiau a siarad amdanynt"* oedd un o dair o fanteision personol mwyaf gwerthfawr darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dyma oedd y sgôr uchaf ar ôl y rhesymau sy'n ymwneud â newyddion.[48]

---

[43] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
[44] SVoD: Ampere Analysis, oriau cynnwys, y DU, Ebrill 2020; Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
[45] Ofcom, 2020.Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - adolygiad pum mlynedd o dDarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (2014-18) t. 47. Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
[46] BARB, sy'n cynnwys gwylio'n ddiweddarach, + 7 diwrnod.
[47] BBC, 2020. Adroddiad Blynyddol y BBC 2019/20, t.11 a BARB, 2020. The Viewing Report: Mai 2020, t.19.
[48] Ofcom, Gorffennaf 2020. Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: canfyddiadau arolwg omnibws, t.4

> "Efallai ei fod yn swnio'n gawslyd, ond mae'n dod â ni at ein gilydd, fel teulu, neu fel gwlad, pa bynnag sioeau sy'n cael eu dangos... mae yna fwy o bethau Prydeinig y gallwn ni uniaethu â nhw." **Dyn, 22-24, St Albans**
>
> "Rwy'n meddwl efallai ei bod yn creu ymdeimlad o gymuned eto, er enghraifft wrth siarad am yr holl bethau hyn yn y gwaith neu gyda ffrindiau, neu hyd yn oed â rhywun dieithr, fel bod gennych chi rywbeth yn gyffredin ar unwaith" **Menyw, 22-24, Glasgow**

3.12 Ochr yn ochr â'r gwerth personol y mae cynulleidfaoedd yn ei gael o'r sioeau mwyaf poblogaidd hyn, roedd y bobl roeddem wedi siarad â nhw wedi nodi gallu darlledu gwasanaeth cyhoeddus i ddod â chynulleidfaoedd at ei gilydd ar draws y wlad. Roedd y ffaith bod y rhaglenni mwyaf poblogaidd fel *Gavin and Stacey* neu *I'm a Celebrity...* yn cael eu gwylio gan bobl ledled y DU ar yr un pryd yn gwneud iddynt deimlo fel digwyddiadau ynddynt eu hunain. Mae pobl wedi teimlo gwerth y profiadau cyffredin hyn yn arbennig o gryf yn ystod pandemig y coronafeirws. Ym mis Medi 2020, nododd 18% o bobl fod "*rhaglenni sy'n dod â'r genedl at ei gilydd i rannu profiadau gwylio*" yn un o fanteision cymdeithasol pwysig rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus.[49] Roedd hyn yn cynnwys sioeau fel *This Morning* a *The One Show.* Roedd gofyn addasu eu fformatau o ganlyniad i'r argyfwng, gan gynnig cysur i wylwyr yr oedd yr argyfwng wedi cael effaith sylweddol ar eu bywydau eu hunain.

> "[Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus] yw'r sianeli sy'n dod â phawb at ei gilydd, y mae pawb yn eu gwylio." **Menyw, 22-24, Aberystwyth**
>
> "Mae rhywbeth yn braf am wylio rhaglen yn fyw... oherwydd mae pawb yn ei gwylio... dydw i ddim yn cynhyrfu gymaint wrth wylio cyfres ar Netflix oherwydd rwy'n gallu ei gwylio unrhyw bryd" **Menyw, 25-39, Belfast**
>
> "Mae'r rhaglen roeddwn i'n ei gwylio yn y bore ar BBC One... rwy'n meddwl ei bod yn gwneud i chi ddod ynghyd rywsut, oherwydd rydych chi'n gwybod ein bod ni i gyd yn rhan o hyn gyda'n gilydd." **Menyw, 40-59, Birmingham**

### Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r DU

*3.13* Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw'r buddsoddwyr mwyaf mewn cynnwys newydd sy'n cael ei wneud yn y DU o hyd ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU. Yn ogystal â chyfrannu at yr economi greadigol (rydym yn trafod hyn isod), mae hefyd yn cyfrannu at ddiwylliant y wlad mewn ffordd y mae gwylwyr yn dal i'w werthfawrogi'n fawr. Roedd 72% o'r bobl a holwyd yn ein hastudiaeth traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus 2019 yn credu ei bod yn

[49] Ofcom, Rhagfyr 2020. Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: canfyddiadau ymchwil meintiol, t. 7.

bwysig bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus *"yn dangos rhaglenni newydd sy'n cael eu gwneud yn y DU"*.[50]

3.14 Roedd nifer o'r bobl roeddem wedi siarad â nhw wedi tynnu sylw at werth cynnwys sy'n teimlo'n ddilys i'w profiad eu hunain o fyw yn y DU. Roedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynhyrchu rhaglenni fel *This Country*, *The Inbetweeners* a *White House Farm* ac roeddent yn cael eu gwerthfawrogi fel rhai dilys a pherthnasol, mewn ffordd nad oedd llawer o raglenni ar wasanaethau amgen. Pan wnaethom ofyn i'r bobl ym mis Medi 2020 gymharu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau ffrydio, roedd 65% o'r rhai a oedd yn defnyddio'r ddau yn teimlo bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn well na gwasanaethau ffrydio am *"ddarparu rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd a gwerthoedd y DU*".[51]

> "Mae Netflix yn hawdd, pan fydda i eisiau sioe gyflym, rwy'n gallu ei gwylio ac yna mae drosodd, mae fel nygets cyw iâr... Mae'r prif sianeli sydd gennych chi'n dangos sioeau fel *Gavin and Stacey*, sydd fel pryd poeth rydych chi am ei fwynhau."
> **Menyw, 22-24, Y Fenni**

3.15 Mae operâu sebon yn gwneud cyfraniad arbennig o arwyddocaol o ran cynrychioli'r DU iddi hi ei hun. Yn 2019, gwariodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus £304m arnynt[52], gan fuddsoddi'n helaeth mewn cynyrchiadau yn y DU gyda rhaglenni fel *Emmerdale, River City* a *Hollyoaks*. Mae *Coronation Street* ac *EastEnders* yn dal i fod ymysg y rhaglenni poblogaidd ar deledu a ddarlledir. Maent yn denu cynulleidfaoedd enfawr o bob oed, gan fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf heriol mewn cymdeithas fel cam-drin domestig, caethiwed ac yn fwyaf diweddar, pandemig Covid.

*3.16* Yn wahanol i ddarparwyr cynnwys eraill, mae sianeli gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu rhwymedigaethau o ran faint o raglenni sy'n cael eu cynhyrchu mewn gwahanol rannau o'r DU, a faint o arian sy'n cael ei wario arnynt. O ganlyniad, mae cyfran yr oriau darlledu a'r gwariant y tu allan i Lundain wedi codi yn y degawd diwethaf. Yn 2019, dyrannwyd 48% o gyfanswm gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni newydd i ardaloedd y tu allan i Lundain, o'i gymharu â 38% yn 2010. Roedd nifer y cynnwys a oedd yn gymwys i gael ei wneud y tu allan i Lundain hefyd wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn o 39% i 51%.[53]

3.17 Mae'r gwasgariad daearyddol mewn cynyrchiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio yn helpu i annog amrywiaeth o raglenni sy'n dangos gwahanol rannau o'r DU. Roedd 69% o'r bobl a holwyd ar gyfer y traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2019 yn ystyried hyn yn bwysig.[54] Roedd *Gavin and Stacey*, *Derry Girls* a *Still Game* ymhlith y rhaglenni a gafodd eu gwylio fwyaf y flwyddyn honno yn y

---

[50] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019.
[51] Ofcom, Rhagfyr 2020. Canfyddiadau ymchwil feintiol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus t.2
[52] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr.
[53] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr cymwys a gyflwynwyd mewn perthynas â rheoliadau wedi'u gwneud y tu allan i Lundain. Ewch i wefan Ofcom i gael rhagor o wybodaeth.
[54] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019.

gwledydd yr oeddent wedi'u lleoli, ac roedd nifer o bobl y gwnaethom siarad â nhw yn mynegi balchder o weld eu hardal eu hunain yn cael ei chynrychioli.

> "Mae bob amser yn braf gwylio rhaglenni Prydeinig oherwydd bod rhywbeth yn gyfarwydd amdanyn nhw ac maen nhw'n dod o safbwynt gwahanol rydych chi'n gallu uniaethu ag ef." **Dyn, 22-24, Leeds**
>
> "Rwy'n meddwl fy mod yn mwynhau'r holl arddull yn fwy... Hyd yn oed yr iaith, y ffordd mae pethau'n cael eu cyflwyno, dydw i ddim yn gwybod, mae yna deimlad cartrefol am y peth, na fyddech chi'n ei gael gyda chynhyrchiad mawr o America o reidrwydd. Efallai eu bod yn teimlo ychydig yn fwy gwledig a real..." **Menyw, 25-39, Belfast**

### Mae grwpiau agored i niwed, a'r rheini nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd, yn gallu mwynhau amrywiaeth eang o wybodaeth ac adloniant, drwy ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

3.18 Teledu sy'n cael ei ddarlledu yw'r ffordd fwyaf poblogaidd i gynulleidfaoedd wylio cynnwys o hyd. Hyd yn oed wrth i ymddygiad gwylio newid, gyda mwy a mwy o bobl yn gwylio ar amrywiaeth o ddyfeisiau gwahanol, mae tua 85% o bobl yn dal i wylio cynnwys sy'n cael ei ddarlledu bob wythnos. Rydym yn disgwyl i ddarlledu daearol digidol barhau i chwarae rhan bwysig am y degawd nesaf o leiaf.[55] Mae cynulleidfaoedd gwahanol yn croesawu technoleg newydd ar gyflymderau gwahanol. Mae gwaith ymchwil Ofcom yn awgrymu nad yw tua un oedolyn o bob wyth (13%) yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref. Mae hyn yn cynnwys nid pobl hŷn yn ogystal â 15% o oedolion oed gweithio yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf (DE).[56] Gall y rheini sydd heb fynediad rheolaidd i'r rhyngrwyd, neu'r hyder i ddefnyddio'r technolegau angenrheidiol, gael eu heithrio o gynnwys ar-lein.

3.19 Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel sydd â digon o adnoddau wrth "galon" teledu gwylio am ddim sy'n cael ei ddefnyddio gan filiynau[57], gan gynnwys 1.5 miliwn o gyfanswm y cartrefi nad oes ganddynt fynediad at wasanaethau ffrydio drwy danysgrifio neu deledu drwy dalu, band eang gartref na ffonau clyfar.[58] Tynnwyd sylw at y risg y gallai grwpiau agored i niwed, gan gynnwys cynulleidfaoedd hŷn ac anabl, golli mynediad at amrywiaeth o gynnwys addysgiadol a difyr heb ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ein gwaith ymchwil gyda chynulleidfaoedd a chan siaradwyr yn ein cynhadledd *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr:*

---

[55] BARB, Cyfanswm teledu, pob unigolyn (4 oed a hŷn). Meini prawf cyrhaeddiad 15+ munud.
[56] Traciwr Technoleg Ofcom 2020
[57] Digital UK, cyflwyniad i bwyllgor Dethol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, t.1
[58] Arolwg Sefydlu BARB Ch3 2020.

> "Mae'n gwmni i mi oherwydd fy mod ar fy mhen fy hun." **– Dyn, 60+, Abertawe**
>
> "Mae popeth yn symud ar-lein ac yn dod yn ddigidol – pe baem yn colli'r prif sianeli hyn byddai wir yn ynysu ac yn gadael grŵp hŷn o bobl ar ôl" – **Menyw, 22-24, Leeds**
>
> "Rwy'n ymwybodol hefyd, er bod gan gyfran fawr o'r boblogaeth fynediad at Sky a Netflix ac Amazon a Disney, nad oes gan gyfran eithaf sylweddol fynediad at y gwasanaethau hyn o hyd, ac maen nhw'n dibynnu ar Freeview. Felly, mae pwysigrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran darparu adloniant, yn ogystal ag addysg a gwybodaeth, yn dal yn gryf iawn, iawn." **– John Whittingdale AS, Cynhadledd Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr**

## Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn sail i economi greadigol y DU

3.20 Mae sector cynhyrchu teledu'r DU yn amrywiol, yn gystadleuol ac yn llwyddiannus ar lefel ryngwladol. Mae gwariant ar gomisiynu wedi cynyddu o tua £2.6bn yn 2004 i rhwng £4.5bn a £5bn yn 2018.,[59] Mae'r sioeau hyn hefyd yn ennill refeniw allforio gwerthfawr (roedd allforion teledu'r DU yn £1.48bn yn 2019-20),[60] ac yn tynnu sylw at y DU, gyda rhaglenni a gomisiynwyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gyflwyno'r DU mewn goleuni cadarnhaol ar draws y byd.

> "Mae cryfder byd-eang y DU yn seiliedig ar enw da ei darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran cynhyrchu cynnwys cwbl Brydeinig y mae cynulleidfaoedd ledled y byd yn hoff iawn ohono." **Heaton Dyer, CBC/Radio Canada**

3.21 Yn 2004, roedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynrychioli tua 87% o holl gomisiynau'r DU, gyda dros hanner y cynnwys yn cael ei gynhyrchu'n fewnol.[61] Er mai dim ond ychydig dros hanner yr holl raglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu comisiynu bellach, mewn termau gwariant,[62] mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd sylweddol mewn gwariant rhyngwladol a gwariant aml-sianel yn y DU.[63] Er enghraifft, mae cynhyrchwyr annibynnol wedi cynyddu refeniw comisiynu

---

[59] Yn ôl amcangyfrif Ofcom (2006), roedd gwariant rhaglenni comisiwn a ddangoswyd am y tro cyntaf ar gynyrchiadau yn y DU tua £2.6bn yn 2004. Gan ddefnyddio data gwariant Ofcom ar y rhwydwaith Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, sianeli portffolio a rhanbarthol, amcangyfrifon Enders Analysis o wariant SVOD, ac amcangyfrifon COBA o wariant amlsianel rydym yn amcangyfrif bod gwariant rhaglenni comisiwn a ddangoswyd am y tro cyntaf ar gynyrchiadau yn y DU rhwng £4.5bn a £5bn yn 2018.

[60] 3Vision, 2020. Pact UK TV Export Report 2019-20. Sleid 3.

[61] Ofcom, 2006. Adolygiad o'r sector cynhyrchu teledu. t. 19 a t. 48.

[62] Bwriedir i'r gyfran hon fod yn ddangosol yn unig ac amcangyfrifir ei bod yn seiliedig ar gyfanswm gwerth comisiynu cynyrchiadau'r DU a ddisgrifir yn nhroednodyn 59.

[63] Mae gwariant Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus wedi bod yn gostwng yn raddol mewn termau real - 2% y flwyddyn o'r ffigur uchaf yn 2006 i 2019, yn bennaf oherwydd gostyngiadau mewn termau real yn incwm ffi'r drwydded a phwysau ar refeniw hysbysebu.

rhyngwladol o tua £160m yn 2008 i bron i £1bn yn 2019 (cyfradd twf o 18% o un flwyddyn i'r llall ar gyfartaledd)[64] ac mae gwariant amlsianel yn y DU wedi mwy na threblu ers 2004.[65]

Yr wyf yn cael fy nenu i'r DU oherwydd y dalent, y diwydiannau creadigol, y sgiliau sydd gennym yma. Mae'r cyfleusterau a'r seilwaith sydd gennym yn ddeniadol. Rwy'n credu bod pobl greadigol y DU yn cyflawni'n barhaus uwch na'u pwysau." **Georgia Brown, Cyfarwyddwr European Originals yn Amazon Studios, tystiolaeth lafar a roddwyd i ymchwiliad Pwyllgor Dethol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus**

3.22 Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i wario tua £2.8bn bob blwyddyn ar raglenni newydd yn y DU ac yn parhau i fod yn y comisiynwyr cynnwys mwyaf yn y DU.[66] Ers 2004, mae'r fframwaith ar gyfer cytuno ar delerau masnach safonol gan bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gyda PACT (y corff masnachu ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol) wedi golygu, pan fydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn comisiynu cynnwys, bod yr hawliau sylfaenol fel arfer yn aros gyda'r cynhyrchydd annibynnol. Os bydd rhaglenni'n llwyddiannus, gall hyn arwain at ffynhonnell incwm werthfawr i gwmnïau cynhyrchu ac mae'n wahanol i wasanaethau ffrydio. Gyda gwasanaethau ffrydio mae cynhyrchwyr yn aml yn cael mwy o daliadau ymlaen llaw yn hytrach na hawliau eilaidd.[67] Ar ben hynny, mae lefel sefydlog y buddsoddiad gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a sicrhawyd yn rhannol drwy'r strwythur rheoleiddio, wedi galluogi'r sector cynhyrchu annibynnol creadigol i dyfu yn ogystal â gweithlu medrus iawn, sy'n ffactor allweddol o ran denu buddsoddiad rhyngwladol.

"Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU a'r telerau masnachu wedi helpu sector cynhyrchu'r DU i gynyddu ei refeniw a dod yn bwerdy yn fyd-eang. Mae hyn wedi sbarduno cylch rhinweddol o ran talent, gan ddenu mwy o fuddsoddiad." **Arbenigwr ar y cyfryngau o gwmni cyfryngau rhyngwladol**

"Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw asgwrn cefn y diwydiannau sgrin, y diwydiannau creadigol, ym mhob man yn y DU." **Richard Williams, Northern Ireland Screen**

3.23 Mae manteision y buddsoddiad hwnnw mewn cynnwys wedi cael eu rhannu ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU. Yn 2019, roedd bron i hanner (48%)y gwariant gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i Lundain (i fyny o 38% yn 2009)[68] ac roedd

---

[64] Pact census 2020, t. 10.
[65] Amcangyfrifodd Ofcom fod cyfanswm gwariant amlsianel y DU ar brif gomisiynau'r DU yn 123m yn 2004. Ffynhonnell: Ofcom, 2006. Adolygiad o'r sector cynhyrchu teledu, t. 48. Mae Pact yn amcangyfrif bod gwariant amlsianel y DU ar y prif gomisiynau wedi cyrraedd £390m yn 2019. Pact census 2020, t. 16.
[66] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Buddsoddodd y prif sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus £2.5bn mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn 2019. Ar ben hynny, gwariodd y BBC ac ITV £316m ar gynnwys o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
[67] Adroddiad Mediatique ar gyfer Ofcom, Hydref 2020. State of the markets in which BBC Studios operates, troednodyn 102.
[68] Dadansoddiad Ofcom o ddata gwariant darlledwyr cymwys a gyflwynwyd mewn perthynas â rheoliadau wedi'u gwneud y tu allan i Lundain. Ewch i wefan Ofcom i gael rhagor o wybodaeth.

yn cynrychioli 61% (tua £600m) o'r refeniw comisiynu ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol yn y meysydd hyn.[69] Er bod darlledwyr a gwasanaethau ffrydio eraill hefyd wedi comisiynu rhai rhaglenni y tu allan i'r brifddinas, nid oes rheidrwydd arnynt i barhau i wneud hynny yn y dyfodol. Mae rhai chwaraewyr mawr yn buddsoddi yn eu cyfleusterau stiwdio eu hunain, gyda'r rhan fwyaf wedi'u lleoli yn Ne Ddwyrain Lloegr.[70]

3.24 Ar ben hynny, mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sicrhau bod 25% o'u rhaglenni gwreiddiol yn cael eu gwneud gan gynhyrchwyr annibynnol cymwys yn y DU.[71] Roedd y BBC a Channel 4 yn gweithio gyda 354 a 274 yn y drefn honno y llynedd. Fel y trafodwyd uchod, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn comisiynu ar draws amrywiaeth eang o genres, gan helpu lleisiau a thalentau newydd i ddod i'r amlwg. Rydym yn amcangyfrif bod y rhan fwyaf o'r arian sy'n cael ei wario ar raglenni a gomisiynir yn y DU bellach yn nwylo'r sector annibynnol.[72]

## Bydd cyffredinolrwydd yn dal yn angenrheidiol er mwyn sicrhau manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

3.25 Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu y gall darlledu gwasanaeth cyhoeddus barhau i ddarparu manteision gwerthfawr i bobl ac i gymdeithas am flynyddoedd i ddod. Mae'r twf enfawr mewn ffynonellau cynnwys newydd ar gyfer gwylwyr yn y DU yn darparu mwy o ddewis nag erioed o'r blaen, ond mae cydbwysedd y rhaglenni, a dosbarthiad y gweithgarwch ar draws y wlad, yn golygu nad yw'n arwain at yr un manteision polisi cyhoeddus â darpariaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

3.26 Mae'r trafodaethau rydym wedi'u cael fel rhan o *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr,* wedi dangos consensws cyffredinol bod cyffredinolrwydd – gallu pobl o bob cefndir i gael gafael ar gynnwys sy'n werthfawr iddynt, a thrwy hynny maent yn cael eu cysylltu ag eraill ar draws y DU – yn parhau i fod yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus. Yn ein barn ni, bydd tair agwedd ar gyffredinolrwydd – argaeledd, perthnasedd ac atebolrwydd cyhoeddus – yn parhau i fod wrth galon darlledu gwasanaeth cyhoeddus effeithiol dros y degawd nesaf.

3.27 Mae'n amlwg bod llawer o fanteision cymdeithasol allweddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn deillio o'r ffaith bod pob dinesydd yn y bôn yn gallu derbyn darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy dechnoleg sydd ar gael yn gyffredin. Mae hyn yn sicrhau bod gan bawb fynediad parod at ffynhonnell newyddion a gwybodaeth ddibynadwy yn ogystal ag amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol a phrofiadau diwylliannol o fywyd yn y DU. Nodwyd bod hyn yn hanfodol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus gan y rhanddeiliaid yn y diwydiant rydym wedi siarad â nhw yn ystod yr adolygiad hwn a'r cynulleidfaoedd roeddem wedi cwrdd â nhw yn ystod ein hymchwil. Roedd grwpiau oedran iau yn benodol

---

Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr; cyfrifiad Pact 2020, Atodiad: Gwledydd a Rhanbarthau, t. 4, t. 7.
[70] Mae Sky wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gofod Stiwdio yn Elstree, mae Netflix yn creu canolfan gynhyrchu yn y DU yn Shepperton ac mae gan Pinewood Studios yn Swydd Buckingham gontract tymor hir gyda Disney.
[71] Edrychwch ar baragraffau A8.24-A8.25 yn Atodiad 8 y fframwaith rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.
[72] Amcangyfrifon Ofcom – ewch i Atodiad 7, Rôl Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn sector cynhyrchu teledu'r DU, paragraffau A7.24-A7.27.

yn gweld darparu "gwasanaethau sydd ar gael i bawb" fel blaenoriaeth uchel, [73] pwynt a amlygwyd i nifer gan y cyfnod clo yn ystod gwanwyn/haf 2020.[74]

> "Rwy'n credu ei bod hi wedi bod yn bwysig iawn bod rhywfaint o gyfryngau wedi bod ar gael i bawb, oherwydd popeth sydd wedi cael ei gymryd oddi arnom." **Menyw, 22-24, Aberdeen**
>
> "Dydw i ddim yn gwybod ble fyddwn i pe na bai gen i deledu [darlledu gwasanaeth cyhoeddus] nawr... mae fel hwb i forâl, rhyw deimlad o normalrwydd." **Menyw, 25-39, Belfast**

3.28 Nid yw'r ffaith bod rhywbeth ar gael yn unig yn ddigon. Er mwyn i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus gysylltu â phawb, rhaid i'r cynnwys fod yn ddigon deniadol i bawb. Mae ein hymchwil yn dangos yn glir bod angen i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus gynhyrchu llawer iawn o gynnwys amrywiol o ansawdd uchel yn y DU, sy'n ddilys ac yn ystyrlon i gynulleidfaoedd. Mae lefelau uchel o ymgysylltu personol yn hanfodol i sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i gyflawni ei amcanion ar draws cenedlaethau a chefndiroedd. Felly mae'n bwysig, fel rydym yn ei drafod yn adran 5 isod, bod y nodweddion iawn ar waith i wneud hyn yn bosibl.

> "Mae'n rhaid iddo fod ar gael i bawb. Mae wedi bod yn nodwedd mor bwysig yn fy mywyd – rwy'n ei ddefnyddio ar gyfer adloniant, rwy'n ei ddefnyddio ar gyfer addysg, rwy'n ei ddefnyddio i gael gwybodaeth." **– Dyn, 60+, Abertawe**
>
> "Rwy'n teimlo ar fy mhen fy hun ar Netflix, oherwydd ei fod yn ffordd o ddianc, wedyn pan fydda i ar y sianeli arferol rwy'n teimlo fy mod i'n rhan o gymuned oherwydd rwy'n gwylio pobl go iawn yn gwneud pethau go iawn, rwy'n dysgu pethau, mae fy ymennydd ar waith." **Menyw, 25-39, Abertawe**

3.29 Mae manteision argaeledd a chyrhaeddiad cyffredinol yn cael eu hatgyfnerthu ymhellach gan y ffaith bod system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn un lle mae gan bawb ran i'w chwarae. Mae darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn costio ac mae'n dibynnu ar gyfraniad ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol gan bawb yn y wlad. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael eu trin fel cwsmeriaid unigol yn ogystal â fel aelodau o gymdeithas amrywiol y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrannu ati ac yn helpu i'w chefnogi, drwy gyflawni ei ddibenion. Tynnwyd sylw at yr agwedd unigryw hon ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus gan nifer o'r arbenigwyr rhyngwladol y buom yn siarad â nhw ar gyfer yr adolygiad hwn.

---

[73] Ofcom Gorffennaf 2020, Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: canfyddiadau arolwg omnibws, t.5; Ofcom Rhagfyr 2020, Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: canfyddiadau ymchwil feintiol. Yn ein gwaith ymchwil , roedd *gwasanaethau sydd ar gael i bawb* yn cael yn flaenoriaeth uchel i gymdeithas, gydag un o bob pump (20% ym mis Mawrth, 19% ym mis Medi) yn rhoi hyn yn eu tri uchaf o blith 15 o fanteision posibl Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

[74] Adroddiad ymchwil Jigsaw ar gyfer Ofcom, Rhagfyr 2020: Effaith y Cyfnod Clo ar berthynas Cynulleidfaoedd â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t. 14.

> "Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd sy'n cael ei sbarduno gan genhadaeth. P'un ai ydynt yn cael eu hariannu'n fasnachol neu'n cael eu hariannu'n gyhoeddus, mae mwy o ymdeimlad o bwrpas a chenhadaeth, sy'n arwain Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y pen draw i wneud penderfyniadau ynghylch sut i wasanaethu cynulleidfaoedd orau" **Heaton Dyer, CBS/Radio-Canada**
>
> "Mae defnydd y cyfryngau mor dameidiog, mae llai o bethau'n clymu pobl at ei gilydd. Gall cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus rwymo pobl gyda'i gilydd i greu traddodiadau a phrofiadau i'w rhannu." **– Ulrika Von Celsing, Sveriges Television**[75]

3.30 Fodd bynnag, mae'r heriau i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynyddu. Mae ystod ehangach o ddarparwyr yn cynhyrchu cynnwys o ansawdd uchel sy'n gallu hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd. Mae pobl yn fwyfwy parod i dalu am at rai deunyddiau. Fel yr eglurodd Mark Thompson, cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, yn ein rhith-gynhadledd Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr ym mis Hydref 2020,

> "Rwy'n meddwl ein bod ni'n anelu at, yn cyflymu tuag at fyd ar ôl darlledu... Mae'r angen sylfaenol am newyddion a diwylliant o ansawdd uchel sy'n cael ei ariannu gan bawb ac addysg ac ati mor fawr ag erioed, ond nid yw'n mynd i fod yn ddarlledu mwyach."

3.31 Ni ellir cymryd cyffredinolrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn ganiataol.

[75] Adroddiad EY dros Ofcom, 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar dDarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t. 17; t. 15.

# 4. Mae technoleg a chystadleuaeth fyd-eang yn sbarduno'r angen am newid

**Crynodeb:**

- Mae datblygiadau technolegol wedi arwain at ystod ehangach o wasanaethau yn cystadlu am sylw'r gynulleidfa. Mae'r gwasanaethau newydd hyn yn tueddu i fod ar-lein ac maent yn aml ar raddfa fyd-eang.
- Mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a sefydlwyd ar deledu a ddarlledir, bellach yn gweithredu mewn amgylchedd byd-eang llawer mwy cystadleuol.
- Mae hyn wedi cael effaith ar y model busnes cynnwys a phŵer negodi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ar ddisgwyliadau ac ymddygiad gwylwyr, ac ar sefydlogrwydd ariannol y sector darlledu.
- Gyda'i gilydd, mae hyn yn arwain at heriau a allai fygwth gallu'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus i barhau i ffynnu yn y dyfodol.

## Mae llu o wasanaethau newydd nawr yn cystadlu am sylw gwylwyr


4.1 Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae technoleg wedi galluogi cynnwys i gael ei ddosbarthu mewn ffyrdd newydd. Roedd dulliau arloesol fel teledu daearol digidol yn cyflwyno sianeli teledu newydd, ac roedd recordwyr fideo personol fel Sky+ yn golygu nad oedd cynulleidfaoedd yn cael eu cyfyngu gan amserlenni teledu a ddarlledir mwyach, gan roi llawer mwy o ddewis a hyblygrwydd iddynt o ran yr hyn roeddent yn ei wylio a phryd.[76] Wedyn, mae band eang cyflymach wedi galluogi mynediad at gynnwys y tu hwnt i sianeli teledu a ddarlledir ar setiau teledu, gan ddarparu gwasanaethau dros y rhyngrwyd a chystadlu'n uniongyrchol â darlledwyr traddodiadol. Mae gan lawer o gartrefi setiau teledu cysylltiedig erbyn hyn, naill ai drwy fod yn berchen ar deledu clyfar neu drwy ddefnyddio dyfais arall fel ffon ffrydio neu gonsol gemau.[77] O ganlyniad, mae hanner yr holl amser gwylio ar gyfer cynnwys fideo nad yw'n cael ei ddarlledu nawr yn digwydd ar set deledu.[78]

4.2 Mae band eang cyflymach wedi golygu bod modd lansio llu o wasanaethau tanysgrifio byd-eang ar-alw yn y DU, fel Netflix, Amazon Prime, Now TV, Apple TV a Disney+. Yn nhrydydd chwarter 2020, roedd 60% o gartrefi (17 miliwn) wedi tanysgrifio i o leiaf un gwasanaeth SVoD.[79] Hefyd, mae llwyfannau rhannu fideos ar-lein wedi darparu rhagor o gynnwys

[76] Roedd gan 17% o gartrefi recordydd fideo digidol yn 2007 o'i gymharu â 50% o gartrefi yn 2020. Traciwr Technoleg Ofcom, 2007 a 2020.
[77] Mae gan 63% o gartrefi deledu sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd (hynny yw, mae eu teledu naill ai'n deledu clyfar sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd neu'n deledu sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd mewn ffordd arall ee drwy ffon ffrydio). Traciwr Technoleg Ofcom 2020.
[78] Modelu Ofcom (BARB, TouchPoints, Comscore), 2019. Mae 'cynnwys fideo heb ei ddarlledu' yn cynnwys gwylio SVoDs, YouTube, DVDs, gemau a chynnwys fideo ar lwyfannau cymdeithasol fel Facebook. Nid yw'n cynnwys gwylio teledu byw, teledu wedi'i recordio a gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr.
[79] Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB.

newydd, sydd am ddim yn aml yn adeg eu defnyddio, gydag amcangyfrif o 10 biliwn o fideos ar YouTube yn unig.[80]

**Ffigur 6: Nifer yr aelwydydd SVoD yn y DU, 2015-2020**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB*

## Mae datblygiadau technolegol hefyd wedi newid y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio cynnwys sain

4.3 Mae gwrando digidol wedi rhoi cyfle i lawer mwy o orsafoedd gyrraedd cynulleidfaoedd cenedlaethol, ac mae’r rhyngrwyd wedi gweld amrywiaeth enfawr o wasanaethau ar-alw a ffrydio fel Apple Music a Spotify yn cael eu lansio. Nid gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar gerddoriaeth yn unig yw nodwedd gwrando ar-alw; mae amrywiaeth eang o sefydliadau bellach yn creu ac yn dosbarthu eu cynnwys podlediadau llafar eu hunain hefyd, sydd wedi bod yn dod yn fwyfwy poblogaidd.

## Mae technoleg yn sbarduno newid ar draws y sector

4.4 Mae’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bellach yn gweithredu mewn amgylchedd cyfryngau sy’n dod yn fwyfwy byd-eang ac ar-lein. O ganlyniad, mae eu cystadleuwyr yn llawer mwy o ran maint a graddfa ac mae ganddynt fwy o adnoddau ariannol. Mae’r gystadleuaeth hon wedi dod â manteision sylweddol i gynulleidfaoedd ac mae hefyd wedi newid y ffordd mae’r farchnad yn gweithredu a lle’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynddi.

---

[80] Ofcom, 2019. Cyfryngau’r Genedl: DU, t.11.

4.5 Mae gallu'r chwaraewyr newydd hyn yn y farchnad i fuddsoddi'n sylweddol yn eu llwyfannau ac mewn cynnwys newydd, yn effeithio ar ddisgwyliadau cynulleidfaoedd a deinameg y sector cynhyrchu. Maent yn gallu cynnig rhyngwynebau defnyddwyr personol, deallus a hawdd eu defnyddio i'w cwsmeriaid yn ogystal ag argymell cynnwys wedi'i deilwra, ac maent wedi meithrin perthnasoedd cryf â chynulleidfaoedd o ganlyniad i hyn. Maent hefyd yn gallu cynnig llyfrgelloedd cynnwys helaeth i'w tanysgrifwyr, gan gynyddu'r dewis sydd ar gael i ddefnyddwyr. Yn y farchnad clyweledol, mae catalogau Netflix ac Amazon wedi'u dylunio'n bennaf i apelio at gynulleidfaoedd byd-eang, ond maent yn buddsoddi fwyfwy mewn cynnwys gwreiddiol o ansawdd uchel o'r DU hefyd.

4.6 Mae'r buddsoddiad hwn mewn cynnwys yn y DU wedi darparu refeniw ychwanegol i economïau creadigol y DU, sydd i'w groesawu. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae'n ymddangos bod cost cynhyrchu rhaglenni'n codi, yn enwedig mewn genres fel drama, sy'n cael mwy o effaith ar y darlledwyr traddodiadol. Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i gyllidebau mawr y chwaraewyr newydd hyn, a'r cynnydd yn y galw am dalent a gofod stiwdio yn chwyddo tariffau.

> "Roedd cyllideb gyfartalog fesul awr ar gyfer drama a gomisiynwyd gan Channel 4 yn £1.5m yn 2017 o'i gymharu â £725k yn 2013 (termau real). Mae hyn yn gynnydd o dros 100% Mae hyn yn cael ei ysgogi'n arbennig gan gynnydd yng nghostau'r criw cynhyrchu, o ganlyniad i fwy o alw a thariffau uchel gan gynhyrchwyr cynnwys eraill." **Ymateb ysgrifenedig Channel 4 i ymchwiliad Pwyllgor Cyfathrebu Tŷ'r Arglwyddi i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn oes y fideo ar-alw**

4.7 Mae'r chwaraewyr newydd hyn wedi cael effaith ddwys ar ddeinameg masnachol marchnadoedd cyfryngau. Oherwydd eu graddfa a'u hapêl fyd-eang, mae darparwyr cynnwys fel Netflix a chwmnïau technoleg fel Google, Apple ac Amazon mewn sefyllfa well i negodi a gallu dylanwadu o'u cymharu â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae gwasanaethau fel Netflix yn gallu sicrhau cytundebau byd-eang i sicrhau bod eu cynnwys mewn lleoliad ffafriol ar draws amrywiaeth eang o lwyfannau teledu, ac mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu ei chael yn anodd sicrhau telerau tebyg.

4.8 Comisiynodd Ofcom adroddiad gan y cwmni ymgynghori ar y cyfryngau, Mediatique , i edrych ar y datblygiadau masnachol hyn yn fwy manwl, gan gynnwys y cadwyni gwerth yn y farchnad deledu cysylltiedig. Mae Mediatique yn credu nad oes gan yr un darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, ac eithrio'r BBC, y nodweddion 'hanfodol' sy'n gysylltiedig â phŵer bargeinio a dylanwad mewn perthynas â'r gwasanaethau cyd-gasglu cynnwys byd-eang.[81] Er bod modd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod â gwerth, gyda'i gilydd, yn y DU, mae Mediatique yn credu bod hyn yn debygol o leihau dros amser wrth i'r chwaraewyr byd-eang mawr hyn barhau i dyfu ar raddfa fawr.

[81] Adroddiad Mediatique dros Ofcom, Awst 2020. Connected TV gateways: review of market, t.42

4.9 Fodd bynnag, er gwaethaf y datblygiadau technolegol cyflym hyn, ychydig iawn o newid a welwyd yn y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bresennol a'r drefn reoleiddio[82] ers 2003 ac mae'n dal i ganolbwyntio ar deledu darlledu traddodiadol. Cafodd y fframwaith ei greu cyn y rhan fwyaf o'r datblygiadau hyn ac nid yw'n ystyried deinameg y farchnad y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu ynddi erbyn hyn. Heb ymyrraeth reoleiddiol, mae'n bosibl y bydd yr heriau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y maes hwn yn dod yn ddifrifol.

> "Mae ymddygiad cynulleidfaoedd a'r dechnoleg sy'n ymwneud â darlledu wedi newid y tu hwnt i adnabyddiaeth. Ac i mi, rywsut neu'i gilydd, y peth gwirioneddol fawr a phryderus yw nad yw'r fframwaith polisi hwnnw wedi dal i fyny eto" **Mark Thompson, rhith-gynhadledd Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr**

4.10 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain wedi bod yn galw am ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio er mwyn iddynt allu cystadlu ar yr un lefel â'r chwaraewyr byd-eang ar-lein. Maent yn tynnu sylw at y risgiau i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus os bydd cynulleidfaoedd yn colli cyfle i ddod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau cyd-gasglu neu os nad ydynt yn gwybod o ble mae'r cynnwys hwn wedi dod.

4.11 Mae llwyfannau a darparwyr cynnwys eraill yn fwy amheus ynghylch faint o newid sydd ei angen yn benodol i gefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae darlledwyr masnachol yn benodol yn credu na ddylai unrhyw newidiadau arwain at anfantais anghymesur iddynt. Maent yn wynebu llawer o'r un heriau â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac maent yn chwarae rhan bwysig yn y farchnad, gan ychwanegu at luosogrwydd cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU a dod â buddsoddiad ychwanegol pwysig i economïau creadigol y DU. Rydym yn trafod ein cynigion ar gyfer sut gallai'r fframwaith rheoleiddio newid yn adran 5.

[82] Disgrifir y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn Atodiad 8 y Fframwaith Rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

> "Ein prif bryder yw na ddylid argymell mesurau yn Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus i gefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a fyddai'n gwneud drwg i allu pobl eraill i fuddsoddi." **COBA, Ymateb ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor Dethol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus**

## Mae system darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n seiliedig ar deledu a ddarlledir nawr yn wynebu heriau o ran cyrraedd a chysylltu â chynulleidfaoedd

### Mae'r cynnydd yn y gystadleuaeth am sylw gwylwyr wedi arwain at ostyngiad yn y lefelau gwylio teledu a ddarlledir


**4.12** Yn ogystal â'r heriau masnachol sy'n gysylltiedig â negodi mewn marchnadoedd sy'n fwyfwy byd-eang, mae darlledwyr yn y DU yn wynebu mwy a mwy o anhawster wrth gystadlu am amser cynulleidfaoedd, wrth i ddewis gynyddu.

4.13 Mae gwylwyr – nad ydynt bellach wedi'u rhwymo gan amserlenni teledu na setiau teledu – yn cael eu cynnwys fwyfwy gan amrywiaeth o ddarparwyr a llwyfannau gwahanol. Ar y cyfan, mae lefelau gwylio teledu a ddarlledir wedi bod yn gostwng yn raddol, o 3 awr, 41 munud yn 2014 i 3 awr, 3 munud yn 2019. Mae'r patrwm hwn o wylio llai o deledu a ddarlledir yn fwyaf amlwg ymysg cynulleidfaoedd iau. Ar gyfer y rheini yn y grŵp oedran 16-34 oed, roedd gostyngiad o 1 awr a 6 munud mewn gwylio teledu bob dydd rhwng 2014 a 2019.[83]

4.14 Yn lle teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw, mae gwylwyr yn treulio mwy o amser yn gwylio gwasanaethau tanysgrifio ar-alw ac ar-lein. Ar gyfer cynulleidfaoedd rhwng 16 a 24 oed, mae'r gwasanaethau ar-lein hyn yn rhan bwysig o'u cyfanswm gwylio fideos. Ar gyfartaledd, fe wnaethant dreulio dros awr y dydd ar YouTube, a 61 munud ar wasanaethau SVoD fel Netflix y llynedd. Yn yr un modd, yn y farchnad sain, roedd gwrando'n fyw ar set radio yn cynrychioli dim ond 26% o amser sain yn 2019 ar gyfer gwrandawyr 15-24 oed, gan eu bod bellach yn treulio mwy o amser yn gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth.[84]

[83] BARB. Unigolion 4+ oed; unigolion 16-34 oed. Darlledu cyfunol yn gwylio hyd at 7 diwrnod. Mesurir fel cynnwys sy'n cael ei weld ar adeg ei ddarlledu neu o fewn saith diwrnod wedyn ar set deledu.
[84] Touchpoints.

**Ffigur 7. Cyfanswm yr amser yn gwylio fideo y pen, y diwrnod – Pob gwyliwr 4 oed a hŷn 16-24 (2019)**





*Ffynhonnell: Mae Ofcom yn amcangyfrif cyfanswm yr holl wylio sain/fideo. Wedi ei fodelu o ddata BARB, Comscore a Touchpoints.*

4.15 Mae newidiadau mewn arferion cynulleidfaoedd yn adlewyrchu effaith gadarnhaol cael cymaint o ddewis o ran cynnwys a gwasanaethau. Mae'r arferion hyn yn debygol o gyflymu. Yn wir, yn 2019, dywedodd 43% o ddefnyddwyr SVoD eu bod yn gallu dychmygu peidio â gwylio teledu a ddarlledir o gwbl ymhen pum mlynedd.[85]

4.16 Arweiniodd pandemig y coronafeirws at gynnydd yn y nifer sy'n gwylio teledu a ddarlledir i ddechrau ym mis Mawrth a dechrau mis Ebrill, oherwydd bod pobl yn gwylio mwy o newyddion. Ond mae'n ymddangos bod y pandemig yn cyflymu twf gwylio fideos ar-lein, gyda chynulleidfaoedd hŷn yn symud yn gyflymach na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol. Mae'n debyg y bydd mwy o bobl yn dewis defnyddio gwasanaethau SVoD o hyd, gyda'r mwyafrif helaeth o danysgrifwyr SVoD yn dweud eu bod yn bwriadu eu cadw, a dros hanner y bobl yn dweud eu bod yn bwriadu parhau i wylio'r un faint o gynnwys wedi'i ffrydio yn y dyfodol ag yr oeddent yn ystod y cyfnod clo.[86]

[85] Ampere Analysis, Defnyddwyr, Ch1 2019, y DU, oedran: 18-65, ymatebwyr ar-lein.
[86] Arolwg Ar-lein Ipsos Streaming360 (5,000 o oedolion 18 oed a hŷn yn y DU), 2020. Edrychwch ar ddogfen Ofcom, 2020. Adroddiad Cyfryngau'r Genedl, t. 22

**Ffigur 8. Cyrhaeddiad gwasanaethau SVoD, yn ôl demograffeg oedran: cyn y cyfnod clo ac yn ystod y cyfnod clo, 2020**




*Ffynhonnell: TouchPoints 2020 cyn y cyfnod clo (15 Ionawr-23 Mawrth 2020) o'i gymharu â'r cyfnod clo (24 Mawrth-16 Ebrill 2020). Oedolion 15+, Prydain Fawr*

## Mae hyn wedi effeithio ar berthynas gwylwyr â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u hagweddau tuag atynt, yn enwedig ar gyfer cynulleidfaoedd iau

4.17 Ar gyfer cynulleidfaoedd yn gyffredinol, mae bodlonrwydd â darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn gymharol uchel. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl grŵp cynulleidfa, ac mae wedi dechrau disgyn rhywfaint. Mae ein gwaith ymchwil, Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, wedi dangos bod bodlonrwydd â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng o 79% yn dweud eu bod yn fodlon yn 2014 i 73% yn 2019. Mae cynulleidfaoedd yn yr Alban (68%) yn tueddu i fod yn llai bodlon â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus na'r rheini yng ngwledydd eraill y DU (Gogledd Iwerddon 76%, Cymru 75% a Lloegr 73%). Mae gwylwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig hefyd yn llai bodlon na gwylwyr eraill (68% o'i gymharu â 74%).[87]

4.18 O ystyried bod arferion gwylio cynulleidfaoedd iau wedi newid mor ddramatig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw'n syndod mai un o brif ganfyddiadau ein hymchwil ansoddol Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr oedd nad oes ganddynt yr un math o berthynas ddofn â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus â chenedlaethau hŷn.[88] Er bod pobl iau yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl bwysig darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn cymdeithas, roedd rhai yn ei chael yn anodd gweld y gwerth personol roeddent yn ei gael o'r sianeli a'r

[87] Traciwr Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom. Ar gyfer data 2014-2019 data, gweler Ofcom, 2020. adroddiad data rhyngweithiol Sgrin Fach Trafodaeth Fawr – adolygiad pum mlynedd o DDarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus .
[88] Ymchwil cynulleidfa Jigsaw ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2020. Edrych ar berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc t.9



Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr

gwasanaethau hyn.[89] Mae llai o'r gwylwyr iau yn adnabod brandiau a chynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd. [90]

## Mae darlledwyr traddodiadol wedi bod yn ymateb i'r newidiadau hyn yn y farchnad

4.19 Er bod y tueddiadau hyn yn cyflymu, nid ydynt yn newydd. Mae pob darlledwr – gan gynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – eisoes yn ymateb ac yn parhau i ddatblygu a rhoi strategaethau ar waith i newid eu gwasanaethau ar-lein.

### Bu cynnydd mewn cael gafael ar gyllid trydydd parti i dalu costau rhaglenni

4.20 Yng ngoleuni costau cynyddol rhaglenni sy'n cael eu sbarduno gan chwaraewyr newydd yn y farchnad, mae darlledwyr traddodiadol wedi troi fwyfwy at ffynonellau trydydd parti i rannu costau cynhyrchu cynnwys. Mae hyn wedi cynnwys darlledwyr fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a Sky yn cydweithio yn ogystal â darparwyr cynnwys byd-eang i gyd-gynhyrchu rhaglenni. Roedd gwariant trydydd parti ar gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf (gan gynnwys cyd-gynyrchiadau, cyllido diffyg a rhyddhad credyd treth i raglenni teledu o'r safon uchaf) wedi cyrraedd £549m yn 2019, ac mae wedi mwy na dyblu o £269m yn 2014. Fel arfer, mae cyllid trydydd parti yn tueddu i fod ar gael ar gyfer ystod gyfyngedig o genres, gyda drama yn genre a oedd yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o wariant trydydd parti yn 2019 (68%).[91]

### Mae lansio a datblygu gwasanaethau ar-alw wedi ceisio denu cynulleidfaoedd sydd wedi symud ar-lein

4.21 Gan fod anghenion cynulleidfaoedd yn newid ac oherwydd bod nifer yn symud i wylio ar-lein, mae darlledwyr traddodiadol wedi bod yn datblygu eu cynnwys a'u dosbarthiad. Mae llawer yn canolbwyntio fwyfwy ar sut gallant ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd nid yn unig drwy deledu a ddarlledir yn fyw, ond ar-lein hefyd.

4.22 Pan ddechreuodd cynulleidfaoedd symud ar-lein am y tro cyntaf dros ddegawd yn ôl, lansiodd pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ei wasanaeth ar-alw ei hun – BBC iPlayer ar gyfer teledu a BBC Sounds ar gyfer sain (BBC iPlayer Radio gynt); ITV Hub; All 4 (4OD gynt); My5 (5 on Demand gynt); STV Player; a Clic S4C. Dechreuodd y rhain fel gwasanaethau dal i fyny, gan ddarparu cynnwys a oedd wedi cael ei ddangos yn barod deledu a ddarlledir. Ond yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaethau hyn wedi datblygu ymhellach ac mae'r rhan fwyaf o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ceisio eu gwneud yn gyrchfannau ynddynt eu hunain.

---

[89] Ymchwil cynulleidfa Jigsaw ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2020. Edrych ar berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc t9

[90] Ymchwil cynulleidfa Jigsaw ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2020. Edrych ar berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc t27

[91] Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: ffigurau mewn termau real

4.23 Cymeradwyodd Ofcom gais y BBC i gynyddu faint o gynnwys sydd ar gael ar BBC iPlayer ym mis Awst 2019[92], ac ers hynny mae'r BBC wedi bod yn ychwanegu mwy o gynnwys at y llwyfan, yn ogystal â diweddaru ei nodweddion a'i ryngwyneb defnyddiwr. Mae rhaglenni nawr ar gael i'w gwylio am o leiaf 12 mis; mae dewis ehangach o setiau bocs cyfresi; ac mewn nifer o achosion, mae pob pennod mewn cyfresi newydd ar gael ar yr un pryd, sy'n golygu bod 36% yn fwy o oriau ar gael i'w gwylio.[93] O ganlyniad, am y tro cyntaf yn 2019/20, roedd twf BBC iPlayer bron yn gwneud iawn am y gostyngiad yn lefelau gwylio teledu a ddarlledir. [94]

4.24 Mae chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill wedi bod yn gwella'r hyn maent yn ei gynnig hefyd. Er enghraifft, cynyddodd nifer defnyddwyr cofrestredig ITV Hub 9% i 32 miliwn yn ystod hanner cyntaf 2020. Adroddwyd bod hyn wedi cael ei gefnogi gan broses o fuddsoddi a gwella'n barhaus, sydd wedi cynnwys cryfhau ei gynnwys a gwella profiad y defnyddiwr gyda mwy o gyfle i ddal i fyny, ac mae wedi ailgynllunio'r rhyngwyneb defnyddiwr.[95] Yn yr un modd, cynyddodd nifer defnyddwyr cofrestredig All 4 13% o un flwyddyn i'r llall i 22 miliwn, ac mae'n honni bod 80% o'r holl bobl rhwng 16 a 34 oed yn y DU wedi cofrestru ar y llwyfan erbyn hyn. [96] Dywed Channel 4 ei fod wedi buddsoddi yn y llwyfan All 4, wedi gwneud gwelliannau technegol sylweddol, a bod y twf mewn ffigurau gwylio yn 2019 wedi deillio o raglenni dal i fyny yn ogystal â rhaglenni archif.[97] Roedd ffigurau gwylio My5 wedi cynyddu 50% o un flwyddyn i'r llall hefyd.[98] Fel rhan o'i strategaeth i ddenu mwy o wylwyr i'r llwyfan, mae wedi cynyddu'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael, gan gynnwys drwy weithio mewn partneriaeth â thrydydd partïon a sicrhau trefniadau rhannu cynnwys, er enghraifft gydag AMC Networks.[99] Mae hefyd yn cynnwys Pluto TV sy'n eiddo i Viacom-CBS.[100]

4.25 Ymysg y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus cenedlaethol, mae STV hefyd wedi gweld twf yn ei lefelau gwylio ar-lein, gan adrodd mai Medi 2020 oedd mis gorau'r llwyfan o ran perfformiad gyda 7 miliwn o ffrydiau, cynnydd o 99% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r cyfanswm gwylio wedi cynyddu 88%.[101] Cyhoeddodd S4C ei fod wedi cynyddu nifer tanysgrifwyr S4C Clic o lai na 1000 ddiwedd 2018/19 i dros 100,000 ddiwedd mis Mawrth 2020. Roedd yn priodoli'r cynnydd i'r gwelliannau y mae wedi'u gwneud i swyddogaethau'r llwyfan, y cynnydd yn nifer y setiau bocs a faint o gynnwys unigryw sydd ar gael erbyn hyn, a gorfod cofrestru.[102]

4.26 Y tu allan i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae darlledwyr traddodiadol eraill a llwyfannau teledu drwy dalu wedi addasu eu cynigion hefyd. Er enghraifft, mae

---

[92] Ofcom, Awst 2019. Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer: datganiad ar benderfyniad terfynol Ofcom
[93] BBC, 2020. Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2019/20, t.25 a t.11.
[94] BBC, 2020. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2019/20', t 11.
[95] ITV plc 2020 Canlyniadau Interim 2020 t.1-2
[96] Channel 4, 2020, Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2019 t.16 a t.14
[97] Channel 4, 2020, Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel Four Television 2019 t.14 a t.29
[98] Broadcast 24 Tachwedd 2020 'Maria Kyriacou sets out My5 focus'
[99] Broadcast 1 Hydref 2020 'AMC Networks shows head to My5'
[100] Broadcast 27 Mehefin 2019 'My5 debuts trio of Pluto channels'
[101] STV, 7 Hydref 2020 'Strong ratings continue for STV and STV Player'
[102] S4C, 24 Medi 2020 'Cynnydd S4C Clic – neges Prif Weithredwr y sianel wrth gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol'

gwasanaeth Now TV Sky yn caniatáu i ddefnyddwyr ddefnyddio pecynnau tanysgrifio misol gwahanol ar gyfer ffilmiau, adloniant a chynnwys chwaraeon ar-alw. Ar gyfer ei danysgrifwyr Teledu drwy Dalu, mae hefyd yn cynnig yr opsiwn o integreiddio cyfrifon Netflix defnyddwyr i lwyfan Sky Q.

## Mae llwyddiant ac effaith y gwasanaethau hyn wedi bod yn gymysg

4.27 Fel y nodir uchod, mae chwaraewyr ar-alw y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn tyfu o ran eu poblogrwydd a'u defnydd. Ar gyfer rhai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae'r gwasanaethau hyn hefyd wedi rhoi refeniw ychwanegol iddynt. Yn achos Channel 4, mae ei refeniw digidol wedi cynyddu o £82m yn 2015 i £163m yn 2019. Roedd hefyd wedi gweld ei refeniw digidol yn cynyddu mwy o un flwyddyn i'r llall (£25m) na'r gostyngiad mewn refeniw teledu a nawdd (-£19m) yn 2019.[103]

4.28 Nid yw'r gwasanaethau hyn wedi gallu gwneud iawn am y gostyngiad cyffredinol yn lefelau gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod hwy. Rhwng 2014 a 2019, gostyngodd amser gwylio cyfartalog y bobl sy'n gwylio'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus 24 munud; eto mae cyfanswm gwylio fideo ar-alw darlledwyr (sy'n cynnwys gwylio cynnwys ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ogystal â chynnwys ar-alw darlledwyr masnachol eraill, fel Sky) yn cynrychioli cyfanswm o 11 munud o amser gwylio dyddiol oedolyn ar hyn o bryd.[104] Rydym yn cydnabod, o ystyried y dewis cynyddol sydd gan wylwyr erbyn hyn, y bydd hi'n anochel y bydd rhywfaint o wylwyr yn symud oddi wrth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

4.29 Ac nid yw'r gwasanaethau hyn wedi taro tant gyda chynulleidfaoedd cystal ag y gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod wedi gobeithio, yn enwedig cynulleidfaoedd iau. Mae ein hymchwil yn dangos bod gwylwyr yn fwy tebygol o'u defnyddio i ddal i fyny ar raglenni yn hytrach nag i chwilio am gynnwys newydd a darganfod cynnwys newydd.[105] Ni ystyrir chwaith eu bod yn gallu cystadlu â swyddogaethau'r gwasanaethau ffrydio byd-eang. Yn benodol, mae Netflix yn aml yn cael ei weld fel y 'gorau', gyda chatalog fawr o gynnwys, ac yn cynnig gwasanaeth mwy personol ac wedi'i deilwra a rhyngwyneb defnyddiwr sy'n hawdd ei ddefnyddio. I'r gwrthwyneb, canfu ein hymchwil fod chwaraewyr ar-alw y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn tueddu i gael eu hystyried fel rhai 'i bawb'. Felly, nid oes gan wylwyr hyder yng ngallu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus i argymell cynnwys perthnasol neu raglenni newydd iddynt. Gall hyn fod yn arbennig o annymunol i ddefnyddwyr iau.[106]

---

[103] Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi mewn termau nominal. Channel 4, 2019. Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Channel 4 2019, t 134.
[104] Modelu Ofcom ar wylio fideo sain gan ddefnyddio data BARB, Touchpoints a Comscore.
[105] Ymchwil cynulleidfa Jigsaw ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2020. Edrych ar berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc t37
[106] Ymchwil cynulleidfa Jigsaw ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2020. Edrych ar berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc t37

> "Fe ddylen nhw gopïo Netflix. Ar iPlayer ac ITV Hub mae'n cael ei roi yn nhrefn yr wyddor ac mae'n anoddach o lawer dod o hyd i bethau newydd i'w gwylio, dydych chi ddim yn mynd arno i edrych yn unig. Fe fyddech chi'n mynd arno i ddod o hyd i rywbeth rydych chi'n gwybod amdano'n barod ac mae'n rhaid i chi wybod yr enw, neu fyddech chi ddim yn dod o hyd iddo..." **Menyw, 25-39, Aberystwyth, Ymchwil Cynulleidfaoedd Ofcom**

4.30 Canfu ein hymchwil hefyd fod gorfod ymweld â sawl llwyfan i gael gafael ar gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn her i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran ymgysylltu pobl â'u chwaraewyr ar-alw. I'r gwrthwyneb, un o'r rhesymau pam mae cynulleidfaoedd yn dweud eu bod yn hoffi gwasanaethau fel Netflix yw oherwydd bod cynnwys i gyd mewn un lle, gan gynnwys llawer o'u hoff gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[107]

## Bydd ffocws parhaus ar-lein yn rhan allweddol o flaenoriaethau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

4.31 Gan ystyried yr uchod i gyd, nid yw'n syndod bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi mwy fyth o bwyslais ar eu llwyfannau ar-lein a'u modelau busnes. Mae Channel 4, sydd eisoes â dyletswyddau i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws ei holl wasanaethau, gan gynnwys ar-lein[108], wedi cyhoeddi ei strategaeth newydd, Future 4, yn ddiweddar. Elfen allweddol o'r strategaeth hon yw "trawsnewid Channel 4 yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus digidol". Fel rhan o hyn, mae wedi gosod targedau newydd y mae'n bwriadu eu cyrraedd erbyn 2025, gan gynnwys: dyblu'r nifer sy'n gwylio All 4; hysbysebu digidol i gyfrif am o leiaf 30% o gyfanswm y refeniw; a gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â hysbysebu i gyfrif am o leiaf 10% o gyfanswm y refeniw.[109]

4.32 Mae'r BBC hefyd yn cydnabod yr angen am newid a dywedodd Tim Davie, ei Gyfarwyddwr Cyffredinol, yn ddiweddar fod angen iddo ganolbwyntio mwy ar gyrraedd cynulleidfaoedd yn y byd prysur hwn.[110] Wrth amlinellu ei flaenoriaethau, dywedodd fod cyflymu'r broses o drawsnewid digidol yn hanfodol i lwyddiant y BBC a bod llwyfannau ar-lein y BBC "yn cynnig cyfle mawr i ni gysylltu'n ddyfnach â chynulleidfaoedd, gan eu helpu i ganfod mwy, cael gwybodaeth yn gynt, a rhyngweithio â ni".[111] Yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2020/21, dywedodd y BBC hefyd mai ei strategaeth tymor hwy yw datblygu dull gweithredu mwy aml-lwyfan a symud gwariant at BBC iPlayer er mwyn gwella a chynyddu'r cynnwys sydd ar gael a'i natur unigryw, yn ogystal â'i ddulliau datblygu cynnyrch, marchnata a dosbarthu. Mae hefyd yn bwriadu parhau i dyfu BBC Sounds drwy ddatblygu profiad y defnyddiwr er mwyn ei gwneud yn haws ei ddefnyddio ac yn fwy perthnasol yn bersonol; arloesi gyda

[107] Ymchwil cynulleidfa Jigsaw ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2020. Edrych ar berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc t.9
[108] Gweler Atodiad 8: fframwaith rheoleiddio Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, paragraff A8.12.
[109] Channel 4, 2020 'Future 4'
[110] BBC, 2020, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Grŵp y BBC 2019/20, t. 8
[111] BBC, 3 Medi 2020. Araith ragarweiniol Tim Davie fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC

fformatau gwrando newydd; datblygu cynnwys newydd; ac ymgorffori cynnwys trydydd parti. [112]

4.33 Mae ITV wedi cyflwyno ei strategaeth 'More Than TV' sy'n ceisio cyflymu ei broses o drawsnewid digidol. Mae'r darlledwr yn ailstrwythuro ei fusnes Darlledu i greu Is-adran newydd ar gyfer y Cyfryngau ac Adloniant er mwyn adlewyrchu a gwasanaethu arferion gwylio sy'n newid yn well, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd a lleihau costau. Mae hefyd wedi gwella dyluniad a swyddogaeth yr Hub, ac mae BritBox (chwaraewr tanysgrifio ar-alw ar y cyd ar gyfer cynnwys archif) wedi lansio ei gomisiwn gwreiddiol cyntaf, sef *Spitting Image.*

4.34 Mae ViacomCBS hefyd wedi nodi ei gynlluniau i wella llwyfan My5. Wrth siarad yng nghynhadledd Voice of the Listener and Viewer yn yr hydref, dywedodd Maria Kyriacou y bydd yn dod yn "fecanwaith darparu cynyddol bwysig ar gyfer cynnwys Channel 5" dros y pum mlynedd nesaf ac y bydd y llwyfan, ynghyd â'i asedau ar-alw eraill, yn flaenoriaeth i'r rhwydwaith.[113]

4.35 Yn ddiweddar, cyhoeddodd STV gynnydd sylweddol yn nifer y cynnwys a fydd ar gael ar chwaraewr STV, ar ôl archebu llu o raglenni drama, chwaraeon, troseddau go iawn a theitlau ffordd o fyw newydd gan amrywiaeth o bartneriaid dosbarthu. Mae hyn yn rhan o'i strategaeth i ganolbwyntio ar gryfhau yr hyn y mae STV Player yn unig yn ei gynnig. Mae hefyd wedi dod i gytundeb i ymestyn y cyfnod dal i fyny ar gyfer rhai cynnwys rhwydwaith, sy'n golygu y bydd rhai o'r sioeau mwyaf llwyddiannus ar gael ar y chwaraewr am fwy o amser.[114] Yn ddiweddar, mae S4C wedi buddsoddi mewn tîm newydd o staff i ddatblygu ei wasanaethau ar-lein a dywedodd y byddai'n "parhau i ddatblygu ei strategaeth ddigidol".[115]

> "Y peth pwysig i ni yw nad darlledwr yn unig ydyn ni. Y dyddiau hyn, mae gofyn i ni fod yn ffrydiwr digidol; mae gofyn i ni fod yn gynhyrchydd; ac yn ein hachos ni, oherwydd rydyn ni'n fach, fel rydych chi'n ei ddweud, mae gofyn i ni dorri'n rhydd o'r Alban, a bod yn falch o'n treftadaeth ar yr un pryd. Ac mae'n rhaid i ni fod yn bob un o'r rhain yn gyfartal. Mae gofyn i ni ddefnyddio rhinweddau digidol i allu cyrraedd y DU gyfan." **Simon Pitts, STV, rhith-gynhadledd Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr**

[112] BBC, Mai 2020. Cynllun Blynyddol 2020-21
[113] Broadcast Magazine, 24 Tachwedd 2020 'Maria Kyriacou sets out My5 focus'
[114] STV, 12 Hydref 2020 'Over 250 hours of new content added to STV Player for autumn'
[115] S4C, 24 Medi 2020 'Cynnydd S4C Clic – neges Prif Weithredwr y sianel wrth gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol'

## Mae'r angen i gyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar y system

4.36 Mae'r tarfu ar y farchnad a amlinellir uchod eisoes wedi effeithio'n wael ar gyflwr ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol, o ran dirywiad yn y farchnad hysbysebu teledu ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol (sef eu prif ddull o gynhyrchu refeniw) ochr yn ochr â'r gostyngiad yn refeniw ffi'r drwydded ar gyfer y BBC.[116]

4.37 Yn ôl Mediatique yn ei adroddiad a gomisiynwyd i edrych ar fodelau posibl ar gyfer darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, bydd gwylio byw yn parhau i ostwng wrth i fwy o bobl symud i ddefnyddio cynnwys ar-lein. Ar sail eu hamcangyfrifon, mae'r gyfradd twf cyfansawdd flynyddol (CAGR) ar gyfer refeniw hysbysebu net teledu a ddarlledir (termau real) yn -2.1% rhwng 2018 a 2024.[117] Mae cwestiwn ynghylch i ba raddau y gall cynyddu ffynonellau incwm eraill wneud iawn am y dirywiad tymor hir mewn refeniw hysbysebu teledu a ddarlledir. Rydym yn trafod cyllido'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol ymhellach yn adran 6.

4.38 Er bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol yn gweithio'n galed i addasu i'r byd ar-lein y maent yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd gofyn iddynt fuddsoddi mwy yn agweddau ar-lein eu busnesau er mwyn gallu cael yr effaith sydd ei hangen arnynt i gyrraedd cynulleidfaoedd a chystadlu â'r chwaraewyr newydd yn y farchnad lawer mwy y maent bellach yn gweithredu ynddi.

4.39 Mae hyn yn anodd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol ei wneud pan fydd angen iddynt barhau i fuddsoddi mewn darlledu traddodiadol er mwyn gwasanaethu pob cynulleidfa, gan gynnwys y rheini sy'n dal i ddibynnu ar deledu a ddarlledir, ac er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar eu gwasanaethau teledu a ddarlledir ar hyn o bryd.

[116] Mewn termau real.
[117] Adroddiad Mediatique dros Ofcom, 2020. Modelau ar gyfer darparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol, t.31, Ffigur 26 (Cyfanswm gwylio ffurf hir yn ôl math, mewn munudau a Ffigur 27 (twf refeniw CAGR 2014-2024).

# 5. Cynigion ar gyfer system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gref

**Crynodeb;**

- Bydd angen pedair nodwedd ganolog ar system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol er mwyn llwyddo; ystod eang o gynnwys o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion cynulleidfaoedd amrywiol; cynnwys sydd ar gael yn eang y gall cynulleidfaoedd ddod o hyd iddo'n rhwydd; cwmnïau sydd â digon o raddfa i gystadlu â chwaraewyr byd-eang ac sy'n apelio'n eang at gynulleidfaoedd, ac sydd â chyllid sefydlog.
- Er mwyn cefnogi'r nodweddion hyn, mae angen diweddaru'r fframwaith rheoleiddio presennol ar frys. Bydd gofyn bod yn hyblyg er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu o fod yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar deledu a ddarlledir i fod yn system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.
- Dylai'r fframwaith newydd gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a rhoi digon o hyblygrwydd i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'u dal i gyfrif ar yr un pryd. Fel roeddem wedi'i argymell y llynedd, dylai'r fframwaith hefyd sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn amlwg ar-lein.
- Rydym hefyd yn cynnig bod y Llywodraeth yn cyflwyno rheolau newydd i sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal ar gael yn eang ar-lein. Byddwn yn datblygu awgrymiadau penodol yn y maes hwn fel rhan o'n hargymhellion terfynol i'r Llywodraeth.
- Yn ogystal â chynigion i'r Llywodraeth eu hystyried, pan fydd newidiadau'n dod o fewn cylch gwaith Ofcom, rydym yn ystyried a oes meysydd yn y rheoliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol y gellir ac y dylid eu diweddaru.

## Bydd angen nodweddion penodol ar system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol er mwyn ffynnu

5.1 Fel y trafodwyd yn adran 2, rhaid i fframwaith yn y dyfodol fod yn seiliedig ar gysyniad ehangach – Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus – sy'n adlewyrchu disgwyliadau cynulleidfaoedd yn fwy cywir. Er mwyn cynnal cyrhaeddiad a pherthnasedd yn y tymor hir, ac er mwyn parhau i gyflawni'r manteision a nodir yn adran 3, bydd angen nodweddion allweddol penodol ar system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Gan ddwyn ynghyd yr hyn rydym yn ei wybod am newidiadau yn y sector cyfryngau, rôl barhaus darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y byd cystadleuol hwnnw a chryfderau darlledu gwasanaeth cyhoeddus y mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi, rydym yn credu bod y rhain fel a ganlyn:

1. Amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd amrywiol;

2. Cynnwys sydd ar gael yn eang, ac y gall cynulleidfaoedd ddod o hyd iddo'n rhwydd;
3. Rhai cwmnïau â graddfa i gystadlu a chyrraedd cynulleidfaoedd;
4. Sefydlogrwydd ariannol er mwyn caniatáu arloesi.

### Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus - Nodwedd 1. Amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd amrywiol

5.2 Mae angen i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus allu darparu amrywiaeth eang o gynnwys amrywiol ac o ansawdd uchel sy'n ddifyr ac sy'n diddanu, gan gynnwys newyddion a materion cyfoes dibynadwy a diduedd, ond gan ymestyn y tu hwnt i hynny hefyd, ac sy'n adlewyrchu gwledydd a rhanbarthau'r DU. Dylai'r cynnwys hwn apelio at gynulleidfaoedd o amrywiaeth o grwpiau demograffig, gan gynnig rhywbeth i bawb ac arwain at fanteision cymdeithasol drwy rannu profiadau.

5.3 Bydd buddsoddi mewn sector cynhyrchu ffyniannus yn y DU sy'n cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darparwyr masnachol a chynhyrchwyr annibynnol mawr a bach o bob cwr o wledydd a rhanbarthau'r DU, yn sicrhau'r ffordd orau o gynhyrchu'r cynnwys hwn. Bydd amrywiaeth barhaus o ran beth a sut mae cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu creu yn helpu i sicrhau bod cynnwys yn cael ei greu sy'n cynrychioli'r DU ac sy'n adrodd ei straeon yn ddilys. Bydd hefyd yn helpu i annog dosbarthu buddion economaidd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn effeithiol ledled y DU.

### Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus - Nodwedd 2. Cynnwys sydd ar gael yn eang, y gall cynulleidfaoedd ddod o hyd iddo'n hawdd

5.4 Am y degawd nesaf o leiaf, bydd angen i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n dal i ddibynnu ar wasanaethau darlledu. Ar yr un pryd, bydd angen iddo hefyd arloesi i gyrraedd y cynulleidfaoedd hynny y mae'n well ganddynt wasanaethau ar-alw a gwasanaethau sy'n cael eu ffrydio.

5.5 Dylai cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, sy'n cael ei ddarlledu ac sydd ar gael ar-lein, fod ar gael yn eang a bod yn amlwg i bob cynulleidfa, fel nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, a bod pawb yn gwybod yn iawn pa gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sydd ar gael iddynt. Mae pwysigrwydd sicrhau mynediad at wybodaeth ddibynadwy y gellir ymddiried ynddi yn ystod cyfnodau o ansicrwydd wedi cael ei amlygu'n glir yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae amlygrwydd yn helpu i hyrwyddo cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus er mwyn i gynulleidfaoedd allu elwa o'r amrywiaeth o gynnwys sy'n cael ei ddarparu.

### Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus - Nodwedd 3. Cwmnïau sydd â'r raddfa i gystadlu a chyrraedd cynulleidfaoedd

5.6 Mae angen i rai sefydliadau sydd â maint a graddfa ac amrywiaeth eang o gynnwys fod yn sail i'r system, er mwyn gallu denu cynulleidfaoedd, ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-lein, ac er mwyn gallu cystadlu mewn marchnad sy'n fwyfwy cystadleuol a byd-eang.

Mewn adroddiad a gomisiynwyd gennym ar gyfer yr adolygiad hwn, [118] disgrifiodd Mediatique sut gall graddfa a brandiau cydnabyddedig helpu i gryfhau safbwyntiau negodi darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda llwyfannau digidol. Mae graddfa yn arbennig o bwysig yng nghyswllt newyddion lle mae angen brandiau dibynadwy i gywiro anghywirdebau a chamwybodaeth ar-lein. Mae cwmnïau cydnabyddedig yn bwysig er mwyn meithrin ymddiriedaeth a buddion diwylliannol. Gall gwahanol gwmnïau gyflawni hyn, ond mae'n cymryd amser a buddsoddiad i feithrin cysylltiadau â charfanau eang o gynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae Sky wedi adeiladu gwasanaeth newyddion dibynadwy iawn, ond dyma'r unig ddewis mawr ar y teledu yn lle gwasanaethau newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU.

5.7 Mae cael nifer o gwmnïau yn y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gallu sicrhau lluosogrwydd lleisiau ac amrywiaeth o frandiau sy'n gallu apelio at bawb gyda'i gilydd. Gallai darparwyr eraill ychwanegu at wasanaethau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus craidd a ddarperir gan rai cwmnïau mwy, gan gynnwys chwaraewyr llai â ffocws culach, neu gwmnïau mwy sy'n canolbwyntio dim ond rhan o'u busnes ar gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

### Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus - Nodwedd 4. Sefydlogrwydd ariannol i alluogi arloesi

5.8 Mae angen model cyllido sy'n rhoi sefydlogrwydd rhesymol ar y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus hefyd. Mae llwyddiant economaidd creadigol y DU wedi cael ei adeiladu'n rhannol ar y sefydlogrwydd a ddarperir gan fframwaith rheoleiddio ac ariannol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae sefydlogrwydd yn cefnogi buddsoddiad tymor hir a mewnfuddsoddiad ac yn ei dro, gall sicrhau'r buddion cymdeithasol gorau fel datblygu sgiliau a chyflogaeth ledled y DU.

## Mae'n amlwg fod taer angen newid y fframwaith rheoleiddio

5.9 Mae llawer o'r newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol yn galw am weithredu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain, ar y cyd ag eraill yn y sector. Rydym yn trafod y materion hyn yn adran 6. Fodd bynnag, wrth i gynulleidfaoedd barhau i symud ar-lein, mae effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio yn dirywio. Bydd mynediad breintiedig at sbectrwm a safleoedd amlwg ar gyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) a ddarperir gan y system, ac a oedd unwaith yn sicrhau bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu cyrraedd pob cynulleidfa, yn dod yn llai gwerthfawr.

5.10 Mae fframwaith rheoleiddio newydd yn angenrheidiol. Dylai barhau i sicrhau bod buddiannau cynulleidfaoedd wrth ei galon, i gefnogi darparu ar draws llwyfannau, a chael ei ddylunio er mwyn gallu addasu'n rhwydd i newidiadau yn y farchnad a bod yn ddigon

[118] Adroddiad Mediatique dros Ofcom, 2020. Modelau ar gyfer darparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol

hyblyg i allu diwygio'r broses o ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn ehangach yn y tymor hwy.[119]

> *"Daeth system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU i fodolaeth dros hanner can mlynedd yn ôl, a hynny mewn cyfnod o sefydlogrwydd cymharol yn y sector teledu ac mae wedi esblygu'n raddol. Ond mae graddfa, cwmpas a chyflymder y newid yn y sector heddiw yn galw am adolygiad sylfaenol o'r system honno i sicrhau ei bod yn dal yn briodol ar gyfer yr 21ain Ganrif."* **Sky, cyflwyniad i Ymchwiliad Dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2020**

5.11 Nid yw'r heriau sy'n codi wrth greu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn unigryw i'r DU. Mae gwledydd eraill hefyd wrthi'n ystyried neu'n cyflwyno rheoliadau newydd sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r gwaith o greu a dosbarthu cynnwys sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ar-lein.

5.12 Yng Nghanada, mae'r llywodraeth wedi cynnig mesur sy'n grymuso'r rheoleiddiwr i fynnu bod llwyfannau ar-lein yn cyfrannu'n ariannol at gefnogi cynnwys o Ganada, ac yn gosod rhwymedigaethau ar lwyfannau i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu dod o hyd i gynnwys.[120] Yn yr Almaen, cadarnhaodd awdurdodau cyfryngau'r wladwriaeth ddeddfwriaeth darlledu yn ddiweddar a oedd yn cyflwyno rheol "rhaid dod o hyd iddo" ar gyfer mathau penodol o gynnwys er budd y cyhoedd ar lwyfannau cyfryngau.[121] Ac mae rheoleiddiwr Awstralia wedi cynnig cyflwyno safonau gofynnol gorfodol wedi'u cyfundrefnu sy'n rhoi mwy o reolaeth i gyhoeddwyr dros sut mae eu cynnwys yn cael ei ddangos ar lwyfannau digidol. Mae hefyd wedi cynnig safonau sylfaenol gorfodol i orfodi Google a Facebook i rannu gwybodaeth am y data maent yn ei gasglu am gynulleidfaoedd newyddion ar-lein â chyhoeddwyr newyddion.[122]

5.13 Yn Ffrainc, roedd y rheoleiddiwr wedi mynnu bod Google yn trafod â chyhoeddwyr newyddion er mwyn cytuno ar system iawndal ar gyfer defnyddio cynnwys newyddion.[123] Diwygiwyd cyfraith hawlfraint genedlaethol yn yr Almaen a Sbaen i roi mwy o reolaeth i gyhoeddwyr newyddion dros sut mae eu cynnwys yn cael ei ddefnyddio ar-lein, gan gynnwys iawndal gorfodol i gyhoeddwyr.[124]

---

[119] Byddai gofyn cael deddfwriaeth newydd er mwyn gweithredu'r rhan fwyaf o'n cynigion, felly nid ydym wedi cynnal asesiad llawn o effaith y cynigion hyn. Mewn egwyddor, byddem yn disgwyl i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar ddinasyddion a defnyddwyr y DU, gan gynnwys pob grŵp cydraddoldeb, ac ar y sector darlledu.
[120] Panel Adolygu Deddfwriaethol Darlledu a Thelegyfathrebiadau, Ionawr 2020. 'Canada's Communication Future: Time to Act'.
[121] Medienstaatsvertrag (MStV), Ebrill 2020, gwefan Bayerische Staatskanzlei. I gael crynodeb, ewch i Lexology, 10 Tachwedd 2020, 'New German State Media Treaty enters into force'.
[122] ACCC, 31 Gorffennaf 2020. 'News Media and Digital Platforms Mandatory Bargaining Code Bill 2020: Exposure draft explanatory materials'.
[123] Politico, 8 Hydref 2020. 'French court sides with press publishers in Google licence fee stand-off'.
[124] Y Fonesig Frances Cairncross, Chwefror 2019. 'The Cairncross Review: a sustainable future for journalism', t.69-70.

# Byddai fframwaith rheoleiddio newydd yn cefnogi nodau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

## Pennu cwmpas y fframwaith

5.14 Y man cychwyn ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd yw diffinio manteision a chwmpas yr hyn y dylai system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol ei ddarparu i gynulleidfaoedd. Y Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig sydd i benderfynu ar hyn yn y pen draw, gan sicrhau bod buddiannau cynulleidfaoedd, fel defnyddwyr a dinasyddion, yn cael eu diogelu.

5.15 Yng ngweddill yr adran hon rydym yn canolbwyntio ar sut byddai fframwaith rheoleiddio newydd yn cefnogi'r broses o ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac yn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

5.16 Beth bynnag fo graddfa a chwmpas cyffredinol system yn y dyfodol, rydym yn credu y byddai sefydlu dull gweithredu mwy 'niwtral o ran gwasanaeth' ar gyfer darparu a rheoleiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn arwain at fuddion i gynulleidfaoedd. Gallai'r fframwaith roi hyblygrwydd i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus benderfynu pa wasanaethau sydd fwyaf addas i gyflawni eu rhwymedigaethau. Byddai hyn yn newid o'r system bresennol, lle mae rhwymedigaethau'n gysylltiedig â gwasanaethau darlledu teledu penodol.

5.17 O ran rhwymedigaethau, rydym o'r farn mai cyfuniad o ofynion ansoddol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a rhai cwotâu fyddai'n fwyaf effeithiol. Nid yw gofynion meintiol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer amserlenni darlledu o reidrwydd yn trosi'n dda i'r byd ar-lein. Byddai darlledwyr a chynulleidfaoedd yn elwa o fframwaith sy'n fwy hyblyg.

5.18 Er mwyn creu fframwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, o bosibl gyda gofynion llai meintiol sy'n benodol i'r gwasanaeth, bydd yn hanfodol cael mesurau atebolrwydd cadarn a thryloyw yn sail iddo. Rydym yn cynnig:

a) Dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn gyhoeddus, cytuno ar fetrigau priodol a chlir, ac adrodd ar y canlyniadau maent yn eu cyflawni.

b) Byddai Ofcom yn monitro'r ddarpariaeth ac yn dal y darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gyfrif, a byddai gennym bwerau i gamu i mewn a gosod gofynion penodol yn ôl yr angen.

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno y dylai fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gefnogi dull cyflwyno mwy hyblyg, 'niwtral o ran gwasanaeth', sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau?**

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer fframwaith atebolrwydd clir?**

## Sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang ac yn hawdd dod o hyd iddynt

5.19 Dylai pob cynulleidfa allu dod o hyd i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn rhwydd a gweld pa mor eang yw'r cynnwys sydd ar gael iddynt, er mwyn sicrhau'r effaith a'r gwerth gorau posibl. O dan y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bresennol, mae hyn yn cael ei wneud drwy reolau ar amlygrwydd ac argaeledd y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu darlledu ond nid yw'r rheolau hyn yn ymestyn i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddarparu ar alw. Fodd bynnag, mae'r llinell rhwng teledu a ddarlledir a theledu ar-alw yn gallu ymddangos yn fwyfwy aneglur. Erbyn hyn mae rhai 'apiau' yn cynnwys ffrydiau 'byw' ochr yn ochr â rhaglenni ar-alw er mwyn i wylwyr allu symud yn gymharol rhwydd rhyngddynt. Gall setiau teledu clyfar a gwasanaethau teledu wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd gynnwys cymysgedd o apiau a rhaglenni trydydd parti. Felly mae'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn defnyddio ac yn dewis cynnwys yn fwy amrywiol na dim ond drwy amserlen teledu (neu 'EPG').

**Ffigur 9: Gwahanol lwybrau at gynnwys**

**EPG**
(Canllaw rhaglenni electronig)



Gall EPG ddarparu:
**Chwilio yn nhrefn yr wyddor**
**Chwilio seiliedig ar amser**
**Ffefrynnau**

**DVR**
(Recordydd Fideo Digidol)




Gall DVR ddarparu:
**Chwilio yn nhrefn yr wyddor**
**Chwilio seiliedig ar amser**
**Ffefrynnau**
**Genre**
**Cynnwys talu-wrth-wylio**

**Porthol VOD**
(Fideo ar alw)



Gall porthol VOD ddarparu:
**Chwilio yn nhrefn yr wyddor**
**Chwilio seiliedig ar amser**
**Ffefrynnau**
**Genre**
**Cynnwys talu-wrth-wylio**
**Argymhellion algorithmig**
**Argymhellion golygyddol**
**Fformat rhaglen**

**Teledu Cysylltiedig**



Gall teledu cysylltiedig ddarparu:
**Chwilio yn nhrefn yr wyddor**
**Chwilio seiliedig ar amser**
**Ffefrynnau**
**Genre**
**Cynnwys talu-wrth-wylio**
**Argymhellion algorithmig**
**Argymhellion golygyddol**
**Fformat rhaglen**
**Darparwr/chwaraewr VOD**
**Canllaw rhaglenni electronig EPG**

5.20 Ar hyn o bryd, mae amlygrwydd a mynediad at wasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y llwyfannau a'r dyfeisiau mwy newydd hyn yn cael eu pennu drwy drafodaethau, heb unrhyw ôl-stop rheoleiddio. Mae'r trafodaethau hyn yn cael eu cynnal fwyfwy ar lefel ryngwladol, rhwng cyflenwyr a chwmnïau byd-eang. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid yn y ddeinameg, nid yn unig yn y maes teledu, ond mewn amrywiaeth o farchnadoedd cyfryngau eraill hefyd, gan gynnwys gemau, cerddoriaeth a chyfryngau cymdeithasol.

## Sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn amlwg

5.21 Ym mis Gorffennaf 2019, roeddem wedi argymell bod y llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol - yn ogystal â'u sianeli teledu a ddarlledir presennol - yn cael lle amlwg ar draws setiau teledu cysylltiedig.[125] Byddai hyn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu parhau i elwa o ddewis ehangach wasanaethau, heb golli'r buddion o gael mynediad rhwydd at gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae buddion cyffredinol i gynulleidfaoedd o ran dewis ac arloesedd yn y farchnad hon; felly byddai angen i reolau newydd gydbwyso'r ystyriaethau hyn â sicrhau y rhoddir lle amlwg i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Ochr yn ochr â'n hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, rydym hefyd yn edrych yn ehangach ar sut mae'r marchnadoedd hyn yn datblygu ac unrhyw faterion polisi sy'n codi.[126]

## Sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod ar gael yn eang

5.22 Drwy adeiladu ar ein hargymhellion o ran amlygrwydd, rydym yn nodi yma ein barn diweddaraf ynghylch sut dylai fframwaith hyblyg ar gyfer amlygrwydd gael ei ategu gan reolau argaeledd, er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut gellid diffinio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yng nghyd-destun gofynion rheoleiddio a buddion newydd.

5.23 Mae cynnwys a gwasanaethau ar-lein ac ar-alw yn fwy cymhleth ac amrywiol, a gellid dadlau eu bod yn anoddach eu diffinio, na sianeli darlledu. Gellir eu darparu fel ap chwaraewr sy'n benodol i ddarlledwr, fel BBC iPlayer ar deledu clyfar neu wasanaeth teledu drwy dalu, neu fel clip newyddion byr ar ffrwd cyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn seiliedig ar gadwyn gwerth fwy cymhleth, sydd yn aml â nifer o wahanol sefydliadau'n cadw rhywfaint o reolaeth neu fudd yn yr hyn sy'n cael ei ddarparu i gynulleidfaoedd.

5.24 Ar hyn o bryd, mae'r darpariaethau 'rhaid cynnig / rhaid cyflawni' yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 wedi'u dylunio i sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnig fersiwn o'u sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus i'w cynnal ar brif lwyfannau'r DU (teledu daearol digidol neu DTT, fel Freeview; cebl a lloeren), a bod yn rhaid i ddarparwyr llwyfannau mawr eu cynnal.[127] Mae'r mesurau rheoleiddio hyn yn cefnogi'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus i fod ar gael. Dywedodd y Llywodraeth yn 2016 y dylai'r cyfnewid hwn fod ar

---

[125] Ofcom, Gorffennaf 2019. Adolygiad o amlygrwydd i ddarllediadau gwasanaeth cyhoeddus: Argymhellion i'r Llywodraeth ar fframwaith newydd i gadw teledu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn amlwg mewn byd ar-lein. Roedd ein hargymhellion yn cynnig y byddai cynnwys Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael amlygrwydd ar wasanaethau teledu, fel Sky a setiau teledu cysylltiedig, setiau teledu clyfar a ffyn ffrydio, sy'n cael eu defnyddio gan nifer sylweddol o wylwyr fel eu prif ffordd o wylio'r teledu. Mae'r diffiniad hwn yn cael ei gynnig er mwyn targedu gwasanaethau allweddol mewn ffordd gymesur a chaniatáu ar gyfer newid wrth i dechnoleg ac arferion gwylio esblygu.

[126] Fe wnaethom gomisiynu adroddiad annibynnol a gofyn am sylwadau ar sut mae'r farchnad ar gyfer teledu cysylltiedig yn datblygu. Adroddiad Mediatique ar gyfer Ofcom, 2020, '*Connected TV gateways: review of market dynamics'.*

[127] Gweler Atodiad: fframwaith rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, A8.32 – A8.34 ac A8.43 – A8.46.

sail 'sero-net', ac nad yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus na'r gwasanaeth llwyfan yn elwa'n sylweddol ar gynnal y sianeli.[128]

5.25 Mae trafodaethau rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r llwyfannau ynghylch cyflenwi eu cynnwys a'u gwasanaethau ar-alw yn gallu cwmpasu amrywiaeth eang o faterion. Mae'r materion hyn yn cynnwys amlygrwydd; mynediad at ddata cynulleidfaoedd; mesurau i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn priodoli cynnwys yn gywir i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus; ac – ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol – mynediad at restr hysbysebu a/neu gyfran o refeniw hysbysebu a enillir o wasanaethau ar-lein.[129] Mae'n bosibl i gostau datblygu technegol sylweddol fod ynghlwm ag argaeledd chwaraewr darlledu gwasanaeth cyhoeddus, neu gynnwys gan chwaraewr hefyd, ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau.

5.26 Mae rhai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dadlau eu bod yn ei chael hi'n anoddach denu llwyfannau. Maent yn dweud bod hyn yn golygu bod mwy o berygl na fydd eu gwasanaethau ar-alw yn cael eu cynnal neu na fyddant yn cael eu cynnal ar delerau ffafriol. Er enghraifft, mae telerau safonol Amazon Fire TV yn mynnu 30% o refeniw hysbysebu yn gyfnewid am safle ffafriol ar y llwyfan.[130] Fodd bynnag, mae rhai gwneuthurwyr a darparwyr llwyfannau wedi dadlau, er bod defnyddwyr nawr yn disgwyl cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-alw, bod angen iddynt gyfuno hyn â dewisiadau eraill o ran cynnwys. Maent yn dweud bod telerau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu bod yn anhyblyg ac yn anodd eu cysoni â gofynion rhyngwladol neu fyd-eang.

5.27 Yn bwysig iawn, os nad oes modd cytuno ar delerau rhwng darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a darparwr llwyfan, efallai na fydd y gwasanaeth ar-alw ar gael ar y llwyfan mwyach. Gall hyn beri niwed masnachol i'r gwneuthurwr neu'r darparwr llwyfan, ac amharu ar allu'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni ei gylch gwaith. Yn bwysicach na dim, gall fod yn rhwystredig ac yn ddryslyd i gynulleidfaoedd. Rydym wedi gweld sawl enghraifft o hyn yn digwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Un enghraifft yw modelau teledu LG 2020 yn cael eu lansio yn y DU ym mis Ebrill heb unrhyw un o apiau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (BBC iPlayer, ITV Hub, All 4 a My5). Er bod BBC iPlayer ar gael ym mis Awst, nid oedd chwaraewyr fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ar gael o hyd ar ôl hyn.[131]

5.28 Byddai rheolau newydd i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-lein, ac yn rhoi mwy o sicrwydd i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gwneuthurwyr a llwyfannau teledu ynghylch y telerau ar gyfer darparu gwasanaethau ar-alw cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd. Gallai'r rhain fod yn unol â'n hargymhellion ar gyfer rheolau amlygrwydd newydd, sy'n berthnasol i wasanaethau teledu a llwyfannau y mae nifer sylweddol o bobl yn eu defnyddio fel eu prif ffordd o wylio teledu.

---

[128] Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 5 Gorffennaf 2016. 'The balance of payments between television platforms and public service broadcasters consultation report, Government Response'

[129] Adroddiad Mediatique ar gyfer Ofcom, 2020, Connected TV gateways: review of market dynamics, tudalennau 29-32.

[130] Adroddiad Mediatique ar gyfer Ofcom, 2020, Connected TV gateways: review of market dynamics, t. 29.

[131] What Hi-Fi?, 24 Awst 2020, LG's 2020 TVs finally get iPlayer and other BBC streaming apps.

## Gofynion newydd o ran argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus

5.29 Byddai gofyn cael rheolau newydd ar gyfer argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus er mwyn:

a) **rhoi eglurder ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ei gynnig.** Byddai angen eglurder o ran y cynnwys a sut mae'n cael ei ddarparu, er enghraifft a fyddai'r cynnwys yn cael ei ddarparu fel ap yn unig a/neu fel rhaglenni ar wahân. Mae costau ar gyfer darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau llwyfan wrth ddarparu cynnwys mewn fformatau gwahanol. Mae ystyriaethau hefyd ynghylch pwy sy'n rheoli sut caiff ei deilwra a'i gyflwyno mewn ffordd sy'n gyson â nodweddion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

b) **ystyried a ba delerau y bydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gael.** Pe bai'r egwyddor 'dim ffioedd net' yn cael ei hymestyn i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gallai arwain at gostau real neu gostau o ran cyfle sylweddol i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Byddai hyn, yn ei dro, yn golygu na fyddent yn gallu buddsoddi cymaint mewn cynnwys gwreiddiol sy'n adlewyrchu nodweddion cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Byddai darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus hefyd o bosibl yn colli'r gallu i gael consesiynau gan lwyfannau ar fynediad at ddata cynulleidfaoedd, ac yn cael effaith negyddol ar gytundebau hysbysebu cysylltiedig. Ar y llaw arall, gallai unrhyw reolau amlygrwydd ac argaeledd newydd atal dewisiadau masnachol a chyfleoedd i wneuthurwyr a darparwyr llwyfannau.

## Ehangder safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch sut dylid cynllunio hyn

5.30 Rydym wedi clywed amrywiaeth eang o safbwyntiau ar y mater hwn hyd yma. I ddangos hyn, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn rydym wedi cyhoeddi dau gyflwyniad gan randdeiliaid – un cyflwyniad[132] ar y cyd gan y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5, STV ac S4C; a chyflwyniad gan techUK[133], corff yn y diwydiant sy'n cynrychioli nifer o brif lwyfannau a gwneuthurwyr teledu a chynnwys digidol.

5.31 Mae'r cyflwyniad ar y cyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnig y byddai'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ddarparu "cynnig rheoledig" i bob un o'r prif lwyfannau teledu. Byddai'r "cynnig rheoledig" yn cynnwys math "craidd" o wasanaeth fideo ar-alw darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnig dim ond cynnwys a oedd wedi cael ei ddarlledu'n wreiddiol ar sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddai'n cael ei gynnig i lwyfannau ar set o delerau contract safonol. Byddai'r dull hwn yn diogelu'r posibilrwydd o drafodaethau masnachol rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau. Byddai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu cynnig mathau gwell ar eu gwasanaethau i lwyfannau yn gyfnewid am werth masnachol[134], gan warantu y byddai

[132] Cyflwyniad Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar y cyd ar amlygrwydd, cynhwysiad a gwerth teg
[133] Cyflwyniad techUK ar rôl Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y farchnad offer derbyn teledu
[134] Er enghraifft, gallai Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus geisio cael refeniw masnachol gan lwyfannau yn gyfnewid am gynnwys ychwanegol, gan alluogi swyddogaethau ychwanegol y gallai llwyfannau fod yn dymuno eu cynnig – fel caniatáu i ddefnyddwyr lwytho cynnwys Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus i lawr i'w dyfais symudol, recordio neu anwybyddu

cynulleidfaoedd bob amser yn gallu cael y gwasanaeth "craidd" pe bai'r trafodaethau hynny'n methu. Ni fyddai'r trefniant "cynnig rheoledig" yn berthnasol i'r BBC: byddai'n rhaid iddo gynnig – a byddai'n rhaid i lwyfannau dderbyn – y gwasanaeth BBC iPlayer llawn, ar y telerau a nodir ym Mholisi Dosbarthu presennol y BBC.[135]

5.32 Mae'r cyflwyniad gan techUK yn dadlau na ddylid caniatáu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus osod telerau contract sydd "wedi'u diffinio gan un ochr" ar lwyfannau teledu cysylltiedig. Yn ôl techUK, er mwyn cael mynediad at wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, nid oes gan wneuthurwyr teledu unrhyw ddewis ar hyn o bryd ond derbyn telerau sydd wedi'u diffinio gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n aml yn dechnegol feichus, yn gorfodi costau ac yn cyfyngu ar y potensial ar gyfer arloesi. Yn hytrach, mae techUK yn dadlau y dylid cael set reoledig o delerau ac amodau a oruchwylir gan reoleiddiwr annibynnol. Fel rhan o'r telerau hyn, dylai fod yn ofynnol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddarparu eu chwaraewyr yn unol â safonau technegol rhyngwladol, a dylent ddarparu metadata o'u gwirfodd.[136]

5.33 Rydym hefyd yn nodi bod rhyngwynebau defnyddwyr teledu yn tueddu i newid i fod yn rhai sy'n fwyfwy seiliedig ar raglenni neu ddarnau o gynnwys yn hytrach nag apiau, gyda rhagor o ddewisiadau personol ar gael. Rhaid i unrhyw fframwaith newydd gydbwyso hyrwyddo a chynaliadwyedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn effeithiol, yn erbyn buddion cyffredinol dewis i ddefnyddwyr a'r effaith reoleiddio ar eraill, er enghraifft gweithredwyr llwyfannau, gwneuthurwyr dyfeisiau a darparwyr cynnwys masnachol.

5.34 Rydym yn croesawu safbwyntiau ar natur y gwasanaethau y byddai'n rhaid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus eu cynnig i lwyfannau o dan unrhyw reoliadau argaeledd newydd, a'r telerau y byddai'n rhaid i lwyfannau eu dilyn i'w cyflawni. Yn benodol, rydym yn croesawu tystiolaeth am y costau sy'n gysylltiedig ac am ymchwil sy'n berthnasol i'r effaith ar gynulleidfaoedd, gan y byddai'n rhaid i reolau argaeledd newydd ystyried dichonoldeb technegol, cymesuredd (gan gynnwys effeithiau cost), a disgwyliadau defnyddwyr. Rydym yn croesawu sylwadau ysgrifenedig ar yr agweddau hyn ac rydym hefyd yn bwriadu cynnal rhagor o drafodaethau â rhanddeiliaid yn y flwyddyn newydd er mwyn cyfrannu at ein hargymhellion terfynol.

---

hysbysebion ar gynnwys Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, cael mynediad at fetadata Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, neu alluogi mynediad at gynnwys Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus y tu hwnt i'w ap hynny yw, ar wahân. Gweler t. 6 Cyflwyniad Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar y cyd ar amlygrwydd, cynhwysiad a gwerth teg

[135] BBC, Mehefin 2018. BBC Distribution Policy

[136] Mae'r term 'metaddata' yn cyfeirio at wybodaeth allweddol sy'n gysylltiedig â rhaglen deledu (ee teitl, disgrifiad, geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â genre neu actorion sy'n rhan o'r rhaglen, ac ati) sy'n cefnogi pa mor effeithiol mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno ar draws llwyfan, er enghraifft, yn cael ei hargymell o dan y genre cywir neu o dan ganlyniadau chwilio. Mae TechUK hefyd yn dadlau y dylai Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ddarparu cynnwys mewn fformat HD, ac y dylent roi sicrwydd i wneuthurwyr y byddant yn parhau i gefnogi hen fersiynau o apiau chwaraewyr fel nad yw perchnogion dyfeisiau teledu hŷn yn colli mynediad at wasanaethau fideo ar-alw Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus dros amser. Hefyd, mae TechUK yn credu na ddylai'r BBC fynnu bod gwneuthurwyr yn cyflwyno eu profion mewnol eu hunain ar gyfer dyfeisiau er mwyn cael caniatâd i gynnal gwasanaethau'r BBC, gan fod y broses hon yn golygu oedi a chostau diangen i wneuthurwyr. Yn hytrach, dylai'r BBC ganiatáu i wneuthurwyr hunanardystio eu bod wedi bodloni safonau technegol y BBC. Cyflwyniad techUK ar rôl Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y farchnad offer derbyn teledu

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad: Yn eich barn chi, beth ddylid ei gynnwys yng 'nghynnig' y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus?**

**Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad: Yn eich barn chi, pa opsiynau y dylem eu hystyried o ran argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus?**

## Byddwn hefyd yn adolygu a oes angen diweddaru'r rheoliadau presennol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn well

5.35 Fel y nodwyd uchod mae gofyn cael deddfwriaeth newydd er mwyn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Ochr yn ochr â hyn, yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad, efallai y bydd meysydd rheoleiddio cyfredol eraill y gellir ac y dylid eu diweddaru er mwyn:

a) sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa; a

b) sicrhau bod rheoleiddio ehangach yn parhau i adlewyrchu'r cydbwysedd cywir rhwng cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'r farchnad ehangach.

### Sicrhau rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus presennol yn unol â disgwyliadau'r gynulleidfa

5.36 Ochr yn ochr â datblygu ein hargymhellion ar system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y dyfodol, byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith i ddatblygu'r ffordd rydym yn rheoleiddio'r BBC a Chorfforaeth Channel 4,[137] ac yn rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y prosesau adnewyddu trwyddedau sydd ar y gweill. Mae'r gwaith hwn yn gyson â'r dull gweithredu rydym wedi'i amlinellu yn yr ymgynghoriad hwn ac yn berthnasol iddo.

5.37 Mae'n rhaid i Ofcom osod Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, gan gynnwys ei wasanaethau ar-lein. Mae'r Drwydded hon yn nodi'r amodau rheoleiddio rydym ni'n eu hystyried yn briodol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus. Rydym hefyd yn gosod mesurau i asesu perfformiad ehangach y BBC. Ar hyn o bryd, mae'r Drwydded Weithredu a'n mesurau perfformiad yn canolbwyntio ar wasanaethau darlledu teledu a radio'r BBC. Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol diweddar ar y BBC, yn y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn ystyried sut mae datblygu'r Drwydded fel ei bod yn adlewyrchu'n well sut mae'r BBC yn newid i ddarparu ar-lein a diogelu buddiannau cynulleidfaoedd ar yr un pryd. Bydd unrhyw newidiadau y byddwn yn eu cynnig i'r Drwydded Weithredu yn seiliedig ar ein hargymhellion terfynol i'r Llywodraeth


[137] Gweler Atodiad 8: Fframwaith rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus i gael trosolwg o brosesau rheoleiddio'r BBC a Chorfforaeth Channel 4.

o ganlyniad i'r adolygiad hwn a byddant hwythau'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ar wahân.[138]

5.38 Mae'r Senedd Brydeinig wedi rhoi amryw o ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer Corfforaeth Channel 4, y mae'n rhaid iddi ei chyflawni ar draws pob un o'i gwasanaethau, gan gynnwys ar-lein ac ar-alw.[139] Mae darlledwr yn llunio datganiad blynyddol, sy'n egluro sut roedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn flaenorol, a sut mae'n bwriadu gwneud hynny yn y flwyddyn i ddod. Wrth baratoi'r datganiad, rhaid i Channel 4 ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Ofcom ac ymgynghori â ni. O ystyried newidiadau yn y farchnad, byddwn yn ystyried sut gallem barhau i ddatblygu ein dull rheoleiddio er mwyn i hyn roi mwy o sylw i berfformiad Channel 4 o ran cyrraedd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd ar sawl llwyfan.

5.39 Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ddyfodol y llwyfan teledu daearol digidol ac adnewyddu trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Bydd gwylio ar-lein yn parhau i ddod yn fwyfwy poblogaidd ond mae teledu daearol digidol yn dal i fod yn wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi yn y rhan fwyaf o gartrefi yn y DU. Rydym yn darparu cyngor technegol i'r Llywodraeth ar ei chynlluniau ar gyfer dyfodol amlblecsau gan y bydd dwy o'r trwyddedau amlblecs cenedlaethol yn dod i ben ddiwedd 2022, gan gynnwys un sy'n cynnal sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn hefyd yn dechrau ein gwaith ar adnewyddu trwyddedau Sianeli 3, 4 a 5 dros y flwyddyn nesaf. Rydym wedi crynhoi isod sut mae rhai o'r digwyddiadau allweddol hyn yn cydblethu dros y degawd nesaf.

**Ffigur 10: Cerrig milltir rheoleiddio sydd ar y gweill a cherrig milltir y Llywodraeth sy'n ymwneud â'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus**




[138] Ofcom, 2020. Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC 2019/20 t. 15.
[139] Gweler Atodiad: Fframwaith rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, A8.12

## Adolygu'r berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu

*5.40* Rydym yn cydnabod rôl werthfawr a chynyddol amrywiaeth eang o wasanaethau cyfryngau o ran darparu cynnwys gwreiddiol i gynulleidfaoedd yn y DU a buddsoddi yn ein heconomi greadigol. Fel y gwnaethom ei grynhoi yn adran 2, mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys darlledwyr masnachol eraill, gwasanaethau llwyfan teledu, gwneuthurwyr a chwmnïau technoleg, diwydiant cynhyrchu amrywiol a marchnad hysbysebu ddigidol a darlledu sy'n ffynnu. Wrth argymell fframwaith rheoleiddio newydd, rydym yn ymwybodol bod yn rhaid i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fodoli gyda'i gilydd, a chyn belled ag y bo modd, bod yn gatalydd cadarnhaol yn y farchnad ehangach hon.

5.41 Y tro diwethaf i ni gynnal adolygiad o ddiwydiant cynhyrchu'r DU oedd yn 2015. Ar y pryd, fe wnaethom ganfod bod y diwydiant yn parhau i fod yn fywiog ac yn amrywiol a bod gwaith rheoleiddio'r sector yn parhau i fodloni'r amcanion a bennwyd gan y Senedd Brydeinig.

5.42 Fel y nodwyd gennym yn adran 3, dros y pum mlynedd diwethaf, mae cynhyrchu wedi parhau i dyfu yn y DU, ac mae comisiynu'n dod o amrywiaeth o ffynonellau erbyn hyn. Mae cynhyrchwyr yn y DU yn manteisio ar hawliau eiddo deallusol dramor ar gyfer y sioeau mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu comisiynu ganddynt, gan helpu'r cynhyrchwyr hyn i dyfu o ran graddfa, ac mae chwaraewyr byd-eang fel darlledwyr rhyngwladol a SVoDs yn barod i dalu symiau sylweddol am gynnwys premiwm yn y DU. Yn wahanol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, nid oes rhwymedigaeth ar y cwmnïau byd-eang hyn i ddiogelu hawliau eiddo deallusol gweddilliol cynhyrchwyr a gomisiynir. Fel arfer maent yn ceisio cael cytundebau byd-eang ar gyfer pob hawl bob amser.

5.43 Oherwydd y newidiadau hyn yn y farchnad, yn y flwyddyn newydd byddwn yn adolygu effeithiolrwydd rheolau presennol y sector cynhyrchu, gan gynnwys y cwota cynhyrchu annibynnol[140] a'r trefniadau sy'n ffurfio'r telerau masnachu rhwng cynhyrchwyr annibynnol a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[141] Byddwn yn ystyried beth fyddai goblygiadau newidiadau posibl i'r rheolau hyn i gynulleidfaoedd, i gynaliadwyedd ariannol cynhyrchwyr a chomisiynwyr ac i ddynamiaeth ac apêl y sector cynhyrchu yn y DU.

## Materion polisi ehangach y sector ac adolygiad rheoleiddio

5.44 Y tu hwnt i fframwaith rheoleiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae gan Ofcom rôl yn y gwaith o drafod a datblygu materion rheoleiddio eraill sy'n berthnasol i'r drafodaeth ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus hefyd.

5.45 Y llynedd, cynhaliodd y Fonesig Frances Cairncross adolygiad ar gyfer y Llywodraeth ar ddyfodol cynaliadwy i newyddiaduraeth yn y DU. Roedd yr adolygiad yn cynnwys archwilio rôl ac effaith peiriannau chwilio digidol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a rôl

---

[140] Gweler Atodiad: Fframwaith rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, A8.22

[141] O dan y Ddeddf Cyfathrebiadau, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod darparwr pob sianel Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus drwyddedig yn llunio cod ymarfer sy'n nodi'r egwyddorion y bydd yn eu defnyddio wrth gytuno ar delerau ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol, ac y bydd yn ei ddiwygio o bryd i'w gilydd. Fel arfer, bydd Telerau Masnach â chynhyrchwyr annibynnol yn cael eu trafod o fewn y fframwaith a nodir yn y codau hyn. Gweler Atodiad: Fframwaith rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, A8.26-A8.29.

hysbysebu digidol.[142] Hefyd, cynhaliodd panel o arbenigwyr, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Jason Furman, adolygiad o gystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol, a chafwyd adroddiad y llynedd.[143] Ym mis Mawrth 2020, comisiynodd y Llywodraeth Dasglu Marchnadoedd Digidol – dan arweiniad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ac yn cynnwys cyfraniad gan Ofcom – i ystyried sut mae rhoi argymhellion adolygiad Furman ar waith a rhoi cyngor i'r Llywodraeth erbyn diwedd y flwyddyn.[144]

5.46 Mae'r CMA wedi cynnal astudiaeth farchnad am lwyfannau ar-lein a hysbysebion digidol hefyd.[145] Roedd ei adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, yn nodi nifer o bryderon yn y farchnad hysbysebu ddigidol, gan gynnwys y gallai cystadleuaeth wan gael effaith negyddol ar ansawdd newyddiaduraeth, a oedd yn gyson â chanfyddiadau adolygiad Cairncross. Yn ei ymateb diweddar i adroddiad CMA, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yn sefydlu Uned Marchnadoedd Digidol i oruchwylio trefn sydd o blaid cystadleuaeth ar gyfer llwyfannau digidol.[146] Yn y cyfamser, mae'r Llywodraeth hefyd wedi bod yn ymgynghori ar gynigion i gyflwyno trefn reoleiddio newydd i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol ar-lein.[147]

5.47 Mae gennym nifer o ddyletswyddau sy'n berthnasol i'r trafodaethau hyn, gan gynnwys hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau, adolygu gweithrediad rheolau perchnogaeth cyfryngau, ac yn ein rôl fel rheoleiddiwr cystadleuaeth yn y sector cyfathrebiadau. Eleni, mae Ofcom wedi ymgymryd â rôl newydd hefyd, yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos yn y DU ac mae'r Llywodraeth yn bwriadu ein penodi ni'n rheoleiddiwr newydd ar gyfer niwed ar-lein.[148]

5.48 Gallai newidiadau yn yr amgylchedd rheoleiddio ehangach gael effaith ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac ar y fframwaith ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Er enghraifft, fel rhan o'i gyngor i'r Llywodraeth, mae tasglu'r CMA yn ystyried argymhellion Adolygiad Cairncross, gan gynnwys codau ymddygiad newydd i ailgydbwyso'r berthynas rhwng llwyfannau a chyhoeddwyr. Rydym yn nodi datblygiadau rhyngwladol perthnasol yn y maes hwn. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddiad Llywodraeth Awstralia am god gorfodol, sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghydbwysedd pŵer bargeinio rhwng busnesau cyfryngau newyddion Awstralia a Google a Facebook. Byddai'r cod yn mynnu bod darparwyr newyddion yn cael 'taliadau priodol', gan gynnwys drwy rannu refeniw hysbysebu. Byddwn yn parhau i gynnwys y trafodaethau hyn a'r argymhellion diweddaraf wrth ystyried cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac wrth ystyried ein rhaglen waith ehangach.

---

[142] Y Fonesig Frances Cairncross, Chwefror 2019. The Cairncross Review: a sustainable future for journalism',
[143] Y Panel Arbenigwyr Cystadleuaeth Ddigidol, Mawrth 2019. Unlocking digital competition, Report of the Digital Competition Expert Panel
[144] Llywodraeth y DU, 11 Mawrth 2020, Tasglu Marchnadoedd Digidol: cylch gorchwyl
[145] CMA, 1 Gorffennaf 2020. Online platforms and digital advertising Market study final report
[146] Llywodraeth y DU, 27 Tachwedd 2020. New competition regime for tech giants to give consumers more choice and control over their data, and ensure businesses are fairly treated
[147] Llywodraeth y DU, 12 Tachwedd 2020. Online Harms White Paper - Initial consultation response
[148] Llywodraeth y DU, 12 Tachwedd 2020. Government minded to appoint Ofcom as online harms regulator

# 6. Sicrhau cynaliadwyedd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y dyfodol

**Crynodeb;**

- Mae cyfleoedd eraill i gynnal y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, gan gynnwys drwy fwy o gydweithio a chynaliadwyedd ariannol.
- Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol yn cael eu cefnogi gan wahanol fodelau cyllido sy'n wynebu heriau yn y tymor hir. Mae enghreifftiau rhyngwladol a allai helpu i fynd i'r afael â'r heriau hynny.
- Gallai partneriaethau strategol rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chwmnïau eraill helpu i gefnogi cynaliadwyedd tymor hir yn y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Gellid cryfhau neu ymestyn y cydweithio presennol o ran dosbarthu, rhannu gwybodaeth a chynnwys.

## Cyflwyniad

6.1 Fel y nodir ym adran 5, mae diwygiadau i'r fframwaith rheoleiddio yn rhan bwysig o sicrhau ei fod yn fasnachol hyfyw i bob un o'r sefydliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol barhau i chwarae rhan yn y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Bydd diwygiadau'n arbennig o bwysig i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, sy'n gweithredu heb gyllid cyhoeddus.

6.2 Fodd bynnag, y tu hwnt i'r diwygiadau hyn, mae cwestiynau ehangach hefyd am y modelau busnes a fydd yn gweithio yn y dyfodol, mewn amgylchedd cyfryngau sy'n dod yn fwyfwy byd-eang a chystadleuol.

### Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol yn cael eu hariannu mewn sawl ffordd wahanol

6.3 O fewn y system bresennol, mae'r BBC ac S4C yn cael eu hariannu'n bennaf gan arian cyhoeddus a gesglir drwy ffi'r drwydded, er eu bod hefyd yn cael rhywfaint o refeniw drwy ffynonellau masnachol.[149] Mae Channel 4, ITV, Channel 5 ac STV i gyd yn cael eu hariannu gan refeniw masnachol. Mae ITV, Channel 5 ac STV yn gwmnïau cwbl fasnachol, tra bo Channel 4 yn eiddo i'r cyhoedd a dim-er-elw.

6.4 Ar gyfer pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, refeniw hysbysebion teledu a ddarlledir yw'r ffynhonnell gyllid fwyaf. Hefyd, bu arallgyfeirio i ffrydiau refeniw mwy diweddar. Mae ITV (ochr yn ochr â Channel 5, STV a'r BBC) wedi ehangu i gynhyrchu'n fewnol (a'r hawliau eiddo deallusol cysylltiedig) fel ffrwd refeniw. ITV Studios yw'r

[149] Mae'r BBC yn cael ~92% o'i refeniw o ffi'r drwydded. Daw tua 90% o gyllid S4C o ffi'r drwydded deledu (ac eithrio cymorth grant ychwanegol). Cyfrifiadau Ofcom ar sail data incwm o: S4C (2020), 'Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y cyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2020', t.129 a 155, a'r BBC (2020), 'Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2019/20', t.175.

cynhyrchydd masnachol mwyaf yn y DU erbyn hyn ac roedd yn cyfrif am 47% o refeniw ITV yn 2019.[150] Ochr yn ochr â chynhyrchu, mae incwm hawliau o drwyddedu, a dosbarthu rhaglenni a fformatau wedi helpu i arallgyfeirio refeniw ymhellach. Mae ITV a Channel 4 hefyd wedi cyflwyno gwasanaethau tanysgrifio i'w portffolios, er bod y rhain yn fach ar hyn o bryd.[151]

6.5 Mae incwm y BBC hefyd yn cael ei arallgyfeirio y tu hwnt i ffi'r drwydded. Nod gweithgareddau masnachol Grŵp y BBC yw cynhyrchu elw sy'n cael ei ddosbarthu'n ôl i ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Rhwng 2010/11 a 2019/20, y difidend cyfartalog a dalwyd gan BBC Commercial Holdings i wasanaethau cyhoeddus y BBC oedd £66 miliwn[152] (mewn prisiau 2010/11)[153].

6.6 Mae gweithrediadau masnachol a gwasanaethau nad ydynt yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n cyd-fynd â'u rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn eu galluogi nid yn unig i feithrin gwytnwch ariannol drwy arallgyfeirio eu portffolios, ond mae hefyd yn rhoi mwy o raddfa iddyn nhw sy'n cryfhau eu gallu i gystadlu yn y farchnad.

6.7 Fel y trafodwyd yn adran 4, rydym yn nodi bod dulliau gweithredu strategol yn dal i ddatblygu ar draws y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a bod arallgyfeirio refeniw yn broses barhaus. Mae Channel 4 wedi cyhoeddi targedau newydd yn ddiweddar i sicrhau 30% o'i refeniw o hysbysebion digidol, a 10% o weithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â hysbysebu erbyn 2025.[154] Mae Tim Davie wedi cadarnhau mai adeiladu ar incwm masnachol yw un o feysydd ffocws blaenoriaeth y BBC.[155]

## Mae tueddiadau'r sector yn golygu y gallai'r modelau hyn wynebu mwy a mwy o heriau yn y dyfodol

6.8 Mae arallgyfeirio refeniw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cefnogi eu gwytnwch ariannol hyd yma. Fodd bynnag, mae pob un o'r modelau yn wynebu heriau i'r dyfodol.

6.9 Ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, mae refeniw hysbysebu yn agored i effeithiau cylchoedd economaidd a siociau tymor byr. Er enghraifft, ym mis Ebrill-Mai 2020, gostyngodd refeniw hysbysebu llinol Channel 4 bron i 50% o un flwyddyn i'r llall o ganlyniad i effaith Covid-19[156] ac adroddodd ITV ostyngiad o 42% yn ei refeniw hysbysebu ar gyfer mis Ebrill 2020.[157]

---

[150] Cyfrifiadau Ofcom yn seiliedig ar ITV (2020), Adroddiad Blynyddol 2019 ITV, t. 168. Gan ystyried refeniw allanol yn unig, mae'r gyfran hon yn disgyn i 38%.
[151] Mae refeniw o danysgrifiadau yn cyfrif am lai na 2.5% ar gyfer ITV. Mae'r ffigur yn cynnwys yr holl refeniw uniongyrchol i'r defnyddwyr: gwerthiannau rhyngweithiol o gystadlaethau, ITV Hub+, Britbox UK, gemau, digwyddiadau byw a nwyddau, ITV (2020), Adroddiad Blynyddol 2019 ITV, t. 168 a t. 170
[152] Yn 2019/20, roedd difidend Grŵp Masnachol y BBC o £3 miliwn (nominal) yn sylweddol is oherwydd Covid-19 (2018/19: £73 miliwn - nominal). Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2019/20
[153] Dangosir y niferoedd mewn termau real 2010/11 gan ddefnyddio Mynegai Prisiau Defnyddwyr cyfartalog y flwyddyn ariannol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).
[154] Channel 4, 26 Tachwedd 2020. Datganiad i'r wasg.
[155] BBC, 3 Medi 2020. Araith ragarweiniol Tim Davie fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, 3 Medi 2020
[156] Channel 4, 2020. Adroddiad a Datganiadau Ariannol Corfforaeth Channel 4 Television 2019
[157] ITV, 2020. ITV plc – diweddariad masnachu Ch1 – 3 mis hyd at 31 Mawrth 2020, t 1

6.10 Yn fwy cyffredinol, wrth i lefelau gwylio darllediad llinol leihau, felly hefyd refeniw hysbysebu llinol. Mae refeniw hysbysebu teledu byw wedi bod yn gostwng er 2015; tuedd sy'n debygol o barhau wrth i lefelau gwylio teledu a ddarlledir barhau i ostwng ymhellach. Rhwng 2015 a 2019, gwelodd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ostyngiad cyfunol mewn termau real o 16% (£510m) mewn refeniw hysbysebu llinol ar draws eu sianeli yn y DU (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn darlledu gwasanaeth cyhoeddus).[158]

6.11 I'r BBC, mae ffi'r drwydded yn rhoi mwy o sefydlogrwydd, er bod Covid-19 yn debygol o leihau refeniw o weithgareddau masnachol yn y tymor byr. Mae BBC Commercial Holdings yn disgwyl y bydd Covid-19 yn effeithio'n sylweddol ar allu'r Grŵp i sicrhau refeniw yn 2020/21.[159]

6.12 Yn fwy cyffredinol, mae cyllid cyhoeddus ar gyfer y tymor hwy o dan bwysau hefyd. Defnyddiwyd ffi'r drwydded i ariannu mwy o weithgareddau, gan gynnwys y World Service (a oedd yn arfer cael ei ariannu gan y Swyddfa Dramor), S4C, teledu lleol a ffioedd trwyddedu ar gyfer pobl dros 75 oed.[160] Mae rhaid iddo hefyd ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu mwy a mwy o anghenion gwahanol grwpiau penodol o gynulleidfaoedd.

## Mae ymchwil ac enghreifftiau rhyngwladol yn awgrymu y gallai amrywiaeth o ddulliau helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn

6.13 Nid yw ein Hadolygiad yn ceisio ateb cwestiynau ynglŷn â chyllido'r BBC yn y dyfodol: mater i'r Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig ydy hwn fel rhan o'r Adolygiad Siarter nesaf.

6.14 Fodd bynnag, rydym wedi comisiynu ymchwil ac wedi ystyried enghreifftiau rhyngwladol ein hunain er mwyn helpu i gyfrannu at y drafodaeth ynghylch sut gallai modelau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus masnachol ac sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus ddatblygu yn y dyfodol. Mae adroddiad gan Mediatique[161] yn ystyried modelau ar gyfer darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, ac mae adroddiad gan EY yn ystyried safbwyntiau rhyngwladol ar system darlledu gwasanaeth cyhoeddus bresennol y DU.[162]

6.15 Yn y DU, mae cwmnïau masnachol yn gweithredu fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus heb gyllid cyhoeddus, ond o'i gymharu â modelau rhyngwladol, mae hyn yn anarferol. Wrth gymharu modelau rhyngwladol, mae adroddiad EY yn nodi: *"Ystyrir bod y DU yn anarferol drwy'r ffaith ei fod yn cefnogi tri model cyllido gwahanol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus (ffi'r drwydded, dim-er-elw masnachol a chwbl fasnachol) o fewn yr*

---

[158] Ofcom/darlledwyr. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys refeniw hysbysebu BVoD
[159] BBC Commercial Holdings Limited (2020), 'Adroddiadau Blynyddol a Datganiadau Ariannol Cyfunol'
[160] Mae'r BBC World Service wedi bod yn cael ei gyllido gan ffi'r drwydded er 2014, ac mae'r BBC wedi cyllidebu i wario £310m yn ei gyllido yn 2020/21, gyda'r llywodraeth yn parhau i ddarparu cyllid ychwanegol. Er 2013, daw 90% o incwm S4C o ffi'r drwydded mewn cytundeb, gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill (8%) yn dod o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y DU. O 2022 bydd holl incwm S4C yn dod o ffi'r drwydded. Mae'r BBC wedi cyllidebu ar gyfer £22m i gyllido S4C yn 2020/21. Ymrwymodd y BBC i ddarparu hyd at £25m ar gyfer y flwyddyn 2013/14 i gyllido'r gwaith o sefydlu hyd at 20 o wasanaethau teledu lleol. Cafodd cyllid y Llywodraeth ar gyfer trwyddedau teledu rhad ac am ddim i bobl dros 75 oed ei ddirwyn i ben ym mis Mehefin 2020; roedd y BBC yn cyllido trwyddedau am ddim i bawb dros 75 oed tan fis Awst, ac wedyn cafodd y consesiwn ei leihau i ddim ond cynnwys pobl dros 75 oed sy'n cael credyd pensiwn am gost flynyddol a amcangyfrifir gan y BBC i fod yn £250 miliwn.
[161] Adroddiad Mediatique ar gyfer Ofcom, 2020. Modelau ar gyfer darparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus
[162] Adroddiad EY ar gyfer Ofcom, Hydref 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

*un farchnad”* [163]*, ac o fewn hyn “Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi’u hariannu'n gwbl fasnachol, fel ITV a Channel 4, yn gymharol anarferol; mae’r rhan fwyaf o fodelau cyllido masnachol yn rhai hybrid ac yn cynnwys elfen o gyllid cyhoeddus hefyd”.*[164]

6.16 Mae hyn yn egluro’n rhannol pam mae system y DU yn cynnig gwerth da am arian, o’i chymharu â modelau rhyngwladol. Mae cyfanswm y cyllid cyhoeddus drwy ffi’r drwydded y BBC yn cyfateb i £56 y pen, ond mae adroddiad EY yn nodi:[165]

> “Er bod y DU yn sefyll fwy neu lai yng nghanol y gwledydd a gafodd eu hystyried yn ein dadansoddiad o ran cyllid cyhoeddus ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y pen o’r boblogaeth, mae cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU yn cael ei gydnabod yn fyd-eang am fod ymysg y gorau yn y byd o ran ansawdd.” **EY**

6.17 Wrth fynd i’r afael â'r heriau mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar draws y gwahanol wledydd yn eu hwynebu, nododd EY *“nid oes ‘un dull sy'n addas i bawb’ o ran cyllid”:*

> “Bydd y dull cyllido mwyaf priodol yn amrywio o un wlad i’r llall yn dibynnu ar ffactorau diwylliannol, hanesyddol a masnachol, ac felly mae angen dull pwrpasol i ddylunio cyllid ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ym mhob gwlad.” **EY**

6.18 Mae rhai o’r dewisiadau masnachol a gafodd eu hystyried gan Mediatique eisoes wedi’u mabwysiadu gan rai o’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – megis arallgyfeirio i gynhyrchu a chanolbwyntio mwy ar hysbysebu digidol (gweler adran 4). Efallai y bydd opsiynau eraill yn cael eu hystyried yn y tymor agos – er enghraifft, fel rhan o’n hadolygiad presennol o reolau’r sector cynhyrchu a drafodir yn adran 5, byddwn yn ystyried a yw’r rheolau presennol ar hawliau eiddo deallusol ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn briodol, gan nodi’r angen i ystyried y cydbwysedd rhwng y manteision i sefydliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn erbyn yr effaith ar y sector cynhyrchu.

6.19 Roedd rhanddeiliaid yn y DU ac yn rhyngwladol yn gadarnhaol ynghylch rhai o nodweddion agwedd bresennol y DU at gyllid cyhoeddus:[166]

---

[163] Adroddiad EY ar gyfer Ofcom, Hydref 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t 16
[164] Adroddiad EY ar gyfer Ofcom, Hydref 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t 1
[165] Adroddiad EY ar gyfer Ofcom, Hydref 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t 1
[166] Adroddiad EY ar gyfer Ofcom, Hydref 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t 17

"Mantais fawr ffi'r drwydded i'r BBC, er bod trafodaethau'n anodd, yw bod y BBC yn cael sicrwydd am 10 mlynedd sy'n ei alluogi i wneud pethau na fyddai darlledwr gwasanaeth cyhoeddus arall – na busnes o'r maint hwnnw – yn gallu ei wneud" **Uwch arweinydd darlledu, cwmni cyfryngau rhyngwladol**

"Mae cyllid ffi'r drwydded yn galluogi'r BBC i wneud penderfyniadau sy'n anoddach i'w gwneud os ydych chi'n sefydliad masnachol yn unig – buddsoddi mewn mathau o gynnwys nad ydynt yn fasnachol werthfawr, buddsoddi mewn talent newydd ar y sgrin ac oddi ar y sgrin" **Cyfarwyddwr Masnachol, cwmni cyfryngau rhyngwladol**

## Profiad rhyngwladol o fodelau cyllid cyhoeddus

6.20 Pan ddarperir cyllid cyhoeddus, mae'r Undeb Darlledu Ewropeaidd[167] wedi darparu canllawiau yn flaenorol ar y nodweddion sy'n bwysig:[168]

a) **Sefydlog a digonol**: Ffynhonnell gyllid sefydlog a rhagweladwy sy'n galluogi cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus yn llawn yn oes y cyfryngau digidol

b) **Yn annibynnol ar ymyrraeth wleidyddol**: Ddim yn ddibynnol ar ffafriaeth wleidyddol, ac felly'n hyrwyddo ymddiriedaeth gyhoeddus mewn cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'i rôl fel gwasanaeth sy'n wirioneddol hanfodol

c) **Teg a chyfiawnadwy**: Yn deg ac yn gallu cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol i'r cyhoedd a'r farchnad (ee mae gwylwyr yn ystyried ei fod yn deg ac yn cyd-fynd â'u byd, yn hytrach nag yn ymddangos fel petai'n gysylltiedig â thechnoleg ac ymarfer y gorffennol.)

d) **Tryloyw ac atebol**: Mecanwaith cyllido agored a chlir sy'n dal cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn atebol i'w cynulleidfa

6.21 **Mae nifer o wledydd yn wynebu'r un heriau a chwestiynau am** gyllid cyhoeddus ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus fel yn y DU. Mewn rhai gwledydd, defnyddir ffrydiau refeniw eraill i gefnogi cyllid cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Defnyddir ardollau'r diwydiant ar gwmnïau telegyfathrebiadau yn Ffrainc a Sbaen. Yn yr Almaen a Ffrainc, cyflwynwyd ardollau ar wasanaethau ffrydio ar y sail bod gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoDs) yn dod yn rhan fwyfwy pwysig o systemau darlledu cenedlaethol, ond nad oes yn rhaid iddyn nhw gefnogi amcanion darlledu ehangach o fewn y systemau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus perthnasol.

6.22 Mewn achosion eraill, mae'r mecanweithiau cyllido cyhoeddus eu hunain wedi cael eu diweddaru mewn ymateb i'r heriau a wynebir. Yn yr Eidal, mae ffi'r drwydded wedi'i chasglu ochr yn ochr â biliau trydan er 2016 – newid sydd wedi gweld cyfraddau osgoi yn gostwng o 30% i 6%[169], ac o ganlyniad bu modd gostwng ffi'r drwydded[170].

---

[167] Cynghrair o sefydliadau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yw'r Undeb Darlledu Ewropeaidd (EBU), a sefydlwyd yn 1950
[168] EBU, 2017. Egwyddorion cyllido cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y gyfraith ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, t 3
[169] Advanced Television, 30 January 2018. RAI licence fee boosts Italian TV sector revenues
[170] Italian Solicitor, 5 Mai 2016. Italian supreme court approves adding TV licence to household electricity bills,

6.23 Yn y cyfamser, yn yr Almaen, Sweden, Denmarc a'r Ffindir mae ffioedd trwyddedu sy'n seiliedig ar berchnogaeth teledu wedi'u disodli gan amrywiadau ar ddull seiliedig ar dreth[171].

> "Ystyriwyd bod cyllido darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy drethiant yn fwy blaengar ac addas ar gyfer y dyfodol petai cyllid yn cael ei gytuno ar gyfer cyfnod tymor hir ac yn cael ei neilltuo ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, daw cyllid y llywodraeth â risg o ymyrraeth wleidyddol ac y bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn colli annibyniaeth. Mae angen rhoi mesurau cadarn ar waith i ddiogelu annibyniaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac atal y cyllid rhag cael ei ddylanwadu gan ystyriaethau gwleidyddol tymor byr bob blwyddyn neu pan fydd yn cael ei adnewyddu." **EY**
>
> "Mae popeth yn dibynnu ar y strwythur llywodraethu. Mae newidiadau i'r ffordd y cyllidir darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y Ffindir a Denmarc yn addawol –maen nhw'n dal gafael ar annibyniaeth a chylch gwaith y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus." **Rasmus Nielsen, Cyfarwyddwr Sefydliad Reuters ar gyfer Astudiaethau Newyddiaduraeth**

## Modelau tanysgrifio

6.24 Mae rôl tanysgrifio ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi'i chodi hefyd, er nad oes unrhyw enghreifftiau yn rhyngwladol sy'n defnyddio model tanysgrifio ar hyn o bryd i gyllido sefydliadau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

6.25 Ar gyfer y rhan fwyaf o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, mae tanysgrifio eisoes yn rhan gyfyngedig o'u model busnes er mwyn ategu incwm. Mae'r BBC ac ITV wedi ffurfio partneriaeth i ddatblygu Britbox, tra bo ITV Hub+ yn wasanaeth tanysgrifio sy'n caniatáu i gynulleidfaoedd hepgor hysbysebion, ac mae Channel 4 wedi cyflwyno gwasanaeth tanysgrifio cyfatebol drwy All4 +.

6.26 Yn y dyfodol, byddai angen cydbwyso unrhyw gam tuag at ddefnyddio mwy ar danysgrifiadau ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol â'r angen i gynnal egwyddor sylfaenol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sef cyffredinolrwydd. Gallai fod opsiynau ar gyfer modelau hybrid newydd sy'n ymwneud â thanysgrifio yn y dyfodol, ond mae'r dulliau hyn yn codi cwestiynau ynghylch beth ddylai fod ar gael yn gyffredinol. Petai llawer neu'r cyfan o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu darparu y tu ôl i wal dalu byddai'n anodd ei gysoni â'i nod craidd i ddarparu gwasanaethau i bawb sy'n dod â'r genedl at ei gilydd.

6.27 Hefyd, mae ystyriaethau ymarferol ynghylch rôl tanysgrifio i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae dadansoddiad gan Mediatique yn amcangyfrif, o dan ei senario sefyllfa orau fwyaf credadwy ar gyfer cyflwyno tanysgrifiad i'r BBC, lle byddai 75% o gartrefi'n manteisio ar danysgrifiad misol o £10, y byddai £2.07bn yn cael ei godi – diffyg o £1.62bn

---

[171] Adroddiad EY ar gyfer Ofcom, Hydref 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t 5-6

yn erbyn refeniw ffi'r drwydded a godwyd yn 2019[172]. Ar ben hynny, mae heriau technegol a gweithredol yn golygu nad oes modd cynnig model tanysgrifio yn y tymor byr dros lwyfan Freeview.

6.28 Fel y nodir uchod, mater i'r Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig yw ffi'r drwydded y BBC. Mae ein hymchwil, ynghyd ag adroddiadau gan Mediatique ac EY, wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol am fodelau cyllido mewn gwledydd eraill.

**Cwestiwn 5 yr Ymgynghoriad: Beth yw'r opsiynau ar gyfer cyllido cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, ac a oes gwersi y gallwn ni eu dysgu o ddulliau gweithredu gwledydd eraill?**

## Gall partneriaethau strategol sicrhau cynaliadwyedd y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ymhellach

6.29 Fel y trafodwyd yn adran 4, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn addasu eu strategaethau i gystadlu â'r heriau cynyddol sy'n gysylltiedig â rhannu cynulleidfaoedd a mwy o gystadleuaeth gan gystadleuwyr byd-eang. Ond mae graddfa fyd-eang y SVODs a'r llwyfannau yn codi cwestiynau ynghylch a fydd angen cydweithio drwy bartneriaethau strategol ymysg darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a sefydliadau eraill er mwyn iddyn nhw barhau i fod yn gynaliadwy.

6.30 Byddai'n bwysig i unrhyw asesiad cystadleuaeth o bartneriaethau newydd ystyried deinameg newidiol y farchnad ynghyd â chystadleuaeth fyd-eang.

### Gallai cydweithio helpu i gynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau

6.31 Mae twf chwaraewyr byd-eang mawr gydag adnoddau technolegol sylweddol wedi'i gwneud hi'n anoddach i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gadw ar y blaen ym maes ymchwil a datblygu. Gall cronni adnoddau a buddsoddiad yn y maes hwn fod yn un ffordd o arbed costau, cael gwared ar ddyblygu a chynhyrchu gwasanaethau mwy arloesol i gynulleidfaoedd.

6.32 Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn casglu ac yn rhannu data cynulleidfaoedd ar y cyd drwy'r gwasanaeth mesur cynulleidfaoedd BARB. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn casglu data am gynulleidfaoedd o'u chwaraewyr ar-alw a drwy bartneriaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol, fel Freeview, Freesat ac Youview. Gallai rhannu'r cyfoeth hwn o ddata gynnig gwell dealltwriaeth o ymddygiad gwylwyr a rhoi cyfleoedd i rannu ymchwil i'r farchnad er mwyn cyfrannu at gynhyrchu cynnwys, chwilio algorithmau a hysbysebion mwy personol. Awgrymodd Enders Analysisy gallai fod manteision sylweddol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus pe baent yn rhannu eu data am eu gwylwyr ac, ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, eu

[172] Cyfrifiadau Ofcom: ar sail incwm ffi'r drwydded y BBC ar gyfer 2018/19, a refeniw tanysgrifio posibl o £2.07 biliwn (ar sail ffi tanysgrifio o £10/y mis a threiddiad cartrefi o 75%) fel sydd wedi'i gynnwys yn Mediatique dros Ofcom, 2020. Modelau ar gyfer darparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol, ffigurau 34 a 36.

cwsmeriaid hysbysebu.[173] Gallai rhannu gwybodaeth am sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn llwyddo i gyrraedd cynulleidfaoedd drwy lwyfannau llai traddodiadol, fel cyfryngau cymdeithasol, a'r hyn a weithiodd ac na weithiodd yn y mannau hynny helpu i gyfuno gwybodaeth a chyrraedd cynulleidfaoedd iau yn benodol.

### Gallai cysylltiadau strategol helpu'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i gysylltu'n well â chynulleidfaoedd penodol

6.33 Er bod sawl enghraifft lle mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi sefydlu partneriaeth yn barod, fel Britbox,[174] chwaraewr tanysgrifio ar-alw ar y cyd ar gyfer cynnwys archif, a'r gwasanaeth teledu digidol Freeview, mae ein hymchwil wedi darganfod bod gwylwyr yn dal yn ei chael hi'n anodd llywio drwy sawl llwyfan gwahanol i ddod o hyd i gynnwys ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Maen nhw'n gwerthfawrogi gwasanaethau ar-lein fel Netflix, lle maen nhw'n dweud bod yr holl gynnwys o dan un to, gan gynnwys beth maen nhw'n ystyried ydy'r gorau o ran cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[175]

> "Byddwn i'n dweud bod Netflix yn gymharol hawdd ei ddefnyddio, mae'n syml, a gallwch chwilio'n hawdd. Rwy'n teimlo weithiau bod rhai o'r gwasanaethau dal i fyny yn reit anodd…Os nad ydych yn gwybod beth ydy enw rhywbeth, gallech fynd i'r genres ar Netflix, ond ar y gwasanaethau dal i fyny rydych chi'n chwilio am rywbeth nad ydych chi am ddod o hyd iddo." **Menyw, 22-24, Dundee**
>
> 'Ar ryw adeg, mae'n rhaid cwestiynu a oes angen pum gwasanaeth BVoD [fideo ar-alw darlledwyr] darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Ar ba bwynt ydych chi'n dod at eich gilydd ac yn creu brand uwch darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau BVoD i gystadlu yn erbyn y gwasanaethau ffrydio rhyngwladol? Gallai hyn danseilio gwahanol gylchoedd gwaith a phwrpasau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac mae hefyd yn cyflwyno heriau os nad ydy'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ategu ei gilydd. Fodd bynnag, mae'n gwestiwn allweddol – a fydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gydweithio er mwyn cystadlu yn y tymor hir?' – **Arbenigwr ar y cyfryngau, cwmni cyfryngau rhyngwladol**

6.34 Gallai cynulleidfaoedd elwa'n sylweddol pe bai cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu drwy wasanaeth cyfun, a'i ddosbarthu'n eang. Gellid cyflawni hyn drwy un gwasanaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus neu drwy bartneriaethau strategol â chwmnïau cydgasglu cynnwys eraill. Gallai cysylltiadau strategol o'r fath helpu i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cyrraedd pob cynulleidfa, ei bod yn hawdd dod o hyd iddynt ac y gellir cefnogi'r broses o ddarparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y farchnad fyd-eang.

[173] Enders Analysis, 30 Hydref 2018. PSB Solidarity and Collaboration,
[174] Mae BritBox yn wasanaeth masnachol.
[175] Adroddiad EY ar gyfer Ofcom, Hydref 2020. Safbwyntiau rhyngwladol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, t 11

### Mae'n bosibl y bydd manteision drwy gydweithio mwy i gynhyrchu cynnwys

6.35 Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eisoes wedi bod yn rhan o sawl cyd-gynhyrchiad llwyddiannus, o fewn y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chyda chwmnïau cwbl fasnachol. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu costau, yn enwedig mewn genres drud fel drama, a gallai hefyd ymestyn i wneud cynnig ar y cyd am gynnwys drud fel hawliau chwaraeon, fel y mae ITV a'r BBC yn ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer Rygbi'r Chwe Gwlad. Wrth i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rannu cynnwys â chwmnïau llai gallai hefyd gynnig manteision i gynulleidfaoedd a chefnogi sector cyfryngau sy'n ffynnu. Er enghraifft, yn ystod pandemig Covid-19 roedd y BBC yn rhannu ei gynnwys newyddion â gwasanaethau cyfryngau lleol a allai fod wedi cael anawsterau gyda'r effaith ar adeg pan oedd newyddion o werth cymdeithasol penodol.[176]

6.36 Gallai partneriaethau strategol a chyd-gomisiynu gyda phartneriaid newydd yn y sector cynhyrchu fod yn effeithiol o ran darparu genres sy'n tueddu i beidio â chael eu gwasanaethu'n ddigonol. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn y DU, bu'r Royal Shakespeare Company yn gweithio gyda'r BBC i gynhyrchu chwe drama o'i archif sydd ar gael ar BBC iPlayer.[177] Efallai y bydd cyfleoedd pellach ar gyfer partneriaethau strategol gyda sefydliadau masnachol. Ym mis Ionawr 2019, bu Channel 4 News yn gweithio gyda Facebook i gynhyrchu "Uncovered", sef sioe newyddion wythnosol a lansiwyd ar Facebook Watch.[178]

**Cwestiwn 6 yr Ymgynghoriad: Beth yw eich barn chi am y cyfleoedd i gydweithio rydyn ni wedi cyfeirio atyn nhw? A oes cyfleoedd neu rwystrau eraill nad ydym wedi'u nodi?**

[176] Ofcom, 2020. Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2019/20, t 9
[177] Royal Shakespeare Company, 2020. Chwe drama Shakespeare nawr ar gael ar BBC iPlayer
[178] Channel 4, 12 Tachwedd 2018. Channel 4 News i lansio sioe newyddion ar Facebook Watch

# 7. Cyfleoedd ar gyfer y tymor hwy

**Crynodeb;**

- Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn arloesi ac yn addasu eu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd.
- Ond mae perygl na fydd cynulleidfaoedd iau yn benodol, sy'n gwerthfawrogi gwahanol wasanaethau a mathau o gynnwys, yn ymgysylltu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
- Rydym wedi nodi rhai o'r dulliau newydd sy'n cael eu mabwysiadu i ddiwallu heriau tymor hwy ac i ystyried sut y gallai darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol ategu gwasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

## Mae cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gael ei werthfawrogi'n fawr iawn, ond mae ymgysylltiad cynulleidfaoedd â'r darlledwyr hynny yn lleihau

7.1 Mae dros draean (35%) o oedolion yn gallu gweld eu hunain yn peidio â gwylio'r prif sianeli teledu mwyach (BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5) yn ystod y tair blynedd nesaf, ac mae hynny'n codi i fwy na hanner (51%) ymysg pobl 16-34 oed.[179] Mae ymgysylltu â'r BBC wedi parhau i ddisgyn ar draws bron pob un o wasanaethau'r BBC, ac ar gyfradd gyflymach ymysg pobl ifanc, gyda chyrhaeddiad oedolion yn gostwng 5.2 pwynt canran rhwng 2018 a 2020, ac 8.5 pwynt canran ar gyfer pobl ifanc 15-24 oed.[180]

7.2 Yn 2019, gwnaethom ganfod nad yw un plentyn ym mhob pedwar yn gwylio teledu a ddarlledir yn fyw o gwbl.[181] Roedd cynulleidfaoedd 16-24 oed yn treulio 2 awr 15 munud y dydd ar gyfartaledd ar YouTube[182] a SVODs, o'i gymharu â 55 munud y dydd ar deledu byw. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y boblogaeth (pob unigolyn 4+ oed) o 2 awr 34 munud yn gwylio teledu byw, a dim ond 1 awr 11 munud ar YouTube a SVoDs.[183]

7.3 Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym hefyd eu bod yn treulio mwy a mwy o amser ar eu pennau eu hunain ar ddyfeisiau, yn chwarae gemau ac yn gwylio cynnwys ffurf-fer a chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr. Canfu ein hymchwil Y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion duedd tymor hir o rannu cynyddol a phersonoleiddio ymddygiad gwylio'r cyfranogwyr, gyda mwy yn gwylio ar ddyfeisiau symudol.[184]

---

[179] Arolwg Ymddygiad Cyfryngau Covid-19 Ofcom. Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng 17-18 Mehefin 2020. Oedolion 16 oed a hŷn ar-lein.
[180] Touchpoints 15+ a chynulleidfa 15-24 - cyrhaeddiad wythnosol holl wasanaethau'r BBC.
[181] Ofcom, 2019. Adroddiad ar agweddau a defnydd plant o'r cyfryngau, t.9
[182] Mae'r ffigurau ar gyfer YouTube yn cyfeirio at wylio nad yw ar set deledu – hy ar ddyfeisiau symudol, gliniaduron a thabledi.
[183] Mae Ofcom yn amcangyfrif cyfanswm yr holl wylio sain/fideo. Wedi ei fodelu o ddata BARB, Comscore a Touchpoints)
[184] Adroddiad yr Asiantaeth Wybodaeth dros Ofcom, Y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion, Ton 15: 2020, t. 16.

7.4 Bydd pobl iau heddiw yn tyfu i ffurfio cyfran fwy o gyfanswm cynulleidfa'r DU yfory. Ymhen 10 mlynedd bydd y bobl a aned ar ôl 1996 (y cynharaf y gallai rhywun yn y grŵp oedran 16-24 heddiw fod wedi cael eu geni) yn cynrychioli 41% o boblogaeth y DU.[185] Mae cynulleidfaoedd hŷn hefyd yn treulio llai o amser yn gwylio teledu byw a mwy o amser ar-lein. Yn 2019, treuliodd pobl dros 55 oed 2 awr a 39 munud ar-lein bob dydd;[186,] ac mae 44% o bobl dros 55 oed bellach yn berchen ar deledu sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd.[187] Roedd y rheini rhwng 55-64 oed yn gwylio bron i 37 munud (neu 12%) yn llai o deledu byw yn 2019 nag yn 2010.[188]

### Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau bod eu cynnwys ar gael ar eu chwaraewyr eu hunain yn bennaf

7.5 Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus frandiau cryf y gellir eu hadnabod ac sy'n taro tant gyda chynulleidfaoedd. Gan fod arferion cynulleidfaoedd yn newid, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn canolbwyntio fwyfwy ar sut mae cyrraedd eu cynulleidfaoedd ar-lein, yn ogystal â chadw eu cynulleidfaoedd teledu a ddarlledir.

7.6 Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu eu cynnwys ar-alw ar eu chwaraewyr wedi'u brandio eu hunain. Yn ogystal ag ar setiau teledu a dyfeisiau clyfar, maen nhw hefyd yn sicrhau ei fod (neu fersiwn ohono) ar gael ar lwyfannau eraill fel Sky a Virgin Media. Maen nhw wedi bod yn canolbwyntio ar gynnwys "ffurf hir" traddodiadol, sy'n arbennig o addas ar gyfer amserlenni teledu a ddarlledir a gwneud elw masnachol (ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gefnogir gan refeniw hysbysebu).

7.7 Mae'r strategaeth hon yn galluogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddewis y cynnwys maen nhw'n ei gynnig a phenderfynu sut mae'n cael ei gyflwyno a'i deilwra i gynulleidfaoedd. Mae'n golygu eu bod yn gallu traws-hyrwyddo cynnwys arall a chasglu data cyfoethog am y cynnwys mae cynulleidfaoedd yn ei wylio, sy'n bwysig ar gyfer penderfyniadau comisiynu a bodloni eu hamcanion a'u gofynion rheoleiddio. Hefyd, drwy wylio cynnwys ar chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae cynulleidfaoedd yn fwy tebygol o gysylltu'r cynnwys â brand y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r priodoli hwn yn bwysig i'r BBC, er enghraifft, gan fod cynulleidfaoedd yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael gwerth am arian o ffi'r drwydded os ydyn nhw'n adnabod rhaglenni'r BBC.

7.8 I lawer o gynulleidfaoedd, mae chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dod yn rhywle mae pobl yn mynd i wylio eu hoff raglenni. Er enghraifft, roedd dwy ddrama boblogaidd wedi helpu'r BBC i gyflawni ei gyfanswm misol uchaf erioed o 570 miliwn o geisiadau am raglenni yn ystod cyfnod clo COVID-19 ym mis Mai 2020 (72% yn uwch nag ym mis Mai 2019): roedd *Normal People* wedi cael 54 miliwn o geisiadau erbyn diwedd mis

---

[185] Amcangyfrifon Ofcom yn seiliedig ar ffigurau amcanestyniadau o'r boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, seiliedig ar 2018.
[186] Ffynhonnell: Comscore MMX Multi-Platform, Cyfanswm – Rhyngrwyd, Oedran: 18+, Tachwedd 2019, y DU.
[187] Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2020.
[188] BARB. Mae hyn yn cynnwys gwylio byw a dal-i-fyny/wedi'i recordio hyd at saith diwrnod ar ôl darlledu.

Mehefin, ac roedd trydydd tymor *Killing Eve* wedi cael 35 miliwn.[189] Er bod cynulleidfaoedd yn gallu dewis mynd at ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i wylio cynnwys penodol, mae cynulleidfaoedd iau yn benodol yn fwy tebygol o ddefnyddio Netflix neu Amazon Prime fel cyrchfannau i bori am gynnwys.[190] Mae Netflix yn cyrraedd llawer mwy o bobl ifanc nag iPlayer. Ar ddechrau 2020, roedd 66% o bobl ifanc rhwng 15-24 yn ei ddefnyddio bob wythnos, o gymharu â 28% yn defnyddio iPlayer.[191]

7.9 Mae strategaeth ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu ar gynulleidfaoedd yn dod at eu chwaraewyr ar adeg pan fydd dewis llawer ehangach o wasanaethau fideo ar-alw yn cyflwyno cynnwys i gynulleidfaoedd mewn gwahanol ffyrdd. Felly, bydd rhai grwpiau cynulleidfaoedd nad ydynt yn defnyddio'r chwaraewyr, er eu bod yn dal i edrych ar gynnwys a gomisiynwyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar wasanaethau eraill fel Netflix, sydd wedi prynu'r hawliau eilaidd i'r cynnwys hwn.

> "Do, mi gawson ni'r llythyr am y drwydded deledu ac mi ddywedais: does dim angen i ni gael un am nad ydyn ni'n gwylio teledu byw ac erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni ardderchog ar BBC iPlayer hefyd yn cael eu dangos ar Netflix." **Dyn, 23, Llundain**[192]

### Mae brandiau ar-lein sefydledig yn cynnig dewis eang o gynnwys i gynulleidfaoedd

7.10 Mae gwasanaethau fideo ar-alw byd-eang yn darparu llyfrgelloedd mawr o gynnwys, sy'n taro tant gyda chynulleidfaoedd iau. Maen nhw'n aml yn cynnig mwy o bersonoleiddio ac mae ganddynt ryngwynebau deniadol i ddefnyddwyr. Yn ein hymchwil, dywedodd cynulleidfaoedd ei bod yn haws pori am gynnwys a dibynnu ar argymhellion sy'n berthnasol iddyn nhw nag mewn rhai o chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[193]

7.11 Yn aml, nid oes gan gynulleidfaoedd iau'r un cysylltiad â brand darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel sydd gan lawer o gynulleidfaoedd hŷn, ac yn hytrach mae rhai'n teimlo mwy o gysylltiad â rhai brandiau ar-lein. Mae ein hymchwil wedi darganfod mai Netflix, Spotify ac YouTube sydd fwyaf tebygol o gael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd iau fel 'eu brandiau'. Er eu bod yn dweud y gallai gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac ITV2, hefyd deimlo'n berthnasol a bod ganddynt gynnwys maen nhw'n yn ei werthfawrogi, mae eu defnydd o'r gwasanaethau hyn yn fwy achlysurol.[194]

---

[189] Roedd *Normal People* wedi cael 54 miliwn o geisiadau erbyn diwedd mis Mehefin, ac roedd trydydd tymor *Killing Eve* wedi cael 35 miliwn. BBC, 30 Mehefin 2020. BBC iPlayer yn gosod record newydd ar gyfer y mis mwyaf erioed gyda cheisiadau am 570m o raglenni

[190] Ymchwil Cynulleidfa Ansoddol Jigsaw dros Ofcom, Gorffennaf 2020. Ymchwiliad i berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gyda ffocws penodol ar farn pobl ifanc.

[191] Touchpoints.

[192] Adroddiad yr Asiantaeth Wybodaeth dros Ofcom, Y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion, Ton 15: 2020, t. 21

[193] Ymchwil cynulleidfa Jigsaw ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2020. Edrych ar berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc t.8-9

[194] Ymchwil cynulleidfa Jigsaw ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2020. Edrych ar berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc t. 24.

"Mwy i bobl hŷn ... rhaglenni y byddai mam yn eu gwylio." **Rhywun 16-18 oed yn disgrifio brand y BBC, Belfast**.

7.12 Mae ein hymchwil wedi darganfod nad yw cynulleidfaoedd ifanc yn aml yn ymwybodol bod rhai o'r rhaglenni maen nhw'n eu gwylio ar wasanaethau ffrydio byd-eang wedi cael eu gwneud yn wreiddiol ar gyfer sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'u darlledu ar sianel o'r fath. Yn hytrach, maen nhw'n tueddu i roi clod am y rhaglenni hyn i'r llwyfan neu'r gwasanaeth maen nhw'n yn eu gwylio arnynt. Nodwyd bod Peaky Blinders yn aml yn cael ei wylio, a'i gysylltu, â Netflix yn hytrach na'r BBC.[195] Ar gyfer plant 12-15 oed, mae ymwybyddiaeth brand o Netflix ac YouTube yn uwch na'u hymwybyddiaeth o'r BBC.[196]

## Efallai y bydd angen dulliau mwy radical gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyrraedd pob cynulleidfa yn y tymor hwy

7.13 Mae darlledwyr traddodiadol yn y DU a thramor, sydd yn hanesyddol wedi darparu eu cynnwys ar deledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw ac wedi adeiladu eu modelau busnes o amgylch rhaglenni byw, wedi dechrau ystyried ffyrdd cwbl wahanol o gyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein. Maen nhw wedi bod yn ceisio targedu grwpiau demograffig penodol – drwy ddarparu darnau unigol o gynnwys, yn ogystal â chreu cynnwys yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd ar-lein.

7.14 Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eisoes yn darparu rhywfaint o gynnwys ar-lein y tu allan i'w chwaraewyr wedi'u brandio, ee drwy YouTube. Ond mae hyn yn aml yn cynnwys clipiau hyrwyddo byr gyda'r bwriad o ddenu cynulleidfaoedd yn ôl at y chwaraewyr, yn hytrach na chynnwys llawn. Mae enghreifftiau o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu cynnwys sydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd ar-lein, fel 'The Rundown', fideo newyddion dyddiol wedi'i ddiweddaru ar gyfer defnyddwyr Instagram a Snapchat a gyflwynwyd gan ITV yn 2019. Mae'r BBC hefyd yn darparu cynnwys ar-lein sydd wedi'i anelu at blant, drwy ei frandiau CBeebies, CBBC a BBC Bitesize. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dechrau comisiynu cynnwys yn benodol i'w ddarlledu ar-lein yn ogystal â darlledu teledu traddodiadol. Er enghraifft, ffurfiodd Channel 4 bartneriaeth gyda Snapchat ym mis Mehefin 2020 ac mae'n defnyddio'r gwasanaeth rhannu lluniau a fideos i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd gyda mwy na 300 o fersiynau byr o gynnwys Channel 4. Mae Channel 4 wedi dechrau postio clipiau 'ar fin y dibyn' o opera sebon Hollyoaks ar Snapchat, gan annog dilynwyr i recordio eu diweddglo eu hunain ochr yn ochr â cherddoriaeth y rhaglen.[197]

7.15 Mae enghreifftiau rhyngwladol hefyd o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau bod rhaglenni unigol ar gael y tu allan i'w chwaraewyr eu hunain, ar wasanaethau eraill sydd â chynulleidfaoedd mawr. Er enghraifft, mae darlledwr cyhoeddus o'r Swistir, SRF, wedi dechrau cynhyrchu cynnwys ffuglen yn benodol ar gyfer YouTube ac Instagram. Mae'r

[195] Ymchwil cynulleidfa Jigsaw ar gyfer Ofcom, Gorffennaf 2020. Edrych ar berthynas pobl â Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio'n benodol ar farn pobl ifanc t.27
[196] Ofcom, Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau 2017, t.78.
[197] Channel 4, 4 Mehefin 2020. Channel 4 yn gweithio mewn partneriaeth â Snap Inc. i ddod â llu o sioeau newydd i sianel Discover,

darlledwr gwasanaeth cyhoeddus o'r Ffindir, Yle, wedi dweud ei fod yn agored i ddefnyddio llwyfannau trydydd parti "os ydyn nhw'n ein galluogi i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydyn ni'n gallu eu cyrraedd drwy lwyfannau Yle".[198]

7.16 Gallai strategaethau ar-lein newydd helpu i gyrraedd y cynulleidfaoedd na fyddent fel arall yn troi at chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ond mae anfanteision o bosibl i ddarlledwyr a chynulleidfaoedd. Mae darparu cynnwys y tu allan i'w chwaraewyr, ar wasanaethau eraill a ddefnyddir gan gynulleidfaoedd, yn debygol o arwain at fwy o rannu, a'i gwneud yn anoddach i gynulleidfaoedd ddod o hyd i frandiau gwasanaeth cyhoeddus neu gysylltu â nhw. Gallai manteision dosbarthu cynnwys ar chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael eu colli neu eu lleihau, gydag effaith negyddol bosibl ar y brand. Gallai fod goblygiadau masnachol hefyd os oes gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus lai o reolaeth dros y ffordd mae eu cynnwys yn cael ei ddefnyddio neu ei leoli ar lwyfannau eraill.

7.17 Yn y pen draw, efallai na fydd yn bosibl i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol gysylltu â phob cynulleidfa ar-lein ac ar draws gwasanaethau teledu a ddarlledir. O ystyried yr her hon, gallai'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol elwa ar gynnwys darparwyr newydd sy'n cynnig cynnwys ychwanegol, ochr yn ochr ag ehangder y cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol.

## Gallai darpariaeth newydd gryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol

7.18 Gallai ehangu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i ystod ehangach o ddarparwyr sbarduno arloesedd, gan ddod â gwahanol syniadau, profiad ac arbenigedd i'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mae cynnwys o ansawdd uchel o'r DU eisoes yn cael ei gynhyrchu gan gwmnïau masnachol, er enghraifft gan Sky a Discovery. Dylai annog brandiau sefydledig neu newydd, o bosibl y rheini sydd eisoes yn taro tant gyda chynulleidfaoedd iau ar-lein, helpu i greu amgylchedd lle gellir cymryd risgiau wrth ddarparu a dosbarthu cynnwys o'r DU i gynulleidfaoedd o bob oed.

7.19 Gall y fframwaith rheoleiddio chwarae rhan yn y gwaith o gefnogi'r broses o symud at wasanaethau ar-lein, gan barhau i ddarparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd teledu a ddarlledir. Dylai fframwaith cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd hyrwyddo arloesedd, addasu i newidiadau mewn cynulleidfaoedd a'r farchnad a bod yn ddigon hyblyg i ymdopi â darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Fel y nodir yn Adran 5, byddai hyn yn sicrhau bod modd ymestyn amlygrwydd ac argaeledd, sy'n bwysig i sicrhau nodau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, i ddarparwyr newydd.

7.20 Mae gan fecanweithiau eraill y potensial i ddenu darpariaeth Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus newydd. Yn y DU mae dulliau fel gostyngiadau treth a chronfeydd y gellir cystadlu amdanynt eisoes yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â gofynion rheoleiddio. Gallai'r rhain a dulliau eraill gael eu defnyddio i roi hwb i gynhyrchu a chyflwyno mathau gwahanol o gynnwys teledu a sain gyda ffocws cenedlaethol neu leol neu i gefnogi i gefnogi

---

[198] SRF, 2020. SRF 2024: Aufbruch in die digitale Zukunft; Yle, Mai 2020, *Yle's strategy: for all of us, for each of us. Kioski In Things*

cynnwys cynyddol o'r DU ar SVoDs a llwyfannau eraill yn y DU. Gellid sicrhau bod y ddarpariaeth newydd yn cyd-fynd â'r nodweddion a nodir yn adran 5 ac yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- **Cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wedi'i anelu at segmentau penodol o'r gynulleidfa** ac yn enwedig y rheini nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu â'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac yn defnyddio gwasanaethau eraill yn lle hynny;
- **Darparu gwahanol fathau o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus** fel cynnwys ffurf-fer neu gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr neu sicrhau ei fod ar gael mewn ffyrdd eraill sy'n taro tant gyda chynulleidfaoedd ifanc; neu
- **Darparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus mewn genres cynnwys penodol** (ee y rheini nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol gan y farchnad neu sydd â gwerth penodol i gymdeithas yn gyffredinol) a/neu gynnwys â nodweddion penodol (ee gyda ffocws lleol neu sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas y DU).

7.21 Gallai cymhellion i annog darpariaeth newydd hefyd gefnogi'r gwaith o ddatblygu partneriaethau strategol ar draws y sector cyfryngau ynghyd â dosbarthiad mwy arloesol i gyrraedd cynulleidfaoedd penodol. Er enghraifft, gallai cronfa gyfryngau leol neu ranbarthol, sy'n cefnogi cydweithio rhwng cwmnïau teledu, radio, ar-lein a'r wasg, gryfhau'r ddarpariaeth o newyddion ymchwiliol lleol. Mae Sky hefyd wedi awgrymu y gellid darparu newyddion rhanbarthol drwy fodel masnachfraint cystadleuol. [199]

7.22 Nid yw'r her i ddiwydiant cyfryngau'r DU yn unigryw. Mae llywodraethau mewn gwledydd eraill wedi defnyddio gwahanol ddulliau o sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu darparu ac yn annog darpariaeth newydd o gynnwys pwysig sydd â gwerth i gymdeithas.

- Yn **Iwerddon** cyflwynwyd cyllid cystadlu yn 2015 ochr yn ochr â'r sefydliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol, ac yn ychwanegol atynt.[200] Ystyriwyd bod y gronfa'n llwyddiannus o ran darparu cynnwys na fyddai wedi cael ei wneud fel arall, ac o ran annog risg greadigol a chodi safonau.
- Diddymodd **Seland Newydd** ffi'r drwydded yn 1999 ac fe'i disodlwyd gan fodel cyllido cystadlu. NZ on Air, asiantaeth gyllido annibynnol, sy'n gyfrifol am ariannu cynnwys darlledu cyhoeddus ar draws y llwyfannau. Mae'n derbyn cyllid cyhoeddus y mae cynhyrchwyr yn gwneud cais amdano.[201]
- Mae gan **Ganada** gynllun ardoll i gyllido cynyrchiadau domestig. Cynigiwyd deddfwriaeth a fyddai'n rhoi pwerau newydd i Gomisiwn Radio, Teledu a Thelegyfathrebiadau Canada i ganiatáu iddyn nhw fynnu bod gwasanaethau ar-lein yn gwneud cyfraniadau ariannol i gefnogi cynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant Canada.[202]

---

[199] Sky, 2020. Cyflwyniad i ymchwiliad y Pwyllgor dros Ddigidol, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, Mehefin 2020
[200] Awdurdod Darlledu Iwerddon, 2020. Sound & Vision 4
[201] NZ On Air, 2020. Ein strategaeth ariannu
[202] Panel Adolygu Deddfwriaethol Darlledu a Thelegyfathrebiadau, Ionawr 2020. Canada's communications future: time to act

- Yn **Awstralia** mae gofynion i fuddsoddi mewn cynyrchiadau domestig. Gwnaed cynigion i fynnu bod pob darparwr gwasanaeth cynnwys masnachol (sy'n bodloni trothwyon o ran graddfa), gan gynnwys SVoDs, yn buddsoddi canran o'i refeniw mewn rhaglenni wedi'u sgriptio yn Awstralia, ac yn adrodd am eu cyfradd fuddsoddi i'r ACMA i'w chymeradwyo.[203]
- Mae **Ffrainc** yn defnyddio darpariaeth yn y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD) i osod 'ardoll' ar SVODs i gyllido cynyrchiadau lleol.[204]

7.23 Yn yr adran hon rydym wedi edrych ar sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn addasu i newidiadau sylfaenol o ran arferion gwylio cynulleidfaoedd ond rydym wedi codi cwestiynau ynghylch a fyddant yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd digon eang yn y dyfodol. Gallai set fwy amrywiol o ddarparwyr a llwyfannau, sy'n buddsoddi mewn cynyrchiadau yn y DU ac sy'n darparu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel yn y DU, gefnogi cynaliadwyedd a sicrhau llwyddiant i sector cyfryngau'r DU yn y dyfodol.

**Cwestiwn 7 yr Ymgynghoriad: Beth yw eich barn am y cyfleoedd ar gyfer darparwyr newydd y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus?**

[203] Llywodraeth Awstralia, Medi 2020. Modernising Australian screen content settings
[204] Llywodraeth Ffrainc, 12 Gorffennaf 2019. Tax on digital services: an efficacious fiscal justice measure

# 8. Casgliad

8.1 Yn yr ymgynghoriad hwn rydym wedi tynnu sylw at ddiwydiant cyfryngau llwyddiannus y DU, sydd wedi cael ei adeiladu ar arloesedd a buddsoddiad yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ganolog i economi greadigol y DU. Mae'n sicrhau bod sector cynhyrchu'r DU, sy'n cael ei gydnabod a'i edmygu'n fyd-eang, yn parhau i fod yn gryf.

8.2 Nid yw cynulleidfaoedd erioed wedi cael cymaint o ddewis, gyda mynediad at fwy o gynnwys gwreiddiol o'r DU nag erioed o'r blaen. Maen nhw'n elwa ar ddrama ac adloniant o'r radd flaenaf o'r DU, newyddion dibynadwy a diduedd a materion cyfoes rhagorol.

8.3 Mae achos clir o hyd dros ymyrryd i gefnogi'r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, sy'n apelio i bobl o bob cefndir. Mae'n chwarae rhan allweddol o ran sicrhau'r mathau o raglenni sy'n bwysig i gymdeithas, mae'n creu profiadau i'r gwledydd eu rhannu ac mae'n adlewyrchu'r DU a'i holl amrywiaeth.

8.4 Rydym wedi tynnu sylw at sut mae tarfu technolegol a chwaraewyr byd-eang wedi cyflwyno cystadleuaeth ac wedi ehangu'r dewis, ond wedi rhoi'r darlledwyr presennol o dan bwysau sylweddol. Mae pandemig Covid wedi dangos pwysigrwydd a gwytnwch parhaus y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, ond mae hefyd wedi tanlinellu ei wendidau.

8.5 Mae pwysau cynyddol ar gynaliadwyedd ariannol y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gorfod buddsoddi mwy i ddatblygu eu strategaethau ar-lein, gan gynnal eu gwasanaethau darlledu teledu ar yr un pryd.

8.6 Rydym wedi edrych ar yr angen dybryd i ddiwygio'r dulliau rheoleiddio. Rhaid i fframwaith newydd sicrhau amlygrwydd ac argaeledd darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd ar-lein a'r rheini sy'n dal ar wasanaethau teledu a ddarlledir traddodiadol. Dylai nodi amcanion clir yn ogystal â rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'u dal i gyfrif ar yr un pryd.

8.7 Gallai partneriaethau strategol cryfach ymysg y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus presennol a chwmnïau eraill sicrhau cynaliadwyedd y system ymhellach mewn marchnad fyd-eang sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol. Er bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddatblygu eu strategaethau ar-lein, gallent edrych ar ffyrdd o gyrraedd y cynulleidfaoedd hynny na fyddent fel arfer yn defnyddio eu chwaraewyr.

8.8 Mae manteision i annog darparwyr newydd i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus hefyd. Gallai set fwy amrywiol o ddarparwyr, sy'n buddsoddi mewn cynyrchiadau yn y DU ac sy'n darparu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel yn y DU, gefnogi cynaliadwyedd a sicrhau llwyddiant i sector cyfryngau'r DU yn y dyfodol.

## Y camau nesaf

8.9 Gofynnwn am ymatebion i'r ymgynghoriad hwn er mwyn cyfrannu at ein hargymhellion terfynol i'r Llywodraeth Brydeinig yn haf 2021.

8.10 Cyn cyflwyno ein hargymhellion i'r llywodraeth y flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried a oes meysydd yn y rheoliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol y gellir ac y dylid eu diweddaru.

8.11 Bydd yr ymgynghoriad ar yr argymhellion a nodir yn y papur hwn yn agored am 12 wythnos tan 16 Mawrth 2021.

# A1. Geirfa

**BARB:** Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledwyr.

**Trwydded Weithredu'r BBC –** Mae'n ofynnol i Ofcom osod Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU, gan gynnwys ei wasanaethau ar-lein. Mae'r Drwydded hon yn nodi'r amodau rheoleiddio rydym ni'n eu hystyried yn briodol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

**Fideo ar-alw darlledwyr (BVoD):** Gwasanaethau fideo ar-alw rhad ac am ddim gan y prif ddarlledwyr, gan gynnwys BBC iPlayer, ITV Hub, All4, My5 (mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig mwy na dim ond darpariaeth ar-alw ond cyfeirir atyn nhw fel BVOD er hwylustod).

**Teledu a ddarlledir:** Gelwir hefyd yn deledu llinol - Rhaglenni teledu sy'n cael eu gwylio mewn amser real neu ar adeg darlledu.

**Set deledu gysylltiedig:** Setiau teledu sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd naill ai drwy swyddogaeth teledu clyfar, blwch pen-set, ffon ffrydio neu gonsol gemau. Nid yw teledu clyfar bob amser wedi'i gysylltu os nad yw wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd.

**Darparwr cynnwys**: Darlledwyr a gwasanaethau ffrydio, sy'n gweithredu eu sianeli a/neu raglenni eu hunain.

**Teledu daearol digidol (DTT):** Y dechnoleg teledu sy'n cludo'r gwasanaeth Freeview.

**Cynnwys ar-alw:** Cynnwys ydy hwn sydd ar gael i bobl ei ddefnyddio ar amser o'u dewis, o blith catalog o raglenni a gynigir gan ddarparwr gwasanaeth (ee BBC iPlayer)

**Llwyfan:** Rhwydwaith neu wasanaeth a ddefnyddir i ddosbarthu a darparu mynediad at gynnwys. Mae'r rhain yn cynnwys llwyfannau daearol digidol, lloeren a chebl, a ddefnyddir i wylio teledu a ddarlledir, a llwyfannau ar-lein, sy'n cael eu defnyddio i gael gafael ar gynnwys ar setiau teledu clyfar neu ddyfeisiau eraill sy'n cysylltu â'r rhyngrwyd.

**Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSBs):** Y BBC, trwyddedeion Channel 3 (ITV ac STV), Channel 4, Channel 5 ac S4C.

**Chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus**: BBC iPlayer, ITV Hub, All4, My5, Clic a chwaraewr STV.

**Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr:** Nod Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr yw gofyn am syniadau ac ysgogi trafodaeth ynghylch sut i wneud yn siŵr bod gan y DU system darlledu gwasanaeth cyhoeddus gadarn sy'n parhau i addasu i ddiwallu anghenion y gynulleidfa. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.

**Teledu clyfar:** Set deledu wedi'i chysylltu â'r rhyngrwyd sy'n cynnig mynediad at sianeli llinol darlledu am ddim ac apiau ffrydio trydydd parti.

**Fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD):** Gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio y telir amdanynt fel Netflix, Amazon Prime Video a NOW TV. Er bod y gwasanaethau hyn yn cynnig mwy na dim ond fideo ar-alw (ee ffrydio, sianeli teledu llinol y telir amdanynt, yn ogystal â chynnwys i'w brynu neu rentu) maen nhw'n cael eu categoreiddio fel SVOD yn yr adroddiad hwn er hwylustod.

**Fideo ar-alw (VoD):** Mae'n cynnwys gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) a fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) rhad ac am ddim, fel y disgrifir uchod.

# A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar ddydd Mawrth, 16 Mawrth 2021.

A2.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/cymru/consultation. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i sgrinfach.trafodaethfawr@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno.

A2.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
- Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A2.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A2.6 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A2.7 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A2.8 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad 5. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A2.9 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r tîm trwy e-bost yn sgrinfach.trafodaethfawr@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A2.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar wefan Ofcom, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A2.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

A2.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A2.13 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A2.14 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod haf 2021.

A2.15 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A2.16 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad x.

A2.17 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A2.18 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A3.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A3.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

________________________________________________________________________________

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

# A5. Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno y dylai fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer darparu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gefnogi dull cyflwyno mwy hyblyg, 'niwtral o ran gwasanaeth', sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau? Tudalen 39

**Cwestiwn 2**: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer fframwaith atebolrwydd clir? Tudalen 39

**Cwestiwn 3:** Beth ddylid ei gynnwys yng 'nghynnig' y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus? Tudalen 43

**Cwestiwn 4:** Yn eich barn chi, pa opsiynau y dylem eu hystyried o ran argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus? Tudalen 43

**Cwestiwn 5:** Beth yw'r opsiynau ar gyfer cyllido cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, ac a oes gwersi y gallwn ni eu dysgu o ddulliau gweithredu gwledydd eraill? Tudalen 52

**Cwestiwn 6:** Beth yw eich barn chi am y cyfleoedd i gydweithio rydyn ni wedi cyfeirio atyn nhw? Tudalen 54

**Cwestiwn 7:** Beth yw eich barn am y cyfleoedd ar gyfer darparwyr newydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus? Tudalen 60